Dawn Elizabeth Wooldridge

GWELLA CYSILL AT DDEFNYDD CYFIEITHWYR: adnabod ymyrraeth gan yr iaith Saesneg mewn testunau Cymraeg

Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Prifysgol Bangor

MRes 2011

CRYNODEB

Ymdrinnir yn y traethawd hwn â'r ffenomenon o ymyrraeth fel y'i ceir mewn gwaith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Nod yr ymchwil yw archwilio'r posibilrwydd o addasu'r gwirydd gramadeg *Cysill* i allu adnabod a chywiro'r fath ymyrraeth, a hynny er mwyn gwella'r broses gyfieithu.

Yn rhan gyntaf y traethawd rhoir y wybodaeth gefndir. Trafodir y diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg a'r gwahanol adnoddau technoleg cyfieithu sydd ar gael. Cyflwynir hefyd y cefndir damcaniaethol, gan fanylu ar y cysyniad o ymyrraeth yng nghyd-destun astudiaethau cyfieithu. Gofynnir a yw ymyrraeth yn wall y dylai gwirydd gramadeg ei gywiro a thrafodir y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru.

Yn ail ran y traethawd dadansoddir data o ddau gorpws, sef corpws cyfochrog o gyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg a chorpws *Cysill ar-lein*, sy'n cynnwys testunau Cymraeg nad ydynt yn gyfieithiadau. Cyflwynir a chategoreiddir pob enghraifft o ymyrraeth sy'n codi yn y cyfieithiadau ond canolbwyntir ar un enghraifft benodol, sef y defnydd o enw haniaethol Cymraeg wrth gyfieithu enw haniaethol o'r testun Saesneg. Ystyrir y diffiniad o enw haniaethol ac awgrymir bod yr enwau dan sylw yn 'enwau proses'.

Yn rhan olaf y traethawd, cymhwysir y canfyddiadau at reolau gramadeg *Cysill*, gan gynnig rheolau newydd i ddelio â rhai elfennau o ymyrraeth.

CYNNWYS

Crynodeb 2
Cynnwys 3
Rhestr tablau 5
Rhestr ffigyrau 6
Byrfoddau 8
Diolchiadau 9
Datganiad yr awdur 10

1. RHAGYMADRODD 11

1.1 Bwriad yr ymchwil a strwythur y traethawd 11

1.2 Cyfieithu yng Nghymru 13

1.3 Technoleg cyfieithu a'i defnydd 18

2. YMYRRAETH YM MAES ASTUDIAETHAU CYFIEITHU 26

2.1 Astudiaethau cyfieithu 26

2.2 Ymyrraeth 30

2.2.1 Diffinio ymyrraeth 31

2.2.2 Rhinwedd neu wendid? 33

3. METHODOLEG 37

3.1 Astudio iaith drwy ddefnyddio corpora 37

3.2 Casglu'r data 40

3.2.1 Corpws cyfochrog o gyfieithiadau 41

3.2.2 Corpws *Cysill ar-lein* 45

3.2.3 Moeseg 49

3.3 Dadansoddi'r data 50

4. DADANSODDI YMYRRAETH 52

4.1 Y corpws cyfochrog 53

4.2 Sylwadau'r marcwyr 54

4.3 Arolwg o'r enghreifftiau o ymyrraeth 56

4.3.1 Idiom 59

4.3.2 Geirfa 67

4.3.3 Cystrawen 70

4.4 Defnyddio'r enw yn lle'r berfenw yn y testun targed 81

4.5 Cymharu'r canlyniadau ag iaith corpws *Cysill ar-lein* 92

4.6 Cyfatebiaeth berfenwau ac enwau yn Gymraeg a'r Saesneg 102

5. CYMHWYSO'R CANFYDDIADAU AT *CYSILL* 112

5.1 Pensaernïaeth *Cysill* 112

5.2 Rheolau gramadeg *Cysill* 117

6. CASGLIADAU 128

6.1 Crynodeb o'r canlyniadau 128

6.2 Ymchwil pellach posibl 131

ATODIADAU 133

Atodiad 1: Y 4 darn Saesneg a gyfieithwyd yn y gweithdai 134

Atodiad 2: Telerau defnydd *Cysill ar-lein* 136

Atodiad 3: Marcwyr y cyfieithiadau 137

Atodiad 4: Canllawiau i farcwyr ac i ymgeiswyr arholiadau CCC 138

Atodiad 5: Enghreifftiau o ymyrraeth yn y gwaith cyfieithu 143

CYFEIRIADAU 151

TABLAU A FFIGYRAU

Rhestr Tablau

Tabl 1	Canran o oriau a dreulir ar dasgau cyfieithu	17
Tabl 2	Adnoddau technoleg cyfieithu a ddefnyddir gan gyfieithwyr	22
Tabl 3	Defnydd o *Cysill ar-lein* rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2009	46
Tabl 4	Enghreifftiau o ymyrraeth	57
Tabl 5	Priod-ddulliau	61
Tabl 6	Trosiadau	63
Tabl 7	Berfau ymadroddol idiomatig	64
Tabl 8	Ymadroddion idiomatig	66
Tabl 9	Ymyrraeth ar lefel eirfaol	68
Tabl 10	Ymyrraeth ar lefel gystrawennol	74
Tabl 11	Enghreifftiau o'r enw "ymgynghoriad" yng ngweithdy 'Hafren'	82
Tabl 12	Enghreifftiau o'r berfenw "ymgynghori" yng ngweithdy 'Hafren'.....	83
Tabl 13	Enghreifftiau o'r enw "dinistriad" yng ngweithdy 'Hafren'	83
Tabl 14	Enwau haniaethol gyda'r ôl-ddodiad "-tion"	85
Tabl 15	Enghreifftiau o'r enw "adeiladwaith" yng ngweithdy 'Hafren'	86
Tabl 16	Enghreifftiau o'r enw "dienyddiad" yng ngweithdy 'Carvajal'	89
Tabl 17	Cyfieithu "persecution"	90
Tabl 18	Cyfieithu "condemnation"	91
Tabl 19	Enghreifftiau o'r enw "ymgynghoriad" yng nghorpws *Cysill ar-lein* ..	93
Tabl 20	Enghreifftiau o'r berfenw "ymgynghori" yng nghorpws *Cysill ar-lein* .	96
Tabl 21	Rhestr o ôl-ddodiaid enwol a ychwanegir at fonau berfol	121

Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1	Dadansoddiad o gyflogaeth aelodau CCC	15
Ffigwr 2	Aelodaeth CCC yn ôl rhyw	16
Ffigwr 3	Defnydd o *Cysill* yn y gweithdai cyfieithu: fesul darn	23
Ffigwr 4	Defnydd o *Cysill* yn y gweithdai cyfieithu: canrannau	24
Ffigwr 5	Meysydd sy'n gorgyffwrdd â'r maes astudiaethau cyfieithu	27
Ffigwr 6	'Map' Holmes o astudiaethau cyfieithu	28
Ffigwr 7	Cangen 'gymhwysol' astudiaethau cyfieithu	29
Ffigwr 8	Ymyrraeth	32
Ffigwr 9	Casglu data ar gyfer y ddau gorpws	40
Ffigwr 10	Y corpws cyfochrog o gyfieithiadau	42
Ffigwr 11	Enghraifft o sylwadau Marciwr A	43
Ffigwr 12	Enghraifft o sylwadau Marciwr B	44
Ffigwr 13	Enghraifft o sylwadau Marciwr C	44
Ffigwr 14	Twf defnyddwyr unigryw *(Cysill ar-lein)*	46
Ffigwr 15	Twf testunau *(Cysill ar-lein)*	46
Ffigwr 16	Corpws *Cysill ar-lein*	47
Ffigwr 17	Categorïau o destunau yng nghorpws *Cysill ar-lein*	47
Ffigwr 18	Gwaith gwallus yng nghorpws *Cysill ar-lein*	48
Ffigwr 19	Neges *Twitter (Cysill ar-lein)*	48
Ffigwr 20	Gwaith cwrs *(Cysill ar-lein)*	48
Ffigwr 21	E-bost *(Cysill ar-lein)*	49
Ffigwr 22	Traethawd coleg *(Cysill ar-lein)*	49
Ffigwr 23	*MonoConc Pro* ar waith	51
Ffigwr 24	Categorïau o ymyrraeth yn y cyfieithiadau	59

Ffigwr 25 Ymyrraeth gystrawennol 71

Ffigwr 26 Gwahaniaethau rhwng y Saesneg a'r Gymraeg 80

Ffigwr 27 Enwau haniaethol yn y testun 'Hafren'..... 87

Ffigwr 28a Enwau haniaethol yn y testun 'Carvajal' 90

Ffigwr 28b Enwau haniaethol yn y testun 'Carvajal' 92

Ffigwr 29 Cydleoliadau'r enw haniaethol "ymgynghoriad" 94

Ffigwr 30 Cydleoliadau'r berfenw "ymgynghori" (1) 98

Ffigwr 31 Ciplun o *Geiriadur yr Academi* 102

Ffigwr 32 Ciplun o *Cysgeir* 102

Ffigwr 33 Prif ddosbarthiadau enwau 105

Ffigwr 34 Y math o enwau a gyfieithir gan ferfenwau yn Gymraeg 109

Ffigwr 35 Cydleoliadau'r berfenw "ymgynghori" (2) 110

Ffigwr 36 Proses wirio *Cysill* 113

Ffigwr 37 Gwirio gwallau gramadeg 115

Ffigwr 38 Cywiro arddodiaid 117

Ffigwr 39 Yr ôl-ddodiad "-(i)ad" yn GPC 123

Ffigwr 40 Geiriau yn *Cysgeir* sy'n cynnwys yr ôl-ddodiad "-(i)ad" 124

Ffigwr 41 Neges newydd bosibl 126

BYRFODDAU

a.	ansoddair, ansoddeiriol
Art.	*Art*
be.	berfenw (-au, -ol)
bf.	berf(au)
C.	Cymraeg
CCC	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
cyf.	cyfrol
e.	enw(au)
e.e.	er enghraifft
enw.	enwol, enwedig
f	*feminine*
gol.	golygydd, golygwyd gan
GPC	*Geiriadur Prifysgol Cymru*
gw.	gweler
GyrA	*Geiriadur yr Academi*
ll.	lluosog, llinell
llau.	llinellau
LlCC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
m	*masculine*
Mth.	*Mathematics*
n.	*noun*
oldd.	ôl-ddodiad, ôl-ddodiaid
Ph.	*Physics*
rhn.	rhywun
rhth.	rhywbeth
S.	Saesneg
SL	iaith ffynhonell *(Source Language)*
ST	testun ffynhonell *(Source Text)*
sth.	*something*
td.	tudalen
TL	iaith darged *(Target Language)*
trf.	terfyniad(au)
tt.	tudalennau
TT	testun targed *(Target Text)*
vn.	*verbnoun*

DIOLCHIADAU

Ariannwyd yr ymchwil hwn gan ysgoloriaeth KESS a hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru am eu nawdd. Diolch hefyd i Ms Nia Wyn Edwards, Dr Judith Kaufmann a Mr Geraint Wyn Parry yn Swyddfa'r Gymdeithas am eu croeso cynnes iawn ac am eu parodrwydd i'm cynorthwyo ym mhob ffordd bosibl.

Mawr yw fy niolch, wrth reswm, i bwyllgor arolygu'r ymchwil, sef Mrs Delyth Prys, Dr Judith Kaufmann, Dr Peredur Davies a'r Athro Margaret Deuchar. Cydnabyddaf yn ddiolchgar iawn y cyfarwyddyd cadarn a gefais oddi wrthynt a diolchaf iddynt am fy achub rhag mynd ar gyfeiliorn ar sawl achlysur. Diolch hefyd i aelodau staff Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr a fu'n gweithredu fel pwyllgor 'answyddogol', sef Dr Tegau Andrews, Mr David Chan, Mr Dewi Bryn Jones a Mr Gruffudd Prys. Bu'r pedwar ohonynt yn fwy na pharod i'm helpu drwy roi o'u hamser, eu profiad a'u harbenigedd ac mae'r gwaith hwn yn sicr ar ei ennill o'i herwydd.

Hoffwn hefyd nodi fy nyled i holl aelodau'r staff yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe am feithrin fy niddordeb yng ngramadeg y Gymraeg ac i Ms Rebecca Jones o Swyddfa'r Iaith Gymraeg a Mr Osian Rhys, cyn bennaeth ar y swyddfa honno, am f'ysbrydoli i wneud ymchwil.

Finally I'd like to thank my dear parents and Aled, Michele, Paul and Ruth for their constant support, encouragement and help — I couldn't have done this without you.

DATGANIAD YR AWDUR

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

GOSODIAD 1

Cyflwynir y traethawd hir hwn i fodloni'n rhannol y gofynion am radd MRes.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hir hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliadau fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

Atodir rhestr o gyfeiriadau.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

GOSODIAD 3

Yr wyf yn rhoi, drwy hyn, ganiatâd i'm traethawd hir, os derbynnir ef, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

1. RHAGYMADRODD

"Nid yw cyfieithiad da'n digwydd ar hap."

Gruffudd (2005:9)

1.1 Bwriad yr ymchwil a strwythur y traethawd

Mae'r deugain mlynedd diwethaf wedi bod yn dyst i dwf aruthrol o fewn y sector cyfieithu yng Nghymru gyda chyfieithu yn datblygu o fod yn broffesiwn gyda dim ond llond dwrn o gyfieithwyr proffesiynol i fod yn ddiwydiant sydd, erbyn hyn, yn cynnig gwaith i fwy na naw cant o gyfieithwyr ledled Cymru (Menter a Busnes 2005:4). Serch hynny, ymddengys fod y sector "yn dal i gadw rhywfaint o'i flas 'diwydiant y bwthyn' gyda chyfieithwyr yn meddu ar gymwysterau uchel, yn dod o gefndir ieithyddol yn hytrach na thechnegol, a heb gadw i fyny gyda datblygiad cyflym technoleg cyfieithu", yn ôl canfyddiadau adroddiad a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2008-9[1]. Nododd fod y sector "ymhell ar ei hôl hi o ran mabwysiadu'r ymarfer gorau rhyngwladol a defnyddio'r atebion technolegol" a bod "angen y rhain ar fyrder er mwyn cynyddu maint y gwaith y gellir ei gyfieithu ac er mwyn cadw costau i lawr heb gyfaddawdu ar ansawdd". Ymhlith yr atebion a gynigiwyd oedd creu "bocs tŵls cyfieithwyr" a fyddai'n dwyn ynghyd adnoddau i wella'r broses gyfieithu, adnoddau megis geiriaduron, gwirwyr sillafu a gramadeg, systemau ac ychwanegion cof cyfieithu, meddalwedd cyfieithu gyda chymorth cyfrifiadur, systemau rheoli llif gwaith a'r holl gymhorthion cyfieithu technolegol newydd. Ffocws y gwaith ymchwil hwn fydd un o'r adnoddau hynny, sef y gwirydd sillafu a gramadeg *Cysill*.

Mae *Cysill* yn rhan o'r pecyn meddalwedd Cysgliad[2] ac yn ôl Berwyn Prys Jones, Cadeirydd cyfredol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, "no professional Welsh translator should be without it" (2005b:6). Rhaid cofio, fodd bynnag, na chafodd *Cysill* ei greu'n bwrpasol at ddefnydd cyfieithwyr proffesiynol, ond fel adnodd iaith cyffredinol (Prys *et al*

[1] Gw. Prys, D. *et al* (2009) *Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y diwydiant cyfieithu yng Nghymru: arolwg dadansoddol* (Project Rhif: HE 06FSP 1014), tt. 26-7. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar-lein yn www.catcymru.org/wordpress/wp-content/uploads.

[2] Am ragor o wybodaeth, ewch i www.cysgliad.com a gw. 1.3 isod.

2009:21). I ba raddau, felly, fyddai'n bosibl teilwra meddalwedd o'r fath i ddiwallu anghenion y diwydiant cyfieithu yng Nghymru?

O dderbyn mai'r "peth pwysig wrth gyfieithu yw na ddylai'r darllenydd wybod a yw'r darn y mae e'n ei ddarllen wedi ei gyfieithu" (Gruffudd 2005:9), mae'n eglur mai tasg pob cyfieithydd wrth drosi o un iaith i'r llall yw ceisio osgoi ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell. Yng Nghymru, lle y mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yn trosi o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol, mae'n bwysicach fyth osgoi ymyrraeth oherwydd bod cyfieithu yn rhan o strategaeth iaith ehangach (Bwrdd yr Iaith 2006:5). Ond pa mor dda bynnag y bo'r cyfieithydd, mae'n anochel bron y bydd rhywfaint o ymyrraeth yn llithro i bob cyfieithiad (Newmark 1991:78). Bwriad yr ymchwil hwn, felly, yw archwilio'r posibilrwydd o raglennu'r gwirydd gramadeg cyfrifiadurol *Cysill* i allu adnabod, ac wedyn cywiro, achosion o ymyrraeth gan yr iaith Saesneg mewn cyfieithiadau Cymraeg.

Strwythur y traethawd

Cyflwynir yn y bennod agoriadol hon y wybodaeth gefndir, gyda throsolwg o'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru i ddechrau. Ceir wedyn drafodaeth o dechnoleg cyfieithu a'r adnoddau technoleg cyfieithu sydd ar gael i gyfieithwyr, a hynny oherwydd ffocws yr ymchwil ar ddarparu gwell adnoddau ar gyfer y diwydiant.

Ystyrir cyd-destun ehangach yr ymchwil yn yr ail bennod. Cyflwynir maes astudiaethau cyfieithu ac ymhelaethir ar y cysyniad o ymyrraeth, er mwyn gosod sylfaen ddamcaniaethol i'r gwaith. Gofynnir a yw ymyrraeth yn wall y dylai gwirydd gramadeg ei gywiro a thrafodir y sefyllfa ieithyddol yn y Gymru sydd ohoni.

Yn y drydedd bennod amlinellir methodoleg yr ymchwil a disgrifir y ddau gorpws sy'n sail i'r gwaith dadansoddi, sef corpws cyfochrog o gyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg a chorpws *Cysill ar-lein*, sy'n gasgliad o destunau Cymraeg heb eu golygu.

Mae pennod pedwar y traethawd yn dadansoddi'r data. Cyflwynir pob enghraifft o ymyrraeth yn ei thro cyn canolbwyntio ar un enghraifft benodol o ymyrraeth, sef y defnydd o enw haniaethol lle y byddai'r Gymraeg yn dueddol o ddefnyddio berfenw. Ystyrir y diffiniad o enw haniaethol ac awgrymir bod yr enwau dan sylw yn 'enwau proses'.

Cymhwysir y canfyddiadau wedyn at reolau gramadeg *Cysill* ym mhennod pump, gan gynnig rheolau newydd i ddelio ag ymyrraeth.

Mae'r traethawd yn cloi â thrafodaeth o'r casgliadau ac awgrymir sawl maes lle y gellid gwneud ymchwil pellach.

1.2 Cyfieithu yng Nghymru

Gellir olrhain hanes cyfieithu yng Nghymru mor bell yn ôl â'r Oesoedd Canol, pan droswyd testunau cyfreithiol, crefyddol a gramadegol rhwng Lladin a Chymraeg (Kaufmann 2009:9)[3]. Erbyn heddiw, mae cyfieithu yng Nghymru wedi esblygu i gynnwys lliaws o ieithoedd eraill megis Ffrangeg, Pwyleg, Ffinneg, Arabeg, Ffarsi a Bengaleg, ond nid yw'n syndod, efallai, mai trosi rhwng y Saesneg a'r Gymraeg y mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yng Nghymru (Prys *et al* 2009:11). Gyda gwaith y cyfieithwyr hyn y mae diddordeb ein hymchwil. Gadewch i ni ddechrau, felly, drwy gynnal trosolwg cyffredinol o'r diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg.

Y diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg

Mae'r diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg yn un cymharol ifanc, o gofio mai dim ond ym 1966 y penodwyd y cyfieithydd proffesiynol cyntaf yng Nghymru gan adran y Llywodraeth (Jones 2005b:3). Serch hynny, mae wedi dod erbyn hyn yn "sector sylweddol" yn economi Cymru (Prys *et al* 2009:4) ac mae'n rhaid gofyn beth yn union a achosodd y fath dwf dros gyfnod mor fyr. Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ceir tri phrif reswm dros y twf sylweddol hwn (2006:7), sef

- cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig a'r awydd i amlygu hynny drwy ddefnyddio'r Gymraeg,
- deddfwriaeth yn codi statws y Gymraeg, a
- datganoli grym llywodraethu o Lundain a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Er nad yw'n hawdd mesur cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig, gellir yn sicr olrhain y rhan hollbwysig a chwaraewyd gan ddeddfwriaeth a datganoli wrth greu'r diwydiant cyfieithu ffyniannus a welir heddiw. Datgana Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, fod Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 yn "gam pendant iawn at

[3] Am grynodeb hwylus o hanes cyfieithu yng Nghymru, gw. Jones (2005a *passim*), Kaufmann (2009:17-42) ac Andrews (2010:17-75).

normaleiddio'r iaith Gymraeg", gan agor y drws at ddefnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau cyhoeddus (2005a:4), ond noda mewn man arall "It was the Local Government Act of 1972 that really revolutionised the situation as far as translation was concerned" (2005b:4). O ganlyniad i'r Ddeddf, aildrefnwyd y cynghorau a dechreusant ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus, gan gyflogi cyfieithwyr i gynnal gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ac i gyfieithu dogfennau. Daeth tro arall ar fyd cyfieithu wedyn pan basiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993; achosodd y gofynion statudol a ddeilliodd o'r Ddeddf alw cynyddol am gyfieithu dogfennau o bob lliw a llun (Kaufmann 2009:34). Ond nid oes dwywaith i'r newid mwyaf ym myd cyfieithu ddigwydd wrth sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Yng ngeiriau Jones, "Gone were the old restrictions on what was to be translated. It was more a matter of deciding what wasn't going to be translated" (2005b:7).

Golyga hyn oll fod erbyn heddiw ddiwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg llewyrchus iawn. Yn wir, myn Jones fod "Welsh translation has become almost a fashionable field to enter" (2005b:9). Ceir cyfieithwyr ym mhob cwr o'r wlad, a rhai dros y môr, sy'n ennill eu bywoliaeth drwy drosi rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, naill ai'n amser-llawn neu'n rhan-amser. Ond gan fod modd gweithio fel cyfieithydd heb fod yn aelod o unrhyw gorff cyfieithu proffesiynol, mae'n anodd iawn cael ystadegau pendant ynglŷn â faint yn union o gyfieithwyr sydd yn y sector. Yn 2005, cynhaliwyd arolwg o'r diwydiant gan Fenter a Busnes a adnabyddodd 900 o randdeiliaid allweddol (Menter a Busnes 2005:4) ond gallwn dybio bod y ffigwr llawer yn uwch na hynny mewn gwirionedd.

Ymhlith y cyfieithwyr hyn, mae 335[4] yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sef y corff proffesiynol cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg a sefydlwyd ym 1976[5]. O ddadansoddi aelodaeth CCC, gwelir bod cyfran helaeth o'r aelodau (57%) yn gweithio ar eu liwt eu hunain, tra cyflogir 18% gan yr Awdurdodau Lleol a'r Cynulliad a gweithia 9% ym maes addysg. Mae 10% yn cyfieithu i amryw sefydliadau eraill, tra bo 6% naill ai wedi ymddeol neu yn ddi-waith/anhysbys (gw. Ffigwr 1 isod).

[4] Nifer yn gywir ym mis Awst 2010.
[5] Gw. www.cyfieithwyrcymru.org.uk am ragor o wybodaeth am waith CCC.

Ffigwr 1: Dadansoddiad o gyflogaeth aelodau CCC

Ffynhonnell: Prys *et al* (2009:15)

Nodwedd arall sy'n dod i'r fei wrth ystyried aelodaeth CCC yw'r ffaith bod llawer mwy o ferched na dynion yn gweithio yn y maes (gw. Ffigwr 2 isod). Cynigiodd adroddiad diweddar ar y diwydiant cyfieithu yng Nghymru ddau reswm dros y cyfartaledd uwch hwn. Nododd, yn gyntaf, fod nifer o ferched yn dod i'r proffesiwn ar ôl cael plant; mae hyblygrwydd y gwaith yn golygu bod modd iddynt gyfuno gweithio gartref â gofalu am y plant, a'u bod ar yr un pryd yn ennill cyflog sy'n gyfwerth â'u cymwysterau academaidd. Yn ail, tuedda mwy o ferched i astudio ieithoedd yn yr ysgol ac felly nid yw'n syndod efallai fod mwy o ferched yn gweithio fel cyfieithwyr (Prys *et al* 2009:9).

Ffigwr 2: Aelodaeth CCC yn ôl rhyw

Ffynhonnell: Gwefan CCC (Hydref 2010)

Ymhelaethodd yr adroddiad hefyd ar gymwysterau'r cyfieithwyr. O sampl o 310 aelod o CCC, canfuwyd bod gan 84% ohonynt Radd Baglor, bod gan 23% ohonynt Radd Meistr a bod gan 4% ohonynt Ddoethuriaeth, gan amlygu sgiliau uchel iawn y gweithlu (Prys *et al* 2009:13-14). Yn ogystal â'r cymwysterau academaidd hyn, wrth gwrs, mae'n bosibl bod gan y cyfieithwyr gymwysterau cyfieithu neilltuol; nid oes modd bod yn aelod o CCC heb lwyddo mewn un o'i harholiadau[6]. Mae'r un peth yn wir am y ddwy gymdeithas broffesiynol arall sy'n derbyn cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, sef *The Chartered Institute of Linguists*[7] a *The Institute of Translation and Interpreting*[8].

O ran y math o waith a gyflawnir gan y sector, dengys Tabl 1 isod fod cyfieithu testun yn mynd â phrif sylw'r cyfieithwyr — a dyna fydd ffocws yr ymchwil hwn hefyd — a hynny gan amlaf o Saesneg i'r Gymraeg yn hytrach na'r ffordd arall, er bod peth amser yn cael ei dreulio wrth gyfieithu i'r Saesneg hefyd. Mae'r testunau a gyfieithir yn amrywio'n

[6] Cynhelir arholiadau ar lefel Aelodaeth Sylfaenol, Aelodaeth Gyflawn ac Aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd. Gw. www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cwestiynau_a_ofynir_yn_aml-38.aspx am fanylion safon y tri arholiad a'r amodau ymgeisio.
[7] Gw. www.iol.org.uk
[8] Gw. www.iti.org.uk/indexMain.html

sylweddol, ac "yn rhychwantu byd addysg (yn gyfeirlyfrau ac yn werslyfrau), byd gweinyddu (yn llythyrau, hysbysiadau, adroddiadau a dogfennau rif y gwlith), byd marchnata (yn hysbysebion a deunyddiau hyrwyddo) a hefyd amryw byd o beuoedd nad yw'r Gymraeg wedi mentro iddyn nhw cynt, sef y gwyddorau newydd 'na sydd wedi codi fel madarch dros yr hanner canrif diwethaf" (Jones 2005a:6).

Tabl 1: Dosraniad oriau cyfieithu gan gyfieithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat

Tasg	Canran Cyfartaledd (Y Sector Cyhoeddus a'r Sector Gwirfoddol)	Canran Cyfartaledd (Y Sector Preifat)
Cyfieithu testunau Saesneg > Cymraeg	65%	72%
Cyfieithu testunau Cymraeg > Saesneg	14%	15%
Cyfieithu ar y pryd Saesneg > Cymraeg	1%	2%
Cyfieithu ar y pryd Cymraeg > Saesneg	5%	7%
Is-deitlo a throsleisio Saesneg > Cymraeg	0.5%	0%
Is-deitlo a throsleisio Cymraeg > Saesneg	0.2%	1%

Ffynhonnell: Menter a Busnes (2005:8&11 – Cyfuniad o ddau dabl)

Fel y gwelir, treulir peth amser hefyd wrth gyfieithu ar y pryd, ond yn yr achos hwn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg y mae'r cyfieithwyr yn ei wneud gan amlaf, gan weithio mewn ystod eang o gyfarfodydd, yn y Cynulliad ac yn y llysoedd barn. Awgryma Jones fod cyfieithwyr ar y pryd Cymru "gyda'r gorau yn Ewrop am eu bod yn clywed ac yn siarad yr iaith y maen nhw'n cyfieithu ohoni a'r iaith y maen nhw'n cyfieithu iddi" (Jones 2005a:6).

Ychydig o waith is-deitlo a throsleisio a nodir yn y tabl, ond mae'n rhaid cofio y casglwyd yr ystadegau hyn yn ôl yn 2005. Erbyn heddiw ceir is-deitlau ar y rhan fwyaf o raglenni Cymraeg ar S4C, hyd yn oed y rhaglenni byw[9], ac o'i herwydd byddid yn disgwyl canrannau llawer yn uwch pe casglwyd yr ystadegau heddiw.

I grynhoi, felly, mae'n eglur bod y sector cyfieithu Cymraeg/Saesneg yn un weithgar a llewyrchus. Yng ngeiriau Jones (2005a:6), "O ystyried yr holl waith sy'n cael ei wneud ym

[9] Am drafodaeth ar is-deitlo rhaglenni Cymraeg S4C, gw. Humphreys (2009:63).

myd cyfieithu, mae'n ddigon posibl bod mwy'n cael ei gyfieithu heddiw mewn diwrnod nag a gyfieithwyd mewn canrif a rhagor gynt."

Serch hynny, honnir bod y sector "yn dal i gadw rhywfaint o'i flas 'diwydiant y bwthyn'" pan ddaw hi'n fater o ddefnyddio technoleg cyfieithu (Prys *et al* 2009:26). Ystyriwn yn awr, felly, yr adnoddau technoleg cyfieithu sydd ar gael i'r diwydiant a'r defnydd a wneir ohonynt. Seilir y drafodaeth, oni nodir yn wahanol, ar wybodaeth ar geir yn yr adroddiad *Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y diwydiant cyfieithu yng Nghymru: arolwg dadansoddol* (Project Rhif: HE 06FSP 1014), Prys *et al* (2009).[10]

1.3 Technoleg cyfieithu a'i defnydd

Mae'r term "technoleg cyfieithu" yn un eang iawn ei gwmpas, gan gael ei ddefnyddio i gyfeirio at yr ystod helaeth o gymhorthion cyfieithu sydd ar gael naill ai ar ffurf electronig, neu'n gyfrifiadurol neu dros y we; yn eu plith mae geiriaduron electronig, offer gwirio ar gyfer sillafu a gramadeg, meddalwedd cof cyfieithu, ac offer amgylchedd cyfieithu (a elwir yn TEnT yn Saesneg). Mae hefyd yn cynnwys cyfieithu peirianyddol ac fe'i defnyddir fwyfwy wrth ddisgrifio'r cymhorthion gweinyddol sy'n greiddiol i'r broses gyfieithu, megis systemau rheoli dogfennau dwyieithog neu amlieithog. Gellir rhannu'r holl adnoddau hyn i ddau ddosbarth — adnoddau *cynnwys* ac adnoddau *meddalwedd.* Mae'r naill yn ddibynnol ar y llall ond, fel yr esbonnir isod, gall adnoddau meddalwedd fod yn annibynnol ar iaith:

> The provision of *content* resources is closely entwined with the *software* resources available to translators. The software acts as containers or delivery media for the content, but an important difference is that content resources are language dependent, whereas software is, or can be, language independent. (Prys *et al* 2009:35)

O gymryd yr offer technoleg amgylchedd cyfieithu *Déjà Vu* fel enghraifft, caiff y feddalwedd, sy'n annibynnol ar unrhyw iaith, ei defnyddio gan gyfieithwyr ledled y byd yn gweithio gyda llu o ieithoedd,[11] ond gall y feddalwedd honno 'westeia' adnoddau cynnwys iaith-benodol megis cofion cyfieithu wedi'u poblogi'n barod, corpora cyfochrog o gyfieithiadau ac offer prawfddarllen. A ffocws y gwaith hwn ar y dechnoleg cyfieithu a

[10] Mae'r adroddiad llawn ar gael ar-lein yn www.catcymru.org/wordpress/wp-content/uploads.
[11] Gw. www.atril.com, lle y nodir bod dros 3,000 o gwmnïau cyfieithu a thros 8,500 chyfieithwyr llawrydd byd-eang yn defnyddio meddalwedd *Déjà Vu*. [Cyrchwyd ym mis Ebrill 2010.]

ddefnyddir gan y diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg yn benodol, canolbwyntir yma ar yr adnoddau *cynnwys* sydd ar gael i'r diwydiant yn hytrach na'r adnoddau *meddalwedd*.

Mae "adnoddau cynnwys" yn derm ymbarél sy'n cyfeirio at yr holl ddeunydd ieithyddol a ddefnyddir gan gyfieithwyr yn ystod y broses gyfieithu, gan gynnwys:

- adnoddau geiriadurol, megis geirfaoedd uniaith, dwyieithog, neu amlieithog, geiriaduron iaith gyffredin a geiriaduron termau arbenigol,
- offer prawfddarllen (yn enwedig gwirwyr sillafu a gramadeg), a
- chofion cyfieithu wedi'u poblogi'n barod, concordansiau, corpora cyfochrog o gyfieithiadau a chymhorthion cyfieithu awtomatig.

Mae gan y Gymraeg nifer da o adnoddau cynnwys ond ni all gystadlu ag ieithoedd eraill Ewrop yn nhermau ystod a dewis, fel y noda Prys *et al* wrth bwyso a mesur y sefyllfa bresennol:

> Welsh, as a minority language in a developed Western nation, sits in an intermediate position in terms of content resources available. On the one hand it does not have the range or choice of resources available for the major European languages, but on the other hand many of the resources it has have already made the transition into electronic media and the knowledge base within Wales itself possesses the capacity to respond to translators' needs. (2009:35)

Ond mae'n rhaid cofio nad oedd gan y Gymraeg unrhyw adnoddau cynnwys electronig tan 1991, pan gomisiynwyd y gwirydd sillafu cyntaf.[12] Wrth ddatblygu'r gwirydd sillafu hwnnw, sylweddolwyd bod angen gwirydd treiglo hefyd, fel yr esbonia un o'r datblygwyr cynnar, Bill Hicks:

> The original idea had been to produce a simple Welsh spell checker. Welsh is a very phonetic language and apart from problems with accents and occasional consonant doubling, the main spelling errors in Welsh are typographic. Mutation errors, however, are a very large problem and a major cause of insecurity with people writing in Welsh. Therefore a simple spell checker, while better than nothing, was of limited use and would fail to address the major source of errors in written Welsh. It was therefore decided from early on that a mutation corrector was as important as a spell checker and the original spell checker was enhanced to check for mutation errors. (2004:1)

[12] Erbyn hyn mae gwirydd sillafu Cymraeg rhad ac am ddim ar gael i'w ddefnyddio yn *Microsoft Word* ac *OpenOffice.org,* ac mae modd ei ddefnyddio hefyd mewn offer technoleg amgylchedd cyfieithu megis *Déjà Vu, Wordfast* a *Trados.*

Ychwanegwyd wedyn nifer o reolau i ddelio â gwallau cyffredin eraill, megis diffyg cytundeb rhwng ansoddeiriau ac enwau, ac yng ngeiriau Hicks, "... *Cysill* was born" (2004:2), y gwirydd sillafu a gramadeg cyntaf i'r Gymraeg.[13]

Daeth fersiwn gyntaf *Cysill*, a gyhoeddwyd ym 1995, ar nifer o ddisgiau hyblyg bychain yr oedd yn rhaid eu llwytho ar gyfrifiaduron unigol. Cyhoeddwyd *Cysgair*, y geiriadur electronig Cymraeg/Saesneg cyntaf erioed, fel pecyn ar wahân, a datblygwyd fersiwn CD o *Y Termiadur Ysgol* ar yr un llwyfan meddalwedd, gan farchnata hwnnw eto fel cynnyrch ar wahân. Erbyn dechrau'r 2000au, o ganlyniad i gyfnod o chwyldro parhaus ym myd cyfrifiaduron personol, nid oedd gan gyfrifiaduron newydd y gallu i gymryd disgiau hyblyg bellach, a bachwyd y datblygwyr ar y cyfle i adolygu'r cynnyrch. Diweddarwyd *Cysill*, cyfunwyd *Cysgair* ac *Y Termiadur Ysgol* ac ychwanegwyd nifer o eiriaduron termau eraill dan yr enw *Cysgeir*, gan ryddhau'r pecyn newydd ar un CD o'r enw *Cysgliad* yn 2004 (Prys 2009:38). Ers hynny, rhyddhawyd fersiwn o *Cysgliad* ar gyfer mewnrwydi cyrff sydd am osod *Cysgliad* ar nifer o gyfrifiaduron gwahanol ac ym mis Awst 2009, lansiwyd fersiwn ar-lein o *Cysill*,[14] fersiwn sy'n caniatáu i unrhyw un sydd â chyfrifiadur gyda chysylltiad i'r rhyngrwyd a phorwr modern wirio sillafu a gramadeg testunau byrion Cymraeg yn rhad ac am ddim.

Yn ogystal â'r geiriaduron termau a geir yn *Cysgeir* wrth gwrs, mae nifer o eiriaduron termau rhyngweithiol eraill ar gael dros y we. Ymhlith y rhain y mae:

- Y Termiadur Ar-lein: www.geiriadur.bangor.ac.uk/termiadur [Cyhoeddwyd gan Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor]
- Y Porth Termau Cenedlaethol: www.termau.org/porth [Cyhoeddwyd gan Ganolfan Safoni Termau ac Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor]
- TermCymru: www.termcymru.cymru.gov.uk [Cyhoeddwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cynulliad Cymru]
- Y Gronfa Data Genedlaethol o Dermau: www.e-gymraeg.co.uk/bwrdd-yr-iaith/termau/Default.aspx [Cyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg]

O gofio'r dryswch a all enwau lleoedd achosi i gyfieithwyr — 'Casnewydd' yw'r enw Cymraeg ar 'Newport' Sir Fynwy, ond 'Trefdraeth' yw'r enw Cymraeg ar 'Newport' Sir Fôn, er enghraifft — ceir hefyd gronfa ddata ar-lein o'r enw *Enwau Cymru,* sy'n darparu nid

[13] Am adroddiad o ddyddiau cynnar *Cysill*, gw. Ellis *et al* (2000). Ceir disgrifiad llawn o agweddau technolegol *Cysill* yn Hicks (2004).
[14] Ar gael yn www.cysgliad.com/Cysill/arlein.

cyfieithiadau yn unig ond hefyd wybodaeth am y lleoedd a mapiau. Fe'i hariannwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae ar gael yn www.e-gymraeg.co.uk/enwaucymru.

O ran cofion cyfieithu wedi'u poblogi'n barod, rhyddhawyd sawl cof cyfieithu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ddiweddar, gan gynnwys cof cyfieithu mewnol y Bwrdd a chof cyfieithu ei wefan, cof cyfieithu bwydlenni a chof cyfieithu adnoddau dynol. Wrth ryddhau pob cof cyfieithu, datgana'r Bwrdd, "Er mai Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd yn berchen ar ac yn rheoli yr hawlfraint, hawl cronfa ddata a phob hawl arall yn y cof cyfieithu hwn, mae'r iaith Gymraeg yn eiddo i bawb. Felly, gallwch lwytho'r deunydd i lawr a'i ddefnyddio (yn gyfreithlon) fel ag y mynnoch".[15]

Wrth reswm, gall mabwysiadu'r holl adnoddau 'cynnwys' hyn ddod â manteision niferus i gyfieithwyr, o arbed amser ac arian i sicrhau a gwella safon eu cyfieithiadau (Lagoudaki 2006:22), ond ymddengys nad yw cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg yn gwneud defnydd helaeth o'r adnoddau technoleg cyfieithu sydd ar gael, fel y trafodir isod.

Y defnydd o dechnoleg cyfieithu

Pan gynhaliwyd arolwg o'r diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg gan Fenter a Busnes yn 2005, gofynnwyd i'r cyfieithwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiad y gallai technoleg wella byd cyfieithwyr. Ymatebodd canran uchel iawn ohonynt, sef 80%, iddynt *gytuno* neu *gytuno'n gryf* â'r gosodiad (Menter a Busnes 2005:7). Ond o graffu ar eu hymatebion i gwestiynau eraill yn yr arolwg, gwelir bod nifer isel iawn ohonynt oedd yn *defnyddio* technoleg mewn gwirionedd. O edrych ar Dabl 2 isod, er enghraifft, gwelir i 20% yn unig adrodd eu bod yn defnyddio offer technoleg amgylchedd cyfieithu megis *Déjà Vu* (8%), *Trados* (8%) neu *Wordfast* (4%). Mae hyn i'w weld yn nifer isel iawn wrth gymharu â'r ganran ryngwladol o 82.5% a adroddwyd gan Lagoudaki yn ei harolwg hithau ar systemau cof cyfieithu (2006:15). Yn ddiddorol, pan holwyd y comisiynwyr cyfieithu hwythau am feddalwedd cof cyfieithu, cafwyd mai dim ond 31% oedd erioed wedi clywed am y dechnoleg ac o'r rheiny dim ond 37% fyddai'n fwy tebygol o gontractio i gyfieithwyr a oedd yn defnyddio'r dechnoleg honno (Menter a Busnes 2005:15).

[15] Gw. gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau. Cyrchwyd ym mis Mehefin 2010.

Tabl 2: Adnoddau technoleg cyfieithu a ddefnyddir gan gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg

Meddalwedd	% ymatebion
Cysill	74%
Termiadur Ysgol	62%
Cysgair	59%
Cysgliad	48%
Office XP gyda gwirydd sillafu Cymraeg	35%
Windows XP yn y Gymraeg (gyda'r pecyn rhyngwyneb iaith)	21%
Office 2003 yn Gymraeg (gyda'r pecyn rhyngwyneb iaith)	11%
Déjà Vu	8%
Trados	8%
Wordfast	4%
Meddalwedd rheoli terminoleg	3%
Star	0%
SDLX	0%

Ffynhonnell: Menter a Busnes (2005:7)

Fodd bynnag, ymddengys o'r tabl y gwneir mwy o ddefnydd o adnoddau geiriadurol ac offer prawfddarllen. Gwelir, er enghraifft, i 48% o'r cyfieithwyr a holwyd nodi eu bod yn defnyddio'r compendiwm meddalwedd *Cysgliad*. Nid yw hynny'n syndod o beth, efallai, o ystyried poblogrwydd cyffredinol y compendiwm, fel y noda Prys:

> Despite the cost of the *Cysgliad* compendium, and the fact that some of its components are also available in other formats (many of them free of charge), this is by far the most widely-used and appreciated of the electronic resources produced by the Language Technologies Unit at Bangor University. It is estimated that around 10,000 licences have been sold so far, and between March and the end of November 2008, 3300 Web updates were downloaded by home users. (2009:39)

At hynny, adroddodd 59% o'r cyfieithwyr a holwyd eu bod yn defnyddio *Cysgair,* nododd 62% eu bod yn defnyddio *Y Termiadur Ysgol* a dywedodd 74% eu bod yn defnyddio

Cysill. Ond yn anffodus, credir bod lle i amau'r canrannau uchel hyn. Wrth gynnal yr ymchwil hwn, sylwyd ar nifer o wallau sylfaenol yn y cyfieithiadau y byddai *Cysill* wedi eu cywiro ac felly penderfynwyd rhedeg pob cyfieithiad yn y corpws cyfochrog drwy *Cysill* i weld faint o gyfieithwyr oedd wedi defnyddio'r rhaglen mewn gwirionedd. Fel y gwelir o Ffigyrau 3 & 4 isod, nifer isel iawn o'r cyfieithwyr, sef 29% yn unig, oedd wedi defnyddio'r rhaglen ac er mawr syndod nid oedd yr un marciwr wedi ei defnyddio. Ymddengys felly fod canran uchel iawn o gyfieithwyr yn berchen ar *Cysill*, ond bod canran isel iawn yn defnyddio'r rhaglen o ddydd i ddydd.

Ffigwr 3: Defnydd o *Cysill* yn y gweithdai cyfieithu: fesul darn

Ffigwr 4: Defnydd o *Cysill* yn y gweithdai cyfieithu: canrannau

Rhaid gofyn, felly, pam na wneir mwy o ddefnydd o'r adnoddau cyfieithu sydd ar gael? Ceir o leiaf dau ffactor o bwys. Yn gyntaf, mae cyfran arwyddocaol o'r diwydiant, fel y gwelwyd yn 1.2 uchod, naill ai'n unigolion llawrydd sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain neu'n gwmnïau bach. Golyga hyn fod yn aml iawn nid oes ganddynt yr arbenigedd na'r gefnogaeth dechnolegol sydd ei hangen (ac sydd ar gael mewn cwmnïau a sefydliadau mwy), neu'n syml bod yr adnoddau o bosib yn rhy gostus iddynt.

Yn ail, ceir llawer mwy o ferched na dynion yn y sector. Fel y nodwyd eisoes, mae modd esbonio'r anghyfartaledd hwn gan y ffaith bod merched yn tueddu i berfformio'n well na bechgyn pan ddaw at ddysgu ieithoedd yn yr ysgol, gan olygu bod cyfieithu yn yrfa amlwg iddynt. Ar y llaw arall, mae bechgyn yn tueddu i ymddiddori mwy mewn technoleg gwybodaeth a chyfrifiadureg (Prys *et al* 2009:10). Gyda nifer sylweddol is o ddynion na merched yn y gweithlu, y mae'n ddigon bosibl fod hyn yn ffactor arall i'w ystyried wrth gloriannu'r defnydd annigonol o adnoddau technoleg cyfieithu.

Wrth gloi'r rhagymadrodd hwn, felly, gellir dweud bod y diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg yn un ffyniannus gydag ystod o adnoddau technoleg cyfieithu i'w

gynorthwyo. Ymddengys, fodd bynnag, fod cyfieithwyr yn hwyrfrydig i fanteisio ar yr adnoddau hynny. Gobeithir y bydd yr ymchwil hwn, drwy addasu'r gwirydd gramadeg *Cysill*, yn annog mwy o gyfieithwyr i ddefnyddio'r adnoddau technoleg cyfieithu sydd ar gael. Fel y nodwyd eisoes, y bwriad yw archwilio'r posibilrwydd o raglennu *Cysill* i allu adnabod, ac wedyn cywiro, achosion o ymyrraeth gan yr iaith Saesneg mewn cyfieithiadau Cymraeg. Edrychwn yn y bennod nesaf, felly, ar yr hyn a olygir gan ymyrraeth yng nghyd-destun astudiaethau cyfieithu.

2. YMYRRAETH YM MAES ASTUDIAETHAU CYFIEITHU

"Translation, which can be considered a case of direct language contact, seems to be particularly prone to interference."

Lamberger-Felber & Schneider (2008:217)

Mae ymyrraeth yn gysyniad cyfarwydd iawn ym maes ieithyddiaeth,[16] gan gael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd pan fo pobl ddwyieithog yn gwyro ar lafar oddi wrth normau'r naill iaith neu'r llall o ganlyniad i gyffwrdd ieithyddol (Weinreich 1953:1). Ond nid yn unig ym maes ieithyddiaeth y deuir ar ei draws; fe'i gwelir hefyd ym maes astudiaethau cyfieithu. Yn wir, yn ôl ymchwilwyr yn y maes, mae rhywfaint o ymyrraeth yn digwydd ym mhob cyfieithu, ac mae Toury wedi mynd mor bell ag awgrymu ei bod yn un o'r ddwy ddeddf cyfieithu (1995:274-9).

Er mwyn gosod sylfaen ddamcaniaethol i'r ymchwil, trafodir yn y bennod hon yr hyn a olygir gan ymyrraeth ym maes astudiaethau cyfieithu, gan gyflwyno'r maes i ddechrau cyn ymhelaethu wedyn ar wahanol agweddau ar ymyrraeth. O gofio nod yr ymchwil o addasu'r gwirydd gramadeg *Cysill* i allu adnabod a chywiro elfennau o ymyrraeth mewn cyfieithiadau Cymraeg, gofynnir a all ymyrraeth fyth fod yn rhinwedd, neu ydy hi bob amser yn wendid yn y broses gyfieithu. Ac os felly, a ddylai gwirydd gramadeg gywiro enghreifftiau ohoni wrth iddynt godi? At hynny, a ddylai sefyllfa ieithyddol y Gymru sydd ohoni ddylanwadu ar y penderfyniad hwnnw o gwbl?

2.1 Astudiaethau cyfieithu

Er bod hanes hir i'r *broses* gyfieithu, mae'n ddyddiau cynnar iawn ar faes *astudiaethau* cyfieithu. Yn wir, dim ond yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif y datblygodd astudiaethau cyfieithu i fod yn faes academaidd annibynnol. Ac mae'n datblygu o hyd. Cafodd ei ddisgrifio gan Baker fel "an exciting new discipline" yn y 1990au, er enghraifft

[16] Gw. Gardner-Chloros 1991, Jones 1997, Nelde 1995 *passim.*

(1998:Rhagymadrodd), ac a barnu yn ôl teitl llyfr diweddar[17], mae'n dal i gael ei ystyried, ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, yn ddisgyblaeth ifanc. Mae'n ddisgyblaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar theori ac ymarfer cyfieithu, ac mae'n eang iawn ei chwmpas, gan orgyffwrdd â nifer o feysydd eraill, fel yr esbonia Munday (gw. Ffigwr 5 hefyd):

> By its nature it [Translation Studies] is multilingual and also interdisciplinary, encompassing any language combinations, various branches of linguistics, comparative literature, communication studies, philosophy and a range of types of cultural studies including postcolonialism and postmodernism as well as sociology and histiography. (2008:1)

Ffigwr 5: Meysydd sy'n gorgyffwrdd â'r maes astudiaethau cyfieithu

Ffynhonnell (wedi'i chyfieithu): Hatim & Munday (2004:8)

[17] Riccardi, A. (gol.) (2002) ***Translation studies: perspectives on an emerging discipline***. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Derbynnir yn gyffredinol mai James S. Holmes a ddiffiniodd y maes yn ei waith arloesol '*The Name and Nature of Translation Studies*' (Holmes 1988), sydd yn fersiwn o ddarlith a draddodwyd ganddo yn *The Third International Congress of Applied Linguistics* ym 1972. Yng ngeiriau Gentzler (2001:93), dyna oedd "the founding statement for the field". Ynddo, ymdriniodd Holmes â'r maes mewn modd hollol wyddonol, gan ei rannu i ddwy gangen: astudiaethau cyfieithu 'pur' ac astudiaethau cyfieithu 'cymhwysol' (gw. Ffigwr 6 isod).

Ffigwr 6: 'Map' Holmes o astudiaethau cyfieithu

Ffynhonnell (wedi'i chyfieithu): Toury (1995:10)

Fel y gellir gweld o'r siart llif, canolbwyntia cangen 'bur' astudiaethau cyfieithu ar ddisgrifio a damcaniaethu cyfieithu, tra bo'r gangen 'gymhwysol' yn ymwneud â'r ochr ymarferol, megis hyfforddi cyfieithwyr, gwerthuso cyfieithiadau a darparu cymhorthion cyfieithu (gw. Ffigwr 7 isod). Yr hyn a geir yn yr ymchwil hwn yw cyfuniad o'r ddwy gangen, sef disgrifiad o ymyrraeth fel y'i ceir mewn gwaith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg i ddechrau, cyn y cymhwysir y wybodaeth honno at yr adnodd iaith electronig *Cysill*, a hynny er mwyn gwella'r broses gyfieithu. Hyd y gwyddys, dyma'r tro cyntaf i ymchwil ar ymyrraeth gael ei gymhwyso at ddatblygu meddalwedd yn y ffordd hon.

Ffigwr 7: Cangen ‘gymhwysol’ astudiaethau cyfieithu

Ffynhonnell (wedi’i chyfieithu): Munday (2008:12)

Ers i Holmes gyflwyno ei ‘fap’ o astudiaethau cyfieithu, mae rhai o’r meysydd a nodwyd ganddo wedi mynd yn amhoblogaidd ac wedi cael eu hesgeuluso gan ymchwilwyr tra bo meysydd eraill wedi ffynnu (Munday 2008:13-14). Ymhlith y meysydd hynny sydd wedi dod i fri y mae ymchwil i gyffredinolion cyfiethu *(translation universals).* Mae’r term ‘cyffredinolion cyfieithu’ yn cyfeirio at y nodweddion ieithyddol hynny sy’n digwydd wrth gyfieithu, ond nid wrth ysgrifennu testunau gwreiddiol. Mae’r nodweddion yn ‘gyffredinol’ oherwydd y credir eu bod yn annibynnol o’r iaith y cyfieithir ohoni neu iddi (Baker & Malmkjaer 1998:288).[18] Un o arloeswyr yn y maes oedd Gideon Toury. Yn ei lyfr *Descriptive Translation Studies and Beyond* (1995), cynigia ddau gyffredinolyn cyfieithu — a elwir yn ‘ddeddfau’ ganddo — sef deddf safoni cynyddol (“*the law of growing standardization*”) a deddf ymyrraeth (“*the law of interference*”). Mae’n diffinio ei ddeddf safoni cynyddol fel a ganlyn:

> In translation, source-text textemes tend to be converted into target-language (or target-culture) repertoremes ... textual relations obtaining in the original are often modified, sometimes to the point of being totally ignored, in favor of [more] habitual options offered by a target repertoire (1995:267-268)

[18] Am ragor o wybodaeth am gyffredinolion cyfieithu, gw. Blum-Kulka & Levenston (1983 *passim*), Baker (1993) a Mauranen & Kujamäki (2004).

Mewn geiriau eraill, wrth drosi mae'n bosibl i gyfieithwyr greu testun sydd wedi'i safoni yn ôl opsiynau arferol yr iaith darged yn hytrach nag un sydd yn adlewyrchu'r holl amrywio ieithyddol a welir yn y testun ffynhonnell. Ond ar ochr arall y geiniog, gall cyfieithwyr gael eu dylanwadu'n ormodol gan y testun ffynhonnell, gan greu cyfieithiad lle y mae nodweddion y testun ffynhonnell yn rhy amlwg ac yn cymryd lle nodweddion yr iaith darged.

Yn ôl Toury digwydda hyn oherwydd deddf ymyrraeth, fel yr esbonia:

> In translation, phenomena pertaining to the make-up of the source text tend to be transferred to the target text, whether they manifest themselves in the form of *negative transfer* (i.e., deviations from normal, codified practices of the target system), or in the form of *positive transfer* ... The more the make-up of a text is taken as a factor in the formulation of its translation, the more the target text can be expected to show traces of interference (1995:275-6)

Gan oedi ychydig gydag ymyrraeth, ymhelaethir isod ar wahanol nodweddion ar y ffenomen, cyn ystyried holl oblygiadau ymyrraeth mewn gwlad ddwyieithog lle y cyfieithir gan amlaf o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol.

2.2 Ymyrraeth

Mae ymyrraeth yn ffenomen sydd wedi ennyn cryn ddiddordeb ymhlith ymchwilwyr ym maes astudiaethau cyfieithu. Ym mis Hydref 2010, er enghraifft, cafwyd o hyd i dros 750 o gyhoeddiadau yn BITRA[19] a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymyrraeth (ac nid oedd y nifer hwnnw'n cynnwys y lliaws o gyhoeddiadau a llawlyfrau cyfieithu sy'n trafod ymyrraeth fel rhan o bynciau eraill). Serch hynny, nid yw ymyrraeth wedi cael ei thrafod yng nghyd-destun cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg o'r blaen. Efallai nad yw hynny'n syndod o beth o gofio bod ieithoedd lleiafrifol wedi cael eu hesgeuluso i raddau helaeth iawn gan ymchwilwyr ac ysgolheigion ym maes astudiaethau cyfieithu, fel y noda Cronin (1995:94):

> Translation theory itself remains hostage to the perceptions and interests of major languages ... Translation conferences are generally noteworthy for the lack of attention paid to minority languages and the dominance of theories predicated on the

[19] Mae BITRA *(Bibliography of Interpreting and Translation)* yn gronfa ddata y gellir ei chwilio yn rhad ac am ddim. Mae ar gael yn www.ua.es/en/dpto/trad.int/base/index.html. Cyrchwyd ym mis Hydref 2010.

> historical experience and insights of the translation triumvirate, English, French and German.

Ond, fel y mae'n mynd ymlaen i ddweud, mae'n hollbwysig i ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg fynd i'r afael â theori cyfieithu a deall goblygiadau polisïau cyfieithu:

> Translation theory is not, however, a luxury that only major languages can afford. On the contrary, it is a vital necessity for minority languages in Europe and elsewhere that they understand in historical and contemporary terms the theoretical implications of inwards and outwards translation policies.

Gadewch i ni ddechrau, felly, drwy ystyried yr hyn a olygir gan ymyrraeth ym maes astudiaethau cyfieithu.

2.2.1 Diffinio ymyrraeth

Weithiau, wrth ddarllen cyfieithiadau, teimlir eu bod wedi cael eu hysgrifennu mewn arddull arbennig a defnyddir y term "cyfieitheg" (*translationese)* yn aml wrth ddisgrifio'r arddull honno (Gellerstam 1986). Yn ôl Frawley (1984:168-9), mae cyfieithiad yn "drydydd cod", sy'n wahanol i'r cod ffynhonnell *(matrix)* a'r cod targed fel ei gilydd. Dywed:

> The translation itself, as a matter of fact, is essentially a third code which arises out of the bilateral consideration of the matrix and target codes: it is, in a sense, a subcode of each of the codes involved ... That is, since the translation truly has a dual lineage [i.e. the source language and target language], it emerges as a code in its own right, setting its own standards and structural presuppositions and entailments, though they are necessarily derivative of the matrix information and the target parameters.

Sylwer, er bod Frawley yn cyfeirio at y cyfieithiad fel "a code in its own right", eto mae'n cydnabod ei fod yn "subcode of each of the codes involved", sef yr iaith ffynhonnell a'r iaith darged. Dangosir hyn mewn ffordd seml yn Ffigwr 8 isod, lle y gellir gweld sut y mae'r iaith ffynhonnell (A) a'r iaith darged (B) yn rhan o'r cyfieithiad (C). Yr hyn sydd o ddiddordeb i'r ymchwil hwn yw'r gorgyffwrdd rhwng (A) ac (C), sy'n cynrychioli ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell, ac sydd, yn ôl Toury, yn rhan o unrhyw gyfieithu (1995:274-9).

Ffigwr 8: Ymyrraeth

Ffynhonnell (wedi'i haddasu a'i chyfieithu): Hopkinson (2007:14)

Gall ymyrraeth ddigwydd ar ddwy lefel — ar lefel micro'r testun neu ar lefel macro'r testun. Er enghraifft, byddai ymyrraeth gan gystrawen y testun ffynhonnell yn cael ei hystyried yn ymyrraeth ar y lefel micro, tra byddai ymyrraeth gan atalnodiad y testun ffynhonnell yn cael ei hystyried yn ymyrraeth ar y lefel macro. Mae Newmark (1991:78) yn gwahaniaethu rhwng y ddwy lefel drwy ddefnyddio "diffiniad cul" a "diffiniad ehangach" o ymyrraeth, fel a ganlyn:

> In the narrow definition, interference in translation takes place when, apparently inappropriately, any feature of the source or a third language – notably a syntactic structure, a lexical item, an idiom, a metaphor, or word-order – is carried over or literally translated as the case may be into the target language text.
>
> In a wider definition, interference includes cases when sentence length, punctuation, proper names, neologisms, or cultural words are evidently transferred in the translation, in fact all cases where the language of the translation is manifestly affected whether appropriately or not by the language of the original. In this sense interference is an intrinsic factor in any translation.

Bydd ein hymchwil ni yn canolbwyntio ar ymyrraeth ar lefel micro'r testun, gan edrych ar sut y mae cystrawen, geirfa ac idiom yr iaith Saesneg yn ymyrryd mewn cyfieithiadau i'r Gymraeg. Ond o gofio nod yr ymchwil i addasu'r gwirydd gramadeg *Cysill* i adnabod a chywiro achosion o ymyrraeth mewn cyfieithiadau, mae'n rhaid gofyn a all ymyrraeth fyth fod yn rhinwedd, neu ydy hi bob amser yn wendid yn y broses gyfieithu. Ac os felly, a ddylai gwirydd gramadeg gywiro enghreifftiau ohoni wrth iddynt godi? At hynny, a ddylai sefyllfa ieithyddol y Gymru sydd ohoni ddylanwadu ar y penderfyniad hwnnw o gwbl?

2.2.2 Rhinwedd neu wendid?

Yn y bôn, er bod rhywfaint o ymyrraeth yn bresennol ym mhob cyfieithiad, ceir dwy ffactor allweddol sy'n pennu *i ba raddau* y bydd yr ymyrraeth honno yn bresennol, sef profiad y cyfieithydd ac amgylchiadau cymdeithasol-ddiwylliannol y cyfieithu, fel y nodir isod:

> The extent to which interference is realized depends on the professional experience of the translator and the socialcultural conditions in which a translation is produced and consumed, so that experienced translators tend to be less affected by the make-up of the source text, and tolerance towards interference tends to increase when translation is carried out from a highly prestigious culture. (Baker & Saldanha 2009:307)

Ymddengys fod ymyrraeth gan y testun ffynhonnell yn fwy derbyniol pan fydd bri mawr ar yr iaith a'r diwylliant y cyfieithir ohonynt. Rhy Zuzana Havlásková enghraifft o hyn yn ei thraethawd hithau ar ymyrraeth wrth iddi drafod cyfieithu hysbysebion yng Ngweriniaeth Tsiecoslofacia yn syth ar ôl y Chwyldro. Oherwydd y bri mawr a roddwyd ar bethau estron bryd hynny, roedd yn werth cadw elfennau estron a nodweddion yr iaith ffynhonnell wrth drosi hysbysebion i'r Tsieceg. Fel y mae Havlásková yn dweud: "People did not mind that interference from English was obvious because they considered it to be a mark of prestige". Ond pwysleisia fod cyd-destun y cyfieithu yn allweddol wrth farnu derbynioldeb ymyrraeth: "This approach towards interference largely depends on the actual cultural background" (2010:17-18).

Yn yr un modd, gall ymyrraeth yn aml fod yn beth da mewn cyfieithu llenyddol. Yn ôl Newmark (1991:78), "In a literary work, both idiolectal and cultural interference often enriches the translation". Yn wir, wrth gyfieithu'r Beibl, caniateir i nodweddion y testun

ffynhonnell ymyrryd yn y cyfieithiad oherwydd y bri a roir ar y testun ffynhonnell a'r cyfeiriadau diwylliannol a geir ynddo. Cadarnheir hyn gan Dukāte (2009:141):

> The preferred translation strategy for sacred texts is literal translation because it is believed that it is the most faithful translation strategy.

Wrth ddilyn y fath strategaeth gyfieithu, mae ymyrraeth yn anochel ond ni chaiff ei hystyried yn wendid yn y broses gyfieithu o gwbl. Gwyddys i'r Esgob William Morgan yntau drosi nifer fawr o idiomau Hebraeg air am air wrth gyfieithu i'r Gymraeg. Er enghraifft, o gymryd yr adnod ganlynol, mae'r ymadrodd "gan farw y byddi farw" yn gyfieithiad slafaidd o'r Hebraeg, lle y tueddir i ailadrodd y ferf er mwyn cyfleu pwyslais:

> **יז** וּמֵעֵץ, הַדַּעַת טוֹב וָרָע--לֹא תֹאכַל, מִמֶּנּוּ: כִּי, בְּיוֹם אֲכָלְךָ מִמֶּנּוּ--מוֹת תָּמוּת.

> Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta ohono; oblegid yn y dydd y bwytei di ohono, **gan farw y byddi farw.** (Genesis 2:17)

Nid yw'n gwneud synnwyr — ac nid yw'n arferol ychwaith — i ailadrodd y ferf yn y ffordd hon yn y Gymraeg. Byddai cyfieithiad rhydd o'r ymadrodd idiomatig hwn wedi rhoi ymadrodd Cymraeg llawer mwy dealladwy a naturiol fel "y byddi'n sicr o farw". Ond mae'r math hwn o ymyrraeth yn dderbyniol oherwydd y gwerth a roir ar y testun ffynhonnell.

Wrth gwrs, mae hyn i gyd yn rhagdybio bod y cyfieithwyr yn ddigon profiadol i ganiatáu i nodweddion y testun ffynhonnell ymyrryd yn y testun targed pan fydd angen ac i beidio â chaniatáu ymyrraeth mewn amgylchiadau eraill. Ond nid yw hyn bob amser yn wir, yn enwedig mewn gwledydd fel Cymru, lle y mae cyfieithwyr Saesneg --> Cymraeg yn gweithio yng nghyd-destun dwyieithrwydd hyblyg cynyddol. Afraid dweud bod y Saesneg yn un o ieithoedd cryfaf y byd, tra bo'r Gymraeg, ar y llaw arall, yn un o ieithoedd lleiafrifol y byd. Golyga 'iaith leiafrifol' fwy na mai dim ond lleiafrif o bobl sy'n ei siarad, wrth gwrs. Mae'n ymwneud â statws swyddogol yr iaith hefyd. A cheir goblygiadau eraill i iaith leiafrifol, gan gynnwys 'domain loss'. Hynny yw, ni chaiff yr iaith ei defnyddio ym mhob parth o fywyd y gymuned a gall hyn effeithio ar safon yr iaith. Er enghraifft, os nad oes addysg drwy gyfrwng yr iaith, neu gefnogaeth i lenyddiaeth, bydd safon yr iaith yn 'dirywio' i fod yn ddim ond bratiaith. O'i herwydd, gellid dadlau nad yw'r rhan fwyaf o gyfieithwyr

Saesneg-Cymraeg yn meddu ar iaith ddigon 'safonol' a glân (difratiaith) eu hunain i allu adnabod a delio ag ymyrraeth.

Ond petai modd i'r cyfieithwyr hynny ddewis i ba raddau y dylai'r Saesneg ymyrryd yn eu cyfieithiadau Cymraeg, a allai ymyrraeth fyth fod yn dderbyniol yn yr achos penodol hwn? Yma eto, mae'r ffaith bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol o'r pwys mwyaf wrth i ni geisio'r ateb y cwestiwn hwnnw. Fel y mae Cronin yn ein hatgoffa, gall cyfieithu fod yn gleddyf deufiniog i ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg. Ar yr un llaw, mae'n rhaid i ieithoedd lleiafrifol gael eu cyfieithu os ydynt am oroesi, ond ar y llaw arall gall y broses gyfieithu beryglu'r union ieithoedd y mae i fod i'w diogelu:

> Minority languages have a fundamentally paradoxical relationship with translation. As languages operating in a multilingual world with vastly accelerated information flows from dominant languages, they must translate continually in order to retain their viability and relevance as living languages. Yet, translation itself may in fact endanger the very specifity of those languages that practice it, particularly in situations of diglossia. The situation of translation in the culture of a minority language is therefore highly ambiguous. (1995:89)

Wrth wraidd y broblem, wrth gwrs, yw'r cwestiwn o ymyrraeth. Gwyddys bod ymyrraeth yn llawer mwy tebygol o ddigwydd wrth drosi o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol, na'r ffordd arall, fel yr esbonia Toury:

> Tolerance of interference – and hence the endurance of its manifestations – tend to increase when translation is carried out from a 'major' or highly prestigious language/culture, especially if the target language/culture is 'minor', or 'weak' in any other sense. (1995:278)

Os na all cyfieithwyr osgoi ymyrraeth wrth drosi, bydd yr iaith leiafrifol yn dechrau colli ei nodweddion cynhenid ac yn ymdebygu fwyfwy i'r iaith fwyafrifol:

> If they [translators in minority languages] translate allowing the full otherness of the dominant language to emerge in the translation ... then the language into which they translate becomes less and less recognisable as a separate linguistic entity capable of future development and becomes instead a pallid imitation of the source language in translatorese. (Cronin 1995:90)

Gall hyn fod yn broblem wirioneddol o gofio'r rôl ganolog a chwaraeir gan gyfieithu wrth hyrwyddo'r iaith leiafrifol. Fel y mae Jones (2005a:6) yn ein hatgoffa wrth drafod cyfieithu yng Nghymru, "Eu cynnyrch nhw [cyfieithwyr] sydd yn y pen draw wedi rhoi i Gymru lawer o'i dwyieithrwydd cyhoeddus". Eu cynnyrch nhw a gaiff ei ddarllen ddydd ar

ôl dydd, ar ffurflenni, mewn llyfrynnau ac ar bosteri o Fôn i Fynwy. Yn amlwg, os ydy'r cyfieithwyr hynny yn caniatáu i'r Saesneg ymyrryd yn eu cyfieithiadau, o ganlyniad i'r amgylchiadau a nodwyd uchod, gall yr effeithiau fod yn bellgyrhaeddol ac yn dra andwyol ar ddatblygiad y Gymraeg. Am y rheswm hynny, a'r rheswm hynny yn unig, credir bod rhaid ymbwyllo yn wyneb ymyrraeth gan yr iaith Saesneg mewn cyfieithiadau i'r Gymraeg. Derbynnir nad yw'n ffasiynol bod yn rhagnodol wrth ddelio ag iaith, ond awgrymir bod cyd-destun arbennig y cyfieithu yn ei hawlio a bod ceisio rhaglennu'r gwirydd gramadeg *Cysill* i ddelio ag ymyrraeth yn ymateb synhwyrol i'r heriau sy'n wynebu cyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn y Gymru sydd ohoni, ac yn fodd o ddiogelu'r Gymraeg yn y pen draw.

3. METHODOLEG

"... corpora are already leading to new ways of looking at translation."

Baker & Malmkjaer (1998:53)

Ymdrinnir yn y bennod hon â'r fethodoleg a fabwysiadwyd i gynnal yr ymchwil, sef methodoleg wedi'i seilio ar gorpora.[20] Gellir diffinio 'corpws' yng nghyd-destun astudiaethau ieithyddol mewn sawl ffordd (e.e. Francis 1982:7 ac Atkins *et al* 1992:1); ond erbyn heddiw cytuna arbenigwyr yn y maes fod y term yn cyfeirio at gasgliad electronig o destunau (gan gynnwys trawsgrifiadau o iaith lafar) sydd wedi'u dewis i gynrychioli iaith benodol neu amrywiad o iaith benodol (McEnery *et al* 2006:5). Dau gorpws a ddefnyddiwyd yn sail i'r ymchwil hwn. Yn gyntaf, defnyddiwyd corpws cyfochrog o destunau Saesneg a'u cyfieithiadau Cymraeg ac yn ail, corpws o destunau Cymraeg heb eu golygu o'r enw corpws *Cysill ar-lein*.

Rhoddir yn adran 3.1 ddisgrifiad o ymchwil ar sail corpora, gan esbonia hefyd pam y dewiswyd y fethodoleg hon, cyn manylu ar y ddau gorpws eu hun yn 3.2.1 a 3.2.2.

Wedyn, o gofio bod ymgymryd ag unrhyw ymchwil sy'n cynnwys data dynol yn gofyn i'r ymchwilydd gydymffurfio â chod moeseg, amlinellir yn 3.2.3 y camau a wnaethpwyd i warchod data'r ddau gorpws a chyfrinachedd yr unigolion.

I gloi'r bennod, rhydd adran 3.3 ddisgrifiad o'r feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data.

3.1 Astudio iaith drwy ddefnyddio corpora

Mae ieithyddiaeth corpws wedi cael ei disgrifio fel "the study of language based on examples of 'real life' language use" (McEnery & Wilson 2001:1). Cesglir yr enghreifftiau hyn mewn corpws neu gorpora. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae maint y corpora a ddefnyddir wedi cynyddu'n gyson. Mae corpws 'The Bank of English', er enghraifft, yn cynnwys 450 miliwn

[20] Yn ogystal â chael ieithyddiaeth **wedi'i seilio ar** gorpws neu gorpora, gellir hefyd gael ieithyddiaeth **wedi'i gyrru gan** gorpws neu gorpora, lle y mae'r data a geir mewn corpws yn arwain yr ymchwil yn hytrach na chael eu defnyddio i brofi theori a darparu enghreifftiau priodol i'r ymchwil (gw. Römer 2005:8-11). Sylwer mai ieithyddiaeth wedi'i seilio ar gorpora a ddefnyddir drwy gydol y gwaith hwn.

o eiriau (gw. www.titania.bham.ac.uk/docs/svenguide.html) ac mae hyd yn oed y we fyd-eang wedi cael ei defnyddio fel corpws gan rai ymchwilwyr (Facchinetti 2007:28). Ond mae'n rhaid cofio nad rhywbeth newydd yw ieithyddiaeth corpws; dim ond math a maint y corpora a ddefnyddir sy'n newydd. Yn wir, gellir olrhain astudiaethau wedi'u seilio ar gorpora yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Baker 2006:2). Serch hynny, nid oedd astudiaethau o'u bath yn niferus ac erbyn pumdegau'r ganrif ddiwethaf taflodd Chomsky ac eraill amheuon difrifol ar y fethodoleg. [21] O ganlyniad i'r feirniadaeth honno, roedd yn fethodoleg weddol amhoblogaidd drwy gydol y chwedegau a'r saithdegau. Ond gyda dyfodiad cyfrifiaduron personol yn yr wythdegau, mae ieithyddiaeth corpws wedi bod yn ffynnu. Yn ôl McEnery & Wilson (2001:24-25), "Corpus linguistics is maturing methodologically and the range of languages addressed by corpus linguists is growing annually". At hynny, mae'r rhestr o feysydd lle y'i defnyddir wedi cynyddu, ac mae meysydd megis ieithyddiaeth fforensig (Woolls & Coulthard 1998 *passim*), astudiaethau gramadegol (Oostdijk & de Haan 1994 *passim*), astudiaethau ar amrywio ieithyddol a thafodieitheg (Biber 1988 *passim*), geiriadura (McEnery & Wilson 2001:106-109), dadansoddi testunau llenyddol (Louw 1997 *passim*) a dysgu ieithoedd (Johns 1997 *passim*) i gyd wedi astudio iaith ar sail corpws neu gorpora.

Mae'r defnydd o gorpora ym maes astudiaethau cyfieithu, ar y llaw arall, yn ddatblygiad gweddol newydd — yn rhannol oherwydd na châi cyfieithiadau eu hystyried fel rheol yn enghreifftiau o 'iaith go iawn', mewn gwledydd Saesneg eu hiaith beth bynnag. Dim ond ym 1993 yr awgrymodd Mona Baker y dylid eu defnyddio ym maes astudiaethau cyfieithu (Olohan 2004:13). Fel y noda Laviosa (2002:18):

> Mona Baker first put forward the idea of exploiting the analytical tools of corpus linguistics to study the product and process of translation from a descriptive rather than a prescriptive point of view ... Baker predicted that the availability of large corpora of both original and translated texts, together with the development of a corpus-driven methodology, would enable translation scholars to uncover "the nature of translated text as a mediated communicative event" through the investigation of what are known in the literature as the universals of translation (Baker 1993: 243).

[21] Er bod y rhan fwyaf o academyddion o'r farn mai methodoleg yw ieithyddiaeth corpws yn hytrach na changen o ieithyddiaeth, nid yw pawb yn cytuno, gw. Tognini-Bonelli (2001:1). Fodd bynnag, at ddiben yr astudiaeth hon, ymdrinnir ag ieithyddiaeth corpws fel methodoleg yn unig, gan ddilyn rhesymeg McEnery & Wilson (2001:2): "Corpus linguistics is not a branch of linguistics in the same sense as syntax, semantics, sociolinguistics and so on. All of these disciplines concentrate on describing/explaining some aspect of language use. Corpus linguistics in contrast is a methodology rather than an aspect of language requiring explanation or description ... Corpus linguistics is a methodology that may be used in almost any area of linguistics, but it does not truly delimit an area of linguistics itself.

Mae'r term "the universals of translation" yn cyfeirio at y nodweddion ieithyddol sy'n digwydd wrth gyfieithu, ond nid wrth ysgrifennu testunau gwreiddiol. Mae'r nodweddion hyn yn "gyffredinol" oherwydd eu bod yn annibynnol o'r iaith y cyfieithir ohoni neu iddi, nodweddion megis symleiddio. Cyfeiria "original texts" yng nghyd-destun corpws cyfieithu nid at destunau ffynhonnell i'w cyfieithu, ond at unrhyw destunau nad yw'n gyfieithiadau. Yn ôl Baker (1996:185), ym maes astudiaethau cyfieithu wedi'u seilio ar gorpora, "translation scholars are ultimately not interested in the words or syntactic structures themselves. What they are interested in are abstract, global notions such as explicitation and simplification, which are independent of specific languages...". Fodd bynnag, fel y dadleua Santos (2004:22), gall hyn fod yn ddisgrifiad llawer rhy gyfyng o astudiaethau cyfieithu wedi'u seilio ar gorpora: "One **can** be interested in studying translation to learn about words and syntactic structures (and semantic structures, incidentally). To claim that this is not translation studies proper, but simply syntax, or semantics, or linguistics, is to deny the interdisciplinary character and the synergetic potential of translation studies themselves...". Â ymlaen i ladd ar nod ymchwil Baker, gan ddweud mai "studying features of translation per se independently of context (language pair, type of text, translation school followed by the translator) appears to me absurd ... To claim that it is possible to decide which features dominate in translation is, in my view, simply to deny the complexity of translation".

Gan gyfuno'r ddau safbwynt hwn, penderfynwyd defnyddio dau gorpws yn sail i'r ymchwil. Y cyntaf yw corpws cyfochrog o gyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg a drafodir yn rhan gyntaf yr ymchwil, er mwyn cymharu'r nodweddion cystrawennol, geiriadurol a semantig a gafwyd yn y gwaith cyfieithu â'r hyn a gafwyd yn y testunau ffynhonnell, ac wedyn ail gorpws, sef corpws o destunau Cymraeg ysgrifenedig heb eu golygu. Defnyddir y corpws hwnnw fel cronfa o destunau Cymraeg naturiol, a'r bwriad yw penderfynu a gododd y nodweddion ieithyddol Cymraeg yn y corpws cyfochrog o ganlyniad i'r broses gyfieithu neu a oeddynt yn rhan o gystrawen a geirfa Cymraeg naturiol. Drwy gymharu'r Gymraeg yn y ddau gorpws, gobeithir canfod achosion o ymyrraeth gan y testun ffynhonnell, sef Saesneg, ar ysgrifennu Cymraeg wrth gyfieithu. Bydd yn fodd i ddeall yr "universals of translation" ac ymyrraeth mewn cyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg.

At hynny, penderfynwyd bod angen cael corpora syncronig yn hytrach na rhai diacronig, drwy gasglu data sy'n ddiweddar ac i gyd o'r un cyfnod. Nid yw hyn yn astudiaeth o'r ffordd y mae ymyrraeth wedi effeithio ar y Gymraeg dros y blynyddoedd, ond yn astudiaeth ar sut y mae'r Saesneg yn dylanwadu ar y Gymraeg yn y Gymru sydd ohoni.

Wrth reswm, mae gwaith ymchwil wedi'i seilio ar gorpora yn gyfuniad o ddadansoddi ansoddol a dadansoddi meintiol oherwydd, fel y mae Biber *et al* yn esbonio (1998:4), mae ymchwil o'r fath yn dibynnu ar y ddau ddull: "Association patterns represent quantitative relations, measuring the extent to which features and variants are associated with contextual factors. However functional (qualitative) interpretation is also an essential step in any corpus-based analysis". Un o'r manteision o chwilio mewn corpws am batrwm gramadegol neu eirfaol wrth gwrs yw bod y chwiliad yn dychwelyd nifer fawr o enghreifftiau o'r eitem y chwiliwyd amdani yng nghyd-destun ei defnydd (O'Keeffe *et al* 2007: 3), gan olygu bod modd cynnal dadansoddiad ansoddol o'r canfyddiadau.

Ar ôl pennu'r fframwaith methodolegol hwn, dechreuwyd casglu'r data.

3.2 Casglu'r data

Nid oedd corpws o gyfieithiadau anodedig yn bodoli eto ar gyfer y pâr ieithoedd Saesneg-Cymraeg ac felly bu'n rhaid creu un pwrpasol at ddiben yr ymchwil hwn. O gofio bod angen corpws syncronig, a bod corpws *Cysill ar-lein* ar gael am y flwyddyn 2009-2010, casglwyd cyfieithiadau o'r un flwyddyn ar gyfer y corpws cyfochrog. Crëwyd y ddau gorpws fel y dengys Ffigwr 9 isod, gyda'r cyfieithiadau yn cael eu trin fel is-set o'r iaith Gymraeg ar gyfer y corpws cyfochrog, tra ffurfiodd yr iaith Gymraeg ei hun y bydysawd samplu yn achos corpws *Cysill ar-lein*, ac roedd y samplau yn destunau o Gymraeg ysgrifenedig heb eu golygu.

Ffigwr 9: Casglu data ar gyfer y ddau gorpws

Cynigir isod ddisgrifiad manwl o'r ddau gorpws a ddefnyddiwyd, gan ddechrau gyda'r corpws cyfochrog o gyfieithiadau.

3.2.1 Corpws cyfochrog o gyfieithiadau

Fel y nodwyd eisoes, gan nad oedd corpws o gyfieithiadau anodedig yn bodoli eto ar gyfer y pâr ieithoedd Saesneg-Cymraeg bu rhaid creu un o'r newydd. Fel noddwr yr ymchwil, gofalodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod casgliad helaeth o gyfieithiadau ar gael i'w cynnwys yn y corpws, a phenderfynwyd defnyddio cyfieithiadau a gynhyrchwyd mewn e-weithdai'r Gymdeithas. Cynhelir e-weithdai cyfieithu sawl gwaith y flwyddyn gan CCC. Nod yr e-weithdai hyn yw cynnig cyfle i gyfieithwyr ymarfer a gwella eu sgiliau cyfieithu yn eu hamser eu hunain. Mae'r cyfranogwyr yn cyfieithu dau ddarn o'r Saesneg i'r Gymraeg o fewn cyfnod o dair wythnos, gan anfon y cyfieithiadau fesul un drwy e-bost at gyfieithydd profiadol (sy'n aelod o Fwrdd Arholi Testunau CCC) i'w marcio a rhoi sylwadau arnynt.

Cynhwyswyd yn y corpws deunydd o ddau e-weithdy cyfieithu, sef pedwar darn gwreiddiol o dua 300 gair yr un a 95 o gyfieithiadau Cymraeg,[22] i gyd mewn dogfennau *Word*. Cyfanswm geiriau'r corpws yw 29,606 o eiriau (gw. Ffigwr 10 isod).

Fel y gwelir o'r siart, daeth tri o'r darnau, sef 'BF', 'Canwr' a 'Hafren', o bapurau newyddion a'r pedwerydd, 'Carvajal', o lyfr bywgraffiadol. Mae'r testunau llawn i'w gweld yn Atodiad 1.

[22] Sylwer y darparwyd 99 o gyfieithiadau gan CCC. Fodd bynnag, wrth gychwyn ar y gwaith dadansoddi darganfuwyd bod dau heb gynnwys sylwadau'r marcwyr a bod problemau technolegol gyda'r ffeiliau eraill.

Ffigwr 10: Y corpws cyfochrog o gyfieithiadau

Roedd 'BF' yn ddarn o 311 o eiriau o *The Sunday Times,* a drafododd y seren roc Bryan Ferry. Er iddo ymddangos yn *The Sunday Times,* darn eithaf anffurfiol ei arddull oedd mewn gwirionedd ac un a oedd yn llawn ymadroddion llafar megis "when it comes to their kids" (ll. 5), "he wins hands down" (ll. 12), "Brian's new squeeze" (ll. 13) a "too much booze" (ll. 16). Oherwydd hynny, fe'i disgrifiwyd gan Farciwr A fel "ddarn anodd iawn" ac un a wnaeth "alw am gryn ddyfeisgarwch gan y cyfieithydd".

Roedd 'Canwr' yn ddarn 263 gair o *The Daily Telegraph*, a adroddodd ar gystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd. Yn ôl Marciwr C, roedd yn ddarn a oedd "yn eithaf gwahanol i waith bob dydd y rhan fwyaf o gyfieithwyr". Ond, wedi dweud hynny, mae'n cyfaddef y "byddai cyfieithwyr mewn amgueddfeydd, colegau, llyfrgelloedd a theatrau'n gorfod cyfieithu gwaith o'r fath". Ac mae'n rhaid ychwanegu cyfieithwyr ar eu liwt eu hunain at y rhestr honno, wrth gwrs.

Daeth y trydydd darn, 'Carvajal', o'r llyfr *The She-Apostle: The Extraordinary Life and Death of Luisa de Carvajal*. Roedd yn 292 o eiriau o hyd ac roedd rhaid i'r cyfieithwyr fynd i'r afael ag arddull ddisgrifiadol, llawn brawddegau hir, aml-gymalog. Dywed Marciwr A fod y darn "yn galw am dipyn o allu creadigol ac am ddewis gofalus er mwyn Cymreigio'r mynegiant yn achos priod-ddulliau a geirfa".

‘Hafren’ oedd y pedwerydd darn a oedd yn ddarn ffeithiol yn trafod codi argae ar Afon Hafren. Daeth o *The Sunday Times* ac roedd 296 o eiriau o hyd.

Pedwar darn gwahanol i’w gilydd, felly, ond pedwar darn a gynigiodd gryn her i’r cyfieithwyr. Yn yr un modd, 95 cyfieithiad gwahanol iawn i’w gilydd a gynhwyswyd yn y corpws, gyda rhai yn gyfieithiadau gwell nag eraill. Yng ngweithdy ‘Hafren’, er enghraifft, canmolwyd cyfieithydd Hafren11 gan y marciwr am gynhyrchu cyfieithiad “dilychwin”, gan sylwi bod y rhan fwyaf o gyfieithiadau eraill “yn cynnwys 15 – 20 gwall o ryw fath”. Ond yn achos Hafren22, nodwyd rhestr o 48 o wallau!

At hynny, anodwyd y cyfieithiadau mewn ffordd wahanol gan bob un o’r tri marciwr. Er enghraifft, defnyddiodd Marciwr A liwiau yn y testun (gw. Ffigwr 11), gan nodi cryfderau mewn gwyrdd a phethau i roi sylw iddynt yn felyn a materion i’w trafod yn llwyd. Ychwanegodd y materion i’w trafod wedyn rhwng y paragraffau, wedi’u rhifo fesul pwynt.

Ffigwr 11: Enghraifft o sylwadau Marciwr A

Caravajal05

ST: Before dawn one morning in June 1612, an elderly Frenchman took charge of a carriage carrying a precious cargo near Tyburn Fields, London’s notorious place of execution. It was heading for a house in Spitalfields, where a wizened Spanish woman was awaiting to receive the mortal remains of freshly-martyred Catholic priests. Her name was Luisa de Carvajal. (llau. 1-4)

TT: Cyn iddi wawrio un bore ym mis Mehefin 1612, cymerodd Ffrancwr oedrannus ofal o gart a cheffyl oedd yn cario llwyth gwerthfawr. Digwyddodd hyn ger Caeau 'Tyburn', lle enwog yn Llundain ar gyfer dieinyddio. Pen y daith oedd ty ger 'Spitalfields, lle roedd hen fenyw o dras Sbaeneg yn disgwyl derbyn gweddillion offeriaid Catholig oedd newydd gael eu dieinyddio. Ei henw oedd Luisa de Carvajal.

Sylwadau’r marciwr:

1. Cyfieithiad yn dangos ymwybyddiaeth o’r angen i newid priod-ddull a chystrawen wrth gyfieithu. Rwy’n nodi cryfderau’n wyrdd a phethau i roi sylw iddyn nhw’n felyn. A phethau i’w trafod yn llwyd.
2. Oes sicrwydd mai ‘cart a cheffyl’sydd yma? Fyddai ‘cerbyd’yn iawn am ‘carriage’?
3. Syniad da yw cychwyn brawddeg newydd
4. Nid yw ‘enwog’ yn cyfleu ‘notorious’yn union, ond does dim gair cyfleus yn y Gymraeg am hyn. Digon da felly.
5. Does ‘i’ar ôl yr ‘e’yn ‘dienyddio’.

Defnyddiodd Marciwr B system debyg (gw. Ffigwr 12), gan rifo pob sylw ond heb roi lliwiau yn y testun.

Ffigwr 12: Enghraifft o sylwadau Marciwr B

Hafren13

ST: Last month the government breathed fresh life into the idea of building a "barrage" of up to 10 miles stretching across the waterway that it says could provide up to 5% of the country's energy needs. (llau. 4-5)

TT: Fis diwethaf taflodd y llywodraeth oleuni newydd ar y syniad o adeiladu "morglawdd" hyd at 10 milltir yn ymestyn ar draws y dŵr allai ddarparu hyd at 5% meddai o ynni'r wlad.

Sylwadau'r marciwr:

1. Fis diwethaf: Cofiwch fod enw a ddilynir gan ansoddair yn y radd eithaf yn hawlio'r fannod. Felly 'y mis diwethaf'.

2. taflodd .. . . oleuni newydd: Nid yw hwn yn awgrymu i mi 'atgyfodi' hen gynllun. Byddai'n cyfleu archwilio rhywbeth gweladwy, fel achos llys dyweder.

3. allai: Peidiwch â hepgor y rhagenw perthynol 'a'. Ni chymer fawr o le ac mae'n rhoi gwell patrwm i'r gystrawen. Felly 'a allai'. Gwyliwch hefyd leoliad eich cymal perthynol. Beth mae e'n ei ddisgrifio? Yma, ai dŵr ynte'r 'morglawdd'.

Dewisodd Marciwr C roi pwyntiau bwled byr yn y testun ei hun (gw. Ffigwr 13) ond ysgrifennodd sylwadau ychwanegol ar daflen ar wahân, gan nodi hefyd wallau pobl eraill yn y gweithdy.

Ffigwr 13: Enghraifft o sylwadau Marciwr C

Canwr0 3

ST: My guess indeed is that he sounds closer to the legendary castrati than anything that's been heard since Napoleon abolished "the cut" two centuries ago. (llau. 4-5)

TT: Fy **amcandyb** i yw ei fod yn swnio'n nes at y castrati **diarhebol** nag **unrhywbeth** a glywyd ers i Napoleon gael gwared ar **"y disbaddu"** ddwy ganrif yn ôl.

Sylwadau'r marciwr:

- **amcandyb –** braidd yn annaturiol a llythrennol. Beth am yn fy marn i?
- **diarhebol –** dewis da iawn o ansoddair.
- **unrhywbeth > unrhyw beth.**
- **"y disbaddu" -** Gweler y sylwadau cyffredinol.

Sylwadau cyffredinol y marciwr:

..*"the cut"* - Anodd. Nifer wedi dewis dweud 'disbaddu' ac eraill wedi cyfeirio at 'dorri' neu 'dorri ar'. Byddai'r ddau air yn dderbyniol yn fy marn i.

Dechreuwyd ar yr ymchwil, felly, drwy gynnal dadansoddiad ansoddol o sylwadau'r marcwyr ar y cyfieithiadau, cyn casglu ystadegau ynghylch y nodweddion a oedd yn dangos ymyrraeth ym marn y marcwyr. Chwiliwyd wedyn yng nghorpws *Cysill ar-lein* am batrymau tebyg a rhoddir gwybodaeth yn awr am y corpws hwnnw.

3.2.2 Corpws *Cysill ar-lein*

Er bod rhaid creu corpws cyfochrog anodedig pwrpasol, nid oedd rhaid creu corpws o Gymraeg ysgrifenedig. Roedd Mr Dewi Bryn Jones, Peiriannydd Meddalwedd yn Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor, eisoes wedi creu corpws *Cysill ar-lein* at ddiben ymchwil,[23] fel y disgrifir isod.

Ym mis Awst 2009 lansiodd yr Uned Technolegau Iaith fersiwn ar-lein o *Cysill*,[24] fersiwn sy'n caniatáu i unrhyw un sydd â chyfrifiadur gyda chysylltiad i'r rhyngrwyd a phorwr modern wirio sillafu a gramadeg testunau byrion Cymraeg (uchafswm o 1072 nod) yn rhad ac am ddim. Fel rhan o'r broses wirio, caiff y testunau eu hanfon i weinydd gwe, lle y'u cedwir gyda chaniatâd y defnyddiwr. Erbyn hyn, mae *Cysill ar-lein* yn meddu ar gorpws mawr o destunau Cymraeg ysgrifenedig, ac mae testunau newydd yn cael eu hychwanegu ato bob dydd. Dyma'r tro cyntaf i'r dull arloesol hwn gael ei ddefnyddio i greu corpws o'r fath, ac ers lansiad *Cysill ar-lein* mae nifer y defnyddwyr — ac felly nifer y testunau — wedi cynyddu'n aruthrol. Nodir bod cwymp i'w weld dros gyfnodau gwyliau, sy'n dangos efallai fod *Cysill ar-lein* yn adnodd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol ac yn ystod oriau gwaith (gw. Ffigyrau 14 a 15 isod, yn ogystal â Thabl 3 sy'n dangos ei dwf dros gyfnod o 11 o wythnosau). Fodd bynnag, er ei fod yn gorpws monitor, sef corpws yr ychwanegir testunau newydd ato yn barhaus, roedd rhaid dewis sampl penodol ohono at ddiben yr ymchwil. Dewiswyd testunau o gyfnod o 11 mis rhwng mis Awst 2009 a mis Gorffennaf 2010. Roedd y sampl hwnnw yn cynnwys 3,778,278 o eiriau (gw. Ffigwr 16: Corpws *Cysill ar-lein*).

[23] Hoffwn ddiolch i Mr Jones am ei holl help gyda golwg ar y corpws hwn ac am fy nghynorthwyo gyda'r ochr dechnolegol.
[24] Ar gael yn www.cysgliad.com/Cysill/arlein/

Ffigwr 14: Twf defnyddwyr unigryw (*Cysill ar-lein*)

Ffigwr 15: Twf testunau (*Cysill ar-lein*)

Tabl 3: Defnydd o *Cysill ar-lein* rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2009

Wythnos	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12
Dyddiad	25/09/2009	02/10/2009	09/10/2009	16/10/2009	23//10/09	30/10/2009	06/11/2009	13/11/2009	20/11/2009	27/11/2009	03/12/2009	11/12/2009
Twf Defnyddwyr		90	44	47	63	62	71	74	84	100	62	113
Twf Testunau		1215	481	901	1223	1411	1675	1540	1724	1899	1263	2094
Defnyddwyr Unigryw	471	561	605	652	715	777	848	922	1006	1106	1168	1281
Testunau	3823	5038	5519	6420	7643	9054	10729	12269	13993	15892	17155	19249
Cyfartaledd DU/Testun	8.1	9.0	9.1	9.8	10.7	11.7	12.7	13.3	13.9	14.4	14.7	15.0
Nifer Geiriau												

Mae'r corpws yn cynnwys testunau o bob lliw a llun, o waith ysgol i draethodau academaidd ac o lythyrau ffurfiol i negeseuon *Twitter* (gw. Ffigwr 17: categorïau o destunau yng nghorpws *Cysill ar-lein*, a Ffigyrau 19-22 sy'n rhoi enghreifftiau o destunau yn y gwahanol gategorïau). Weithiau dim ond un gair sydd mewn testun, a thro arall ceir darn tameidiog, ond mae'r rhan fwyaf o destunau yn ddarnau o Gymraeg llyfn.

Ffigwr 16: Corpws *Cysill ar-lein*

Ffigwr 17: Categorïau o destunau yng nghorpws *Cysill ar-lein*

Mae arddull y testunau yn amrywio ac mae rhai testunau yn fwy gwallus na'i gilydd, wrth reswm, ond ar gyfer pob darn nodir y testun gwreiddiol, a cheir wedyn copi o'r testun ar ôl iddo gael ei gywiro gan *Cysill ar-lein*, fel y dengys Ffigwr 18 isod:

Ffigwr 18: Gwaith gwallus yng nghorpws *Cysill ar-lein* – cyn ac ar ôl iddo gael ei gywiro

Mae'r haul yn gwenu, rwyn teimlo mor gwych! nawr rwyn gyda rhyddyd i wneud beth bynnag dwy eisiau. Fi yw'r un cwl nawr! y fachgen cyntaf o ein grwp ni i fod yn gyrruRwyn Gallu teimlo'r gwynt chwythu trwy fy nghwallt. Rwyn gallu clywed y bois yn siarad yn cefn y car amdano faint o creadur gwyllt mae car yma! fel un o'r ceir o 'Fast & Furious!' Druan ar [enw priod] fach ar bwys fi, wedi trio pasio'r arholiad gyrru tair waith, dal ddim gobaith gydag ef, ond dyma fi pasio'r tro cyntaf! Rwyn gyda'r hawl i chwerthin am ei ben ha!

Rhif y sesiwn: 9c1917ef-56cd-4ff6-9576-7d8a24d44934, rhif y defnyddiwr: 4d67aa68-47fc-4440-8411-88d2dcda16a8

Mae'r haul yn gwenu, rwy'n teimlo mor wych! Nawr rwy'n gyda rhyddid i wneud beth bynnag dwy eisiau. Fi yw'r un cŵl nawr! y fachgen cyntaf o ein grŵp ni i fod yn gyrru. Rwy'n Gallu teimlo'r gwynt chwythu trwy fy ngwallt. Rwy'n gallu clywed y bois yn siarad yng nghefn y car amdano faint o greadur gwyllt mae car yma! Fel un o'r ceir o 'Fast & Furious!' Druan ar [enw priod] fach ar bwys fi, wedi trio pasio'r arholiad gyrru tair gwaith, dal ddim gobaith gydag ef, ond dyma fi pasio'r tro cyntaf! Rwy'n gyda'r hawl i chwerthin am ei ben ha!

Rhif y sesiwn: 9c1917ef-56cd-4ff6-9576-7d8a24d44934, rhif y defnyddiwr: 4d67aa68-47fc-4440-8411-88d2dcda16a8

Ffigwr 19: Neges *Twitter* (*Cysill ar-lein*)

Eistedd lawr i gwrando ar @[enw priod] ar y rhaglen @[enw priod] ac yn hel atgofion o'r cerddoriaeth fyw gwych yn ystod #eisteddfod09

Rhif y sesiwn: fdc258e5-8c93-40ec-a1e7-855beff0a15c, rhif y defnyddiwr: d17472a5-2f32-4a86-9d85-04cf116b8ac7

Ffigwr 20: Gwaith cwrs (*Cysill ar-lein*)

Gwaith Cwrs 2 TGAU Astudiaethau Crefyddol

Pwysigrwydd Synagog a Pwysigrwydd Cartref

Rwyf yn Iddew sy'n teimlo ei bod yn hynod o bwysig addoli yn y synagog. Rwyf yn ceisio argyhoeddi Iddew arall o bwysigrwydd addoli yn y synagog. Dyma'r dadleuon. Yn gyntaf mae gan yr synagog tri bwrpas Ty Cwrdd,Ty Addoli a Ty Dysg. Mae'r tair peth hyn yn hynod o bwysig I ein crefydd a dylsen ni cofio hyn ac gweithio yn galed I wneud yn siwr hwn sydd yn digwydd yn y synagog. Mae'r synagog yn Ty Cwrdd oherwydd mae'n lle I cymdeithasu, gallent siarad a ffrindiau, y Rabbi, yr Minyan a cwrdd a pobl newydd. Rhan o fod yn dilywnr crefydd yw siarad am yr crefydd a pobl arall.

Rhif y sesiwn: 61115d22-c9dc-4a89-8912-5a63d0a79707, rhif y defnyddiwr: 8f8a813f-6fcc-45ba-af5f-65b69e129259

Ffigwr 21: E-bost (*Cysill ar-lein*)

Annwyl [enw priod],Yn yr e-bost dwethaf roeddech wedi nodi y bysai cwestiynnau'r seminar i fyny ar Blackboard. Dyw [enw priod] a fi ddim wedi gallu cael gafael arno nhw a oes modd i chi e-bostio'r cwestiynnau i ni?Am y cyflwyniad i'r tiwtorial nesa dwi ar ddeallt fod y grwp arall yn defnyddio power point i wneud eu cyflwyniad ydy hyny felly yn golygu fod yn rhaid i ni hefyd wneud hyn?Hwyl am y tro, [enw priod]

Rhif y sesiwn: a8b4354f-b5fb-4b14-99b1-823963135fb0, rhif y defnyddiwr: e3ae7b06-0015-44ef-ad93-8e44076d5fb0

Ffigwr 22: Traethawd coleg (*Cysill ar-lein*)

Canodd Dafydd ap Gwilym ychydig o themâu. Themâu mwyaf poblogaidd Dafydd ap Gwilym oedd serch a natur. Fel arfer, roedd ysbrydoliaeth ar gyfer ei deimladau serchol yn dod o ddwy ferch, Morfudd a Dyddgu. Ceir awgrymiad hefyd ei fod e wedi rhannu teimladau cryf rhwng y ddwy, gyda chynnwrf cariad a phoen. Yn fy marn i, mae emosiynau Dafydd ap Gwilym yn eglurol iawn yn ei gerdd 'Gwahodd Dyddgu'.

Rhif y sesiwn: 9bcc98d4-f774-47df-81a5-04bee0daa9d4, rhif y defnyddiwr: cbe5cf8b-056a-4955-8f13-7a1332d8643b

Chwiliwyd drwy'r holl destunau hyn i weld patrymau Cymraeg naturiol. Fodd bynnag, gan fod y corpws hwn, ac i raddau llai y corpws cyfochrog, yn cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu unigolion, dilynwyd cod moeseg wrth ymgymryd â'r gwaith. Rhoddir manylion llawn yn yr adran nesaf.

3.2.3 Moeseg

Yn ôl Fframwaith Moeseg Ymchwil Prifysgol Bangor,[25] "y brif ystyriaeth mewn unrhyw ymchwil y mae pobl yn cymryd rhan ynddi yw caniatâd, urddas, hawliau, diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan".

Yn achos corpws *Cysill ar-lein*, golygodd hyn lunio telerau defnydd penodol y mae'n rhaid i ddefnyddwyr *Cysill ar-lein* eu darllen a'u derbyn cyn cael mynediad at y feddalwedd (gw. Atodiad 2). Noda'r telerau hyn fod y testunau yn cael eu danfon at weinydd(ion) er mwyn gwirio'r sillafu a'r gramadeg a bod *Cysill ar-lein* yn cofnodi pob testun a yrrir ato i'w brawfddarllen. Hysbysir y defnyddwyr ei bod yn bosibl y bydd y testunau hynny yn cael eu defnyddio yn y dyfodol ar gyfer ymchwil academaidd a fyddai'n cyfrannu at ddatblygiad *Cysill* ac offer iaith tebyg yn y dyfodol, ond pe bai hynny'n digwydd, ni fyddai unrhyw

[25] O wefan Prifysgol Bangor, mis Awst 2010.

enwau personol nac enwau lleoedd ymddangos. Er hynny, rhybuddir defnyddwyr na ddylent ddefnyddio *Cysill ar-lein* i wirio unrhyw ddogfen sydd o natur gyfrinachol neu sensitif.

Serch y rhybudd hwn, daethpwyd o hyd i nifer o fanylion personol yn y data ac felly pan roddir enghraifft o'r corpws yn y traethawd hwn, disodlir unrhyw enw person ac unrhyw enw lle ag esboniad rhwng cromfachau petryal sy'n nodi'r dosbarth o enw y mae'n ei ddisodli. Er enghraifft, gwelir y canlynol yn Nhabl 20, rhif 66:

...economeg, mae profiad ymgynghori [enw priod] wedi canolbwyntio...

At hynny, cedwir yr holl ddata a gesglir yn y corpws yn hollol gyfrinachol ar weinydd(ion) diogel ac fe'u gwarchodir â chyfrinair gyda mynediad wedi'i gyfyngu i staff Uned Technolegau Iaith, yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Gwarchod Data 1998.

O ran y corpws cyfochrog o gyfieithiadau, cafodd yr holl ddata eu trosglwyddo yn hollol ddienw i'r ymchwilydd er mwyn sicrhau na allai unrhyw un, heblaw staff awdurdodedig CCC, weld pwy a gynhyrchodd y cyfieithiadau a phwy a'u marciodd. Felly cyfeirir at y marcwyr fel Marcwyr A, B ac C yn y gwaith ac enwir y cyfieithiadau ar ôl enw'r testun ffynhonnell gyda rhifau olynol, megis Hafren01, Hafren02 ac ati. Wrth reswm, ni chaiff unrhyw fanylion a allai ddatgelu pwy oedd y marcwyr na'r cyfieithwyr eu cadw yn y corpws, gan nad oedd y fath fanylion ar gael wrth greu'r corpws.

Trafodir yn adran olaf y bennod hon y feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data.

3.3 Dadansoddi'r data

Fel y nodwyd eisoes, dilysnod pob corpws yw bod y testunau sydd ynddo ar gael ar ffurf electronig (McEnery *et al* 2006:5). Golyga hyn fod modd defnyddio meddalwedd arbennig i ymdrin â'r data ac ymhelaethir isod ar y feddalwedd a ddefnyddiwyd yn achos y corpws cyfochrog a chorpws *Cysill ar-lein*.

A chofio bod y corpws cyfochrog yn gorpws gweddol fach a bod angen archwilio'r cyfieithiadau a sylwadau'r marcwyr yn reit fanwl, penderfynwyd nad oedd angen

meddalwedd arbennig i ddadansoddi'r data. Yn achos corpws *Cysill ar-lein*, fodd bynnag, roedd angen gosod rhaglen goncordans i ymgymryd â'r gwaith ymchwil.

Mae offer concordans yn hanfodol os oes rhaid dadansoddi unrhyw ddata a gedwir mewn corpws mawr. Yn syml, mae rhaglen goncordans yn chwilio'r corpws am allweddair, gan ddangos wedyn naill ai nifer penodol o enghreifftiau o'r gair hwnnw neu bob un enghraifft o'r gair hwnnw yn y corpws, yn ogystal â'i gyd-destun (Gavioli 2005:11). Gall y wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol yn ystadegol ond yn fwy defnyddiol wrth helpu i adnabod ym mha fath o gystrawen y mae'r gair yn digwydd a chan daflu goleuni o bosib ar semanteg y gair drwy ddangos ei gydleoliadau (Hickey 2003:12).

MonoConc Pro 2.2 (2003) oedd y rhaglen goncordans a ddefnyddiwyd yn y gwaith hwn. Fe'i datblygwyd gan Dr Michael Barlow, sy'n arbenigwr ym maes ieithyddiaeth corpora a meddalwedd, ac mae Ffigwr 23 yn rhoi ciplun o'r rhaglen ar waith yn chwilio am ffurf dreigliedig yr enw benywaidd 'proses'. Ni ddefnyddiwyd y rhaglen at ddiben ymchwil meintiol o gwbl, ond er mwyn adnabod cystrawen a chydleoliadau'r enwau haniaethol a'r berfenwau a oedd yn rhan o'r ymchwil.

Ffigwr 23: *MonoConc Pro* ar waith

Yn ogystal â defnyddio'r rhaglen goncordans, defnyddiwyd taenlenni Excel® i drawsnewid ystadegau yn siartiau cylch er mwyn arddangos canfyddiadau'r ymchwil.

4. DADANSODDI YMYRRAETH MEWN CYFIEITHIADAU

"Na. Saesneg yw hyn!"

Marciwr B, BF28

Cynigir yn y bennod hon ddadansoddiad o ymyrraeth gan yr iaith Saesneg fel y'i ceir mewn gwaith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Seilir yr holl waith dadansoddi ar ddata o'r ddau gorpws a ddisgrifiwyd yn y bennod flaenorol, sef corpws cyfochrog o gyfieithiadau wedi'u marcio a'u hanodi gan arholwyr CCC, a chorpws *Cysill ar-lein*.

Egyr y bennod drwy ystyried y cyfieithiadau a geir yn y corpws cyfochrog, gan nodi sylwadau'r marcwyr ar y cyfieithiadau, a hynny er mwyn cael gwybodaeth empirig am yr hyn sy'n cael ei dderbyn a'r hyn sydd, ar y llaw arall, yn cael ei ystyried yn ymyrraeth mewn gwaith cyfieithu i'r Gymraeg. Cyflwynir rhestr sy'n categoreiddio'r holl enghreifftiau o ymyrraeth a nodir gan y marcwyr — ar lefel idiom, cystrawen a geirfa — a cheir trafodaeth o bob un yn ei thro. Craidd y drafodaeth fydd un enghraifft benodol o ymyrraeth gystrawennol, sef y defnydd o enw haniaethol Cymraeg wrth gyfieithu enw haniaethol o'r testun Saesneg.

Yn ail ran y bennod dadansoddir y data a geir yng nghorpws *Cysill ar-lein*, gan chwilio am enghreifftiau o'r enwau haniaethol hynny a gam-gyfieithwyd yn y corpws cyfochrog. Gwneir hyn i sicrhau mai ymyrraeth sydd ar waith yn y cyfieithiadau ac nid rhyw ddatblygiad naturiol yn yr iaith darged, oherwydd fel yr eglura Thomas (1996:9):

> ... rhaid cofio nad adlewyrchu ymyrraeth y mae pob ffurf amrywiol. Yn hytrach, rhan gynhenid a hanfodol o bob iaith yw amrywio yn sgîl datblygiadau sy'n codi ynddi hi ei hun; heb hynny ni fyddai iaith byth yn newid.

Bydd rhan olaf y bennod yn ystyried enwau Saesneg, gan geisio pennu pa fath o enwau sy'n cael eu cyfieithu gan ferfenwau yn Gymraeg.

4.1 Y Corpws cyfochrog

Os am ddadansoddi ymyrraeth mewn gwaith cyfieithu i'r Gymraeg, mae'n rhaid dechrau drwy gasglu gwybodaeth empirig am yr hyn y mae cyfieithwyr profiadol yn eu hystyried yn gyfieithiadau derbyniol a'r hyn y maent yn eu hystyried yn gyfieithiadau annerbyniol.

Fel yr esboniwyd yn y bennod flaenorol (3.2.1), mae'r corpws cyfochrog yn cynnwys cyfieithiadau a gynhyrchwyd yn ystod dau e-weithdy cyfieithu. Trefnwyd y gweithdai gan CCC â'r nod o roi cyfle i gyfieithwyr drosi "dau ddarn heriol a gwrthgyferbyniol o ryw 300 gair yr un *a chael sylwadau arnynt gan diwtor personol, sy'n gyfieithydd profiadol ac arholwr*"[26]. Tri aelod o Fwrdd Arholi Testunau CCC oedd yn gyfrifol am y marcio yn y ddau e-weithdy; marciwyd pob darn gan un marciwr yn unig, ond dau farciwr oedd ynghlwm wrth bob e-weithdy. Er enghraifft, marciwyd 22 cyfieithiad o destun 'BF' gan Farciwr A ond Marciwr B a farciodd y 15 cyfieithiad arall yn y gweithdy (gw. Atodiad 3 am restr o bwy a farciodd bob cyfieithiad). O ganlyniad, ceir sylwadau dau arholwr ar gyfer pob testun, ond nid ar gyfer pob cyfieithiad. Serch hynny, o ystyried bod cyfieithwyr yn aml yn baglu dros yr un ymadroddion yn yr un cyfieithiadau, mae cael sylwadau dau farciwr annibynnol ym mhob gweithdy yn ddefnyddiol iawn wrth geisio dadansoddi ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell mewn modd diduedd.

Y meini prawf asesu

Defnyddiodd y marcwyr yr un meini prawf asesu â'r rheiny a ddefnyddir gan farcwyr arholiadau CCC (gw. Atodiad 4). Hynny yw, rhoddwyd cydnabyddiaeth gyfartal am y pedair elfen ganlynol:

Ystyr:	Dealltwriaeth o'r pwnc a chyfleu gwybodaeth yn gywir
Cywair:	Dewis addas o eirfa, priod-ddulliau, termau a chywair
Cystrawen:	Cydlyniad a threfniadaeth brawddegau
Cywirdeb:	Gramadeg, sillafu ac ati

Wrth graffu ar fanylion y meini prawf hyn, gwelir bod cryn bwyslais ar gynhyrchu cyfieithiadau nad ydynt yn glynu'n rhy glòs wrth ymadroddion y testun ffynhonnell ac sy'n

[26] Gwefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, mis Medi 2010. Sylwer mai'r awdur biau'r pwyslais.

“darllen fel darnau gwreiddiol”. Er enghraifft, noda’r meini prawf y dylai ymgeiswyr llwyddiannus allu:

- defnyddio’r cystrawennau a’r rhannau ymadrodd sy’n briodol ac yn naturiol i’r Gymraeg;
- newid cyflwr/dosbarth gramadegol geiriau wrth drosi, a
- defnyddio cyfuniadau o eiriau sy’n gyson â theithi’r iaith.

Mae’n eglur, felly, y disgwylir i farcwyr ac arholwyr CCC fod yn effro i’r posibilrwydd o ymyrraeth gan y testun ffynhonnell, a bod y fath ymyrraeth yn cael ei hystyried yn wall yn y testun targed. Edrychwn yn awr ar sylwadau’r tri marciwr.

4.2 Sylwadau’r marcwyr

Yn ôl Marciwr C, y sialens i bob cyfieithydd sy’n cyfieithu i’r Gymraeg yw creu cyfieithiad “sy’n llifo a darllen fel darn o Gymraeg gwreiddiol”. Hynny yw, dylai’r cyfieithydd osgoi cael ei ddylanwadu gan y testun ffynhonnell. Yn wir, dro ar ôl tro wrth ddarllen y cyfieithiadau yn y corpws cyfochrog gwelwyd sylwadau gan y marcwyr a oedd naill ai yn lladd ar gyfieithu llythrennol neu’n canmol y defnydd o Gymraeg rhywiog. Ond nid oedd hyd yn oed y marcwyr bob tro yn sicr ai ymyrraeth oedd ar waith ym mhob achos, gan amau bod rhai ymadroddion yn dderbyniol yn y Gymraeg erbyn hyn.

Lladd ar gyfieithu llythrennol

Roedd yn eglur bod y marcwyr yn ystyried cyfieithu llythrennol yn annerbyniol. Roedd y cyfieithiadau yn frith o sylwadau megis y canlynol:

“yn adleisio gormod o’r gwreiddiol” (Carvajal04),

“yn dilyn y Saesneg yn llythrennol” (BF18, BF42, & Hafren31),

“wedi cadw’n ddiangen o glòs at y Saesneg (Carvajal11),

“peidiwch â chyfieithu’n llythrennol” (Carvajal08),

“does dim angen cyfieithu’n llythrennol” (Hafren09).

Canmol y defnydd o Gymraeg rhywiog

Fodd bynnag, nid yn unig nodi'r achosion lle y glynodd yr ymgeiswyr yn rhy agos wrth y testun ffynhonnell wnaeth y marcwyr; canmolwyd yr ymgeiswyr a lwyddodd i osgoi cyfieithu'n llythrennol ac i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg rhywiog. Cafwyd llu o sylwadau ar y cyfieithiadau megis:

> "Dewis arbennig o ymadroddion am yr idiomau Saesneg" (BF16),
>
> "Mynegiant cadarn a chynigion da am rai ymadroddion Saesneg" (Hafren30),
>
> "Cyfieithiad deallus sy'n llwyddo i gynnig amrywiadau ar ymadroddion Saesneg, yn hytrach na'u cyfieithu'n llythrennol" (Hafren31),
>
> "Llwyddwyd i drosi ymadroddion Saesneg i Gymraeg naturiol" (Hafren32),
>
> "Mynegiant eglur, sy'n osgoi cyfieithu'n llythrennol lle mae hynny'n briodol, a defnyddio ymadroddion sy'n gweddu i'r Gymraeg" (Hafren32),
>
> "Mae'r cyfieithiad hwn yn un cadarn, ac yn dangos dawn wrth ganfod y gwahaniaethau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac wrth gyfleu ymadroddion Saesneg yn llwyddiannus. Mae idiomau addas yn cael eu defnyddio, ac mae arlliw Cymreig i'r cyfieithiad" (Canwr06).

Nid du a gwyn

Serch hynny, nid oedd y marcwyr bob tro yn sicr ai ymyrraeth oedd ar waith ym mhob achos, gan amau bod rhai ymadroddion yn dderbyniol yn y Gymraeg erbyn hyn. Er enghraifft, gofynnodd Marciwr B, "Pryd mae idiom Saesneg yn dod yn un Cymraeg?", wrth gyfeirio at y cyfieithiad llythrennol a ganlyn o'r priod-ddull Saesneg 'to fall short of', gan ychwanegu "Byddwn i'n ddigon hapus â'r un sydd gennych chi yma. Mae Bruce[27] yn rhoi 'siomi'r disgwyliadau'".

> ST: *The environmentally friendly lagoon and reef ideas, which would produce as little as a fifth of the energy of the big barrage, seem* ***to fall short of*** *the government's stated goal of producing a "strategically significant" amount of energy from the project.* (llau. 12-14)

[27] Cyfeiriad at *Eiriadur yr Academi* sydd yma. Fe'i gelwir yn 'Bruce' gan y rhan fwyaf o gyfieithwyr yng Nghymru ar ôl prif olygydd y geiriadur, Dr Bruce Griffiths.

> TT: Mae'n ymddangos bod y syniadau o greu rîff neu forlyn sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, fyddai'n creu cyn lleied ag un rhan o bump o ynni'r morglawdd mawr, **yn syrthio'n brin o** nod penodedig y llywodraeth o gynhyrchu digon o ynni o'r prosiect i fod yn arwyddocaol yn strategol. (Hafren15)

Ac wrth drafod y cyfieithiad canlynol o'r priod-ddull Saesneg 'breathe fresh life into', datganodd Marciwr A, "Iawn yw cadw at yr idiom Saesneg, mae'n siŵr, trwy ddefnyddio 'anadlodd'".

> ST: *Last month the government* ***breathed fresh life*** *into the idea of building a "barrage" of up to 10 miles stretching across the waterway...* (llau. 4-5)
> TT: Fis diwethaf **anadlodd** y llywodraeth **fywyd newydd** i'r syniad o adeiladu "morglawdd" hyd at 10 milltir yn ymestyn ar draws y ddyfrffordd. (Hafren06)

Yn ogystal, er i un marciwr (Marciwr A) fynnu wrth dafoli'r cyfieithiad isod fod "'yn cael teuluoedd' ychydig yn rhyfedd yn y Gymraeg", derbyniwyd yr un ymadrodd yn BF19 heb sylw gan farciwr arall (Farciwr B).

> ST: *There are two kinds of rock star: the ones with monster egos who sleep with everything that moves, and the ones with monster egos who sleep with everything that moves but eventually* ***have families*** *and turn into dads.* (llau. 1-2)
> TT: Mae yna dau fath o seren roc: y rhai gyda ego anferthol sy'n cysgu gyda phob peth sy'n symud, a'r rhai gyda ego anferthol sy'n cysgu gyda phob peth sy'n symud, ond sydd o'r diwedd **yn cael teuluoedd** a throi mewn i dadau. (BF36)

Fodd bynnag, at ei gilydd, mae sylwadau'r marcwyr yn cynnig gwybodaeth werthfawr am yr hyn a olygir gan ymyrraeth mewn gwaith cyfieithu i'r Gymraeg, a cheir yn yr adran nesaf arolwg o'r gwahanol gategorïau a geir, wedi ei seilio ar ddadansoddiad manwl o'r sylwadau hyn.

4.3 Arolwg o'r enghreifftiau o ymyrraeth

Yn ôl Toury (1995:274-9), mae ymyrraeth yn rhan gynhenid o unrhyw gyfieithu ac wrth ddadansoddi cyfieithiadau'r corpws cyfochrog gwelir bod hyn yn sicr o fod yn wir yn achos gwaith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Ar ôl darllen holl sylwadau'r marcwyr ar y cyfieithiadau lluniwyd tabl yn rhestru pob enghraifft o ymyrraeth a nodwyd ganddynt (gw. Atodiad 5). Fel y dengys y ciplun isod (Tabl

4), rhestrwyd yr enghreifftiau fesul cyfieithiad gydag enw/rhif y cyfieithiad yn y golofn gyntaf, gan ddangos y darn priodol yn y testun ffynhonnell a'r testun targed. Nodwyd wedyn sylwadau'r marcwyr yn union fel y'u cafwyd ar y cyfieithiadau, cyn categoreiddio'r enghreifftiau yn fras o dan y penawdau 'idiom', 'cystrawen' a 'geirfa'[28]:

Tabl 4: Enghreifftiau o ymyrraeth

Cyfieithiad	Testun ffynhonnell	Testun targed	Sylw'r marciwr	Categori o ymyrraeth
BF42	a) ... and turn into dads.	a) ...a throi mewn i dadau.	a) Saesneg yw hwn! 'Troi yn dadau' sy'n gywir.	a) Idiom
	b) In the normal course of events...	b) Gyda threigl amser arferol...	b) Ystyr. Glynu at y Saesneg. Yn syml 'yn naturiol/yn nhrefn normal pethau/yn normal'.	b) Idiom
	c) ...have a crack at this one.	c) ... yn rhoi tro ar hon.	c) Eto, tueddu dilyn y Saesneg. Beth am 'drio'i lwc/cael ei fachau ar hon'?	c) Idiom
Canwr01	a) ...that puts him in another league to other counter-tenors.	a) ... sy'n ei osod mewn dosbarth uwch nag uwchdenoriaid eraill.	a) Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg.	a) Idiom
	b) ... he brought a lump to my throat;	b) ... ddaeth lwmp i'm gwddf;	b) Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.	b) Idiom

Dim ond yr enghreifftiau lle y nododd y marcwyr yn bendant fod ymyrraeth ar waith gafodd eu cynnwys yn y tabl. Hynny yw, cofnodwyd holl enghreifftiau y nododd y marcwyr eu bod yn dilyn y Saesneg yn rhy agos neu yn adleisio gormod o'r gwreiddiol neu eu bod yn annaturiol a llythrennol. Ond rhaid cofio y cywirwyd llawer o wallau heb i'r marcwyr nodi bod dylanwad y testun ffynhonnell yn amlwg. Er enghraifft, defnyddiodd nifer o gyfieithwyr y fannod benodol o flaen enw afon, fel y dengys y frawddeg isod:

> ST: *It has been three decades since Whitehall first looked into harnessing energy from* ***the Severn*** *estuary's tides.* (ll. 1)
> TT: Mae tri degawd wedi mynd heibio ers i'r Llywodraeth edrych ar y syniad o

[28] Yn ei ddiffiniad o ymyrraeth mae Newmark (1991:78) yn sôn am 5 nodwedd ieithyddol benodol a all gael eu trosglwyddo i'r testun targed wrth drosi, sef 'cystrawen', 'geirfa', 'idiom', 'trosiad' a 'threfn geiriau'. At ddiben y gwaith ymchwil hwn, penderfynwyd delio â 'threfn geiriau' fel rhan o 'gystrawen' a 'throsiad' fel math o 'idiom', gan greu tri chategori syml o ymyrraeth. Sylwer, fodd bynnag, fod Newmark ei hun yn rhestru nifer o gategorïau eraill wrth drafod ymyrraeth yn ei hystyr ehangach.

gasglu egni o lanw aber **yr Hafren**. (Hafren01)

Sylwodd marciwr Hafren01, "Nid yw'n arferol rhoi'r fannod o flaen enw afon: byddai 'aber afon Hafren' yn iawn", heb air am ddylanwad y testun ffynhonnell, er y gellid dadlau'n gryf bod ymyrraeth ar waith yma ac mewn nifer o enghreifftiau eraill lle nad oedd defnydd y fannod yn gyson â theithi'r iaith Gymraeg (Thomas 1996:178-187; Gruffudd 2005:22-23).

Yn yr un modd, tystiodd nifer o'r cyfieithiadau i'r ffaith fod hyd yn oed geiriau unigol â dylanwad cryf yn y broses gyfieithu. Ond eto, ni chafwyd sylw i'r perwyl hwnnw bob amser gan farcwyr y cyfieithiadau. I roi un enghraifft yn unig, achosodd y gair "compass" drafferth i sawl cyfieithydd (a bydd mwy o drafodaeth yn ei gylch isod o dan bennawd 4.3.2: Geirfa). Dewisodd tri chyfieithydd ei drosi yn "cwmpas", fel a ganlyn:

> ST: *They may not have had much use for a moral* ***compass****, but they want everything proper when it comes to their kids.* (llau. 4-5)
> TT: Efallai eu bod nhw ddim wedi angen **cwmpas** moesol, ond maen nhw eisiau popeth wedi ei wneud yn iawn pan yw hi'n fater o'u plant (BF10)

Nododd marciwr BF10, "Mae ystyr gwahanol i 'cwmpas' (rhychwant); efallai y byddai 'cyfeiriad' neu 'egwyddor' yn well", heb dynnu sylw at y ffaith mai 'faux ami' oedd hwn mewn gwirionedd ac felly yn ganlyniad o ymyrraeth gan y Saesneg. Fel yr esbonia Newmark (1991:83):

> Lexical interference is more dangerous than grammatical interference. Whilst the latter is usually stylistic, lexical interference can distort the meaning of a sentence. Its most obvious form is the *faux ami*, where both source and target language include thousands of Greco-Latinisms which have developed a second sense in another language.

Yn ein henghraifft ni, mae "compass" a "cwmpas" ill dau yn dod o'r ferf Ladin "compassare", ond maent wedi magu ystyron gwahanol i'w gilydd erbyn heddiw, fel y nododd y marciwr. Serch hynny, gan nad oedd unrhyw sylw gan y marciwr yn esbonio bod ymyrraeth ar waith yn yr achos hwn, ni chafodd yr enghraifft ei chynnwys yn y tabl. Mabwysiadwyd yr egwyddor hon wrth ddadansoddi holl sylwadau'r marcwyr.

Bid a fo am hynny, nodwyd nifer nid ansylweddol o achosion o ymyrraeth gan y marcwyr a chofnodir pob un o'r rheiny yn y tabl. Wrth eu harchwilio, daw yn amlwg fod y rhan fwyaf o achosion, sef 62%, yn perthyn i'r categori 'idiom' (gw. Ffigwr 24 isod).

Ymddengys fod hyn yn beth cyffredin wrth gyfieithu unrhyw iaith; wrth ystyried idiom y cyfieithiad, mwy na dim byd arall efallai, mae'n bosibl barnu calibr y cyfieithydd, fel yr esbonia Fernando a Flavell (1981:85): "Translation is an exacting art. Idiom more than any other feature of language demands that the translator be not only accurate but highly sensitive to the rhetorical nuances of the language". Trafodir yng ngweddill yr adran hon isod wahanol fathau o idiom, gan nodi enghreifftiau a godwyd o'r corpws cyfochrog. Ond nid idiom oedd yr unig achos o ymyrraeth ar y cyfieithiadau yn y corpws. Ymyrraeth ar lefel gystrawennol oedd yn gyfrifol am 30% o'r achosion ac ymyrraeth ar lefel geiriau unigol am 8% o'r achosion, fel y'i gwelir yn y siart isod. Trafodir yn awr bob categori yn ei dro, gan ganolbwyntio ar enghreifftiau penodol o'r corpws cyfochrog.

Ffigwr 24: Categorïau o ymyrraeth yn y cyfieithiadau

4.3.1 Idiom

Mae'r categori 'idiom' yn un eang iawn ac yn unol ag *A Dictionary of Welsh and English Idiomatic Phrases* (Cownie 2001) mae'n cynnwys nid yn unig idiomau pur, a elwir yn 'priod-ddulliau' yn y traethawd hwn, ond hefyd drosiadau, berfau ymadroddol idiomatig ac ymadroddion idiomatig. Cynhwysir yn y geiriadur hwnnw briod-ddulliau na ellir eu cyfieithu yn llythrennol megis "fel lladd nadroedd" ("very energetically") (td. 58) ond hefyd yr hyn a elwir yn 'ymadroddion idiomatig' lle y newidir yr arddodiad yn unig wrth drosi, megis

“gentle **with**” -> “tyner **wrth**” (td. 181), neu ymadroddion lle y newidir trefn geiriau. Byddwn yn trafod y rhain i gyd gam wrth gam.

Priod-ddulliau

Gellir diffinio ‘priod-ddull’ mewn sawl ffordd, ond ym maes ieithyddiaeth fe’i diffinnir fel “a complex lexical item which is longer than a word form but shorter than a sentence and which has a meaning that cannot be derived from the knowledge of its component parts. Meaning is thus the decisive, if not the only, criterion for idioms” (Gramley & Pätzold 2004:55). Ceir ym mhob iaith briod-ddulliau i gyfoethogi’r ffordd y mae ystyr yn cael ei fynegi. Weithiau mae ieithoedd yn defnyddio’r un priod-ddulliau, er enghraifft, S. “to go to the dogs”-> C. “mynd i’r cŵn” (Gruffudd 2005:53) neu S. “to gain ground” sef “to make progress” -> C. “ennill tir” (Cownie 2001:181), ond nid yw hynny’n digwydd yn aml. Fel arfer, mae’n rhaid i’r cyfieithydd chwilio am briod-ddulliau amgen yn yr iaith darged neu aralleirio os nad oes priod-ddulliau tebyg ar gael yn yr iaith honno (Nida & Taber 2003:106). Cafwyd sawl priod-ddull lliwgar ym mhob un o’r pedwar darn Saesneg yn y corpws, priod-ddulliau megis:

> “I’d **put good money on** him rocketing to a sensational international career...” (Canwr, ll. 11)
>
> “The newfound need **to go green** could finally push it over the line”. (Hafren, llau. 2-3)

a llwyddodd y rhan fwyaf o’r cyfieithwyr i ddefnyddio priod-ddulliau Cymraeg priodol yn eu lle. Er enghraifft, wrth drafod cyfieithiad Carvajal12, nododd y marciwr fod y cyfieithydd wedi dewis “priod-ddulliau addas” ac wedi “dangos ymwybyddiaeth o’r angen i newid priod-ddull a chystrawen wrth gyfieithu.” Canmolwyd cyfieithydd BF16 am “ddewis arbennig o ymadroddion am yr idiomau Saesneg”, a sylwodd marciwr BF08 fod y cyfieithiad “yn llifo’n rhwydd, ac yn llwyddo i gyfieithu idiomau Saesneg heb gadw’n llythrennol at y Saesneg”.

Fodd bynnag, cafodd saith priod-ddull eu cyfieithu yn llythrennol yn yr e-weithdai, gan ddangos ymyrraeth amlwg gan y testun ffynhonnell, gyda’r cyfieithydd yn dilyn union eiriad y Saesneg yn hytrach na defnyddio priod-ddull Cymraeg (gw. Tabl 5 isod, Priod-ddulliau 1, 3, 4, 5, 7, 8 a 9).

Tabl 5: Priod-ddulliau

	Priod-ddull 1: to have a family
ST	There are two kinds of rock star: the ones with monster egos who sleep with everything that moves, and the ones with monster egos who sleep with everything that moves but eventually **have families** and turn into dads. (BF, llau. 1-2)
TT	Mae yna dau fath o seren roc: y rhai gyda ego anferthol sy'n cysgu gyda phob peth sy'n symud, a'r rhai gyda ego anferthol sy'n cysgu gyda phob peth sy'n symud, ond sydd o'r diwedd **yn cael teuluoedd** a throi mewn i dadau.
Sylw	Mae 'yn cael teuluoedd' ychydig yn rhyfedd yn y Gymraeg: 'have a family' yn Saesneg yw 'magu teulu' efallai?
Yn	BF36
	Priod-ddull 2: to have a crack at
ST	What you really don't want to be thinking is, "I hope Dad doesn't **have a crack at** this one". (BF, llau. 9-10)
TT	Yr hyn nad ydych mewn gwirionedd am feddwl amdano yw "Gobeithio na fydd Dad yn **rhoi tro ar** hon".
Sylw	Eto, tueddu dilyn y Saesneg. Beth am 'drio'i lwc/cael ei fachau ar hon'?
Yn	BF42
	Priod-ddull 3: in another league
ST	Yuriy Mynenko is a 30-year old Ukrainian male soprano who commands a staggering virtuosity and power that puts him **in another league** to other counter-tenors. (Canwr, llau. 3-4)
TT	Mae Yuriy Mynenko'n ddyn 30 oed o'r Ukrain a chanddo lais soprano a meistrolaeth a grym syfrdanol sy'n ei roi **mewn cynghrair arall** i uwchdenoriaid eraill.
Sylw	Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg.
Yn	Canwr01, Canwr02, Canwr03, Canwr05, Canwr06
	Priod-ddull 4: to bring a lump to someone's throat
ST	In a melancholy aria by Broschi, **he brought a lump to my throat**; in the runs of "Crude furie" from Handel's *Serse*, he was simply dazzling; and in Rossini's "Di tanti palpiti", he showed that he was more than capable of entering the bel canto repertory. (Canwr, llau. 7-10)
TT	**Daeth â lwmp i'm gwddw** gydag aria bruddglwyfus Broschi; roedd yn wirioneddol drawiadol yn rhediadau "Crude furie" o *Serse* gan Handel; ac yn "Di tanti palpiti" gan Rossini, dangosodd y gallai'n hawdd ymuno â'r stoc *bel canto*.
Sylw	Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.
Yn	Canwr01, Canwr02, Canwr03, Canwr05, Canwr06
	Priod-ddull 5: to assume a (prominent) role
ST	To everyone's surprise including her own, she steadily **assumed a prominent role** within London's underground Catholic community, setting up an unofficial nunnery, offering Roman priests a secure place to live, consoling prisoners awaiting execution, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad. (Carvajal, llau. 9-12)
TT	Er mawr syndod i bawb, gan gynnwys iddi hi, yn raddol **mabwysiadodd rôl blaenllaw** yn y gymuned Gatholig gyfrin yn Llundain, gan sefydlu lleiandy answyddogol, cynnig lloches i offeiriaid Catholig, cysuro carcharorion a oedd yn aros i gael eu dienyddio, mewnforio llyfrau gwaharddedig a helpu Catholigion a oedd yn cael eu herlid i ffoi dramor.
Sylw	A oes angen glynu mor gaeth â hyn i'r Saesneg mewn gwirionedd? Byddai dweud 'enillodd le amlwg yn raddol' Yn ôl GyA mae rôl yn fenywaidd.
Yn	Carvajal06
	Priod-ddull 6: to run the risk of
ST	Throughout this time she **ran the risk of** imprisonment and possibly even execution, yet she managed to avoid this ultimate fate in spite of being arrested on a number of occasions. (Carvajal, llau. 12-13)
TT	Trwy'r cyfnod yma **hwynebodd y risg o** gael ei charcharu, neu, hyd yn oed, gael ei dienyddio. Er hynny fe allodd osgoi'r dynged eithaf er gwaethaf iddi gael ei harestio nifer o weithiau.
Sylw	Rydych wedi cadw'n ddiangen o glòs at y Saesneg. Byddai dweud 'mentro' yn cyfleu'r Saesneg yma – 'mentrodd gael ei...'
Yn	Carvajal11
	Priod-ddull 7: to push sthg. over the line
ST	The newfound need to "go green" could finally **push it over the line**. (Hafren, llau. 2-3)
TT	Gallai'r angen newydd i "ewch yn wyrdd" **ei gwthio dros y llinell** o'r diwedd.

Sylw	Dilyn y Saesneg braidd yn agos. Colli cyfle i ddefnyddio ymadrodd rhywiog Cymraeg fel 'cael y maen i'r wal'
Yn	Hafren04, Hafren05, Hafren07, Hafren21, Hafren33
	Priod-ddull 8: to breathe fresh life into sth.
ST	Last month the government **breathed fresh life into** the idea of building a "barrage" of up to 10 miles stretching across the waterway that it says could provide up to 5% of the country's energy needs. (Hafren, llau. 4-5)
TT	Y mis diwethaf, **anadlodd** y llywodraeth **fywyd newydd i**'r syniad o adeiladu "bared" hyd at 10 milltir yn ymestyn dros y difrffordd mae'n dweud y gallai ddarparu hyd at 5% o anghenion ynni'r wlad.
Sylw	Ydy 'anadlu bywyd newydd' yn cyfieithu'r ymadrodd Saesneg yn llythrennol? Gellid defnyddio 'atgyfodi'.
Yn	Hafren 09, Hafren10, Hafren11, Hafren19, Hafren38
	Priod-ddull 9: to fall short of
ST	The environmentally friendly lagoon and reef ideas, which would produce as little as a fifth of the energy of the big barrage, seem **to fall short of** the government's stated goal of producing a "strategically significant" amount of energy from the project. (Hafren, llau. 12-14)
TT	Mae'n ymddangos bod y syniadau o greu rîff neu forlyn sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, fyddai'n creu cyn lleied ag un rhan o bump o ynni'r morglawdd mawr, **yn syrthio'n brin o** nod penodedig y llywodraeth o gynhyrchu digon o ynni o'r prosiect i fod yn arwyddocaol yn strategol.
Sylw	Marciwr 15: Pryd mae idiom Saesneg yn dod yn un Cymraeg? Byddwn i'n ddigon hapus â'r un sydd gennych chi yma. Mae Bruce yn rhoi 'siomi'r disgwyliadau'.
Yn	Hafren15, Hafren26, Hafren28

Troswyd y priod-ddull Saesneg "...push it over the line" yn "...ei gwthio dros y llinell" gan bum cyfieithydd yn Hafren 04, 05, 07, 21 a 33 a nododd y marciwr, "dilyn y Saesneg braidd yn agos. Colli cyfle i ddefnyddio ymadrodd rhywiog Cymraeg fel 'cael y maen i'r wal'." Priod-ddull arall a gyfieithwyd yn llythrennol oedd "...he brought a lump to my throat". Dewisodd pump o'r chwe chyfieithydd yng ngweithdy 'Canwr' i'w gyfieithu yn "...daeth â lwmp i'm gwddf", ond fel y sylwodd y marciwr: "Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da." Yn yr un gweithdy, cyfieithwyd y priod-ddull "in another league" fel "mewn cynghrair/dosbarth arall" gan y rhan fwyaf o'r cyfieithwyr, a'r marciwr yn dweud, "Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg".

Yn achos dau o'r priod-ddulliau, fodd bynnag, nid oedd yr ymyrraeth gan y testun ffynhonnell cyn amlyced ag yn yr enghreifftiau a ddyfynnwyd uchod (gw. Tabl 5, Priod-ddulliau 2 a 6). Er enghraifft, wrth gyfieithu "to have a crack at", cynigiodd cyfieithydd BF42 y priod-ddull "rhoi tro ar", a oedd yn ymgais da i ddefnyddio priod-ddull rhywiog yn y testun targed, er bod awgrym y marciwr, sef "drio'i lwc/cael ei fachau ar", yn nes at yr ystyr. Yn yr un modd, wrth drosi "to run the risk of", dewisodd cyfieithydd Carvajal11 ddefnyddio "hwynebu y risg o", gan geisio ymryddhau ychydig o ddelwedd y gwreiddiol. Yn sicr, byddai defnyddio'r ferf "mentro" wedi cyfleu'r Saesneg yn well, fel y nododd y marciwr, ond ni

chafodd y cyfieithydd ei ddylanwadu yn gyfan gwbl gan y testun ffynhonnell yn yr achos hwn.

Yn ddiddorol iawn, nid oedd y marciwr yn hollol sicr am ddau o'r priod-ddulliau a gafwyd yn y testun 'Hafren', sef "to breathe fresh life into sth." a "to fall short of" (Priod-ddulliau 8 a 9 yn y tabl), gan ofyn "Ydy 'anadlu bywyd newydd' yn cyfieithu'r ymadrodd Saesneg yn llythrennol? Gellid defnyddio 'atgyfodi'" a "Pryd mae idiom Saesneg yn dod yn un Cymraeg? Byddwn i'n ddigon hapus â'r un sydd gennych chi yma", cyn ychwanegu "Mae Bruce yn rhoi 'siomi'r disgwyliadau'." Er i'r marciwr gydnabod bod modd Cymreigio'r ddau briod-ddull, nid oedd yn meddwl bod wir angen gwneud hynny i osgoi ymyrraeth a cheir yma enghraifft o'r ffordd y mae'r Gymraeg yn esblygu yn y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Trosiadau

Un enghraifft yn unig o ymyrraeth drosiadol a gafwyd yn y corpws (gw. Tabl 6). Diffinnir trosiad fel "... a word or expression that is used to talk about an entity or quality other than that referred to by its core, or most basic meaning" (Deignan 2005:34). Yn yr enghraifft, trosodd y cyfieithydd yr enw "hell-raiser" yn llythrennol fel "dyn oedd yn arfer codi uffern". Er i'r cyfieithydd lwyddo i newid rhannau ymadrodd wrth drosi, sy'n dangos bod ei feddwl yn ddigon hyblyg i beidio â glynu wrth y Saesneg bob tro, methodd â dod o hyd i derm rhywiog Cymraeg i gyfleu'r cysyniad trosiadol gan nad oes enw cyfatebol yn y Gymraeg. Awgrymodd y marciwr ymadrodd fel "chwarae'r diawl".

Tabl 6: Trosiadau

	Trosiad: to be a hellraiser
ST	There is a sweet inevitability about men who were once **hell-raisers** queuing up at parents' evenings and banning their children from smoking or going out on school nights. (BF, llau. 2-4)
TT	Mae anocheledd annisgwyl am ddynion oedd **yn arfer codi uffern** yn sefyll mewn ciw yn nosweithiau rhieni ac athrawon a gwahardd eu plant rhag ysmygu neu'n mynd allan ar nosweithiau ysgol.
Sylw	Ie, yn y Saesneg. Beth am 'chwarae'r diawl' fel idiom Cymraeg?
Yn	BF07

Berfau ymadroddol idiomatig

Mae berfau ymadroddol — sef berfau y bydd adferfolion penodol yn cyd-ddigwydd â hwy'n aml (Thomas 1996:560) — wedi cael eu disgrifio fel "one of the most characteristic traits of

the English language" (Jespersen 1961:323). Byddid yn disgwyl, felly, gweld nifer ohonynt mewn testunau Saesneg a disgwyl hefyd eu bod yn achosi problem wrth gyfieithu o bosibl. Fodd bynnag, fel y dengys Rottet (2005:66-67) a Thomas (1996:560-561), mae gan y Gymraeg hithau nifer sylweddol o ferfau ymadroddol, y rhai hynny y mae modd eu deall yn llythrennol (megis "cerdded i mewn") a'r rhai hynny sydd yn idiomatig eu hystyr (megis "gwneud i ffwrdd â" = "lladd"). Er i'r ddau fath ddatblygu'n annibynnol ar ddylanwad y Saesneg yn wreiddiol, mae'n amlwg ei bod yn amhosibl osgoi'r dylanwad hwnnw ar y Gymraeg modern, fel y noda Rottet (*ibid*), "It is impossible to miss the fact that most of the attested idiomatic verb-adverb combinations in modern Welsh have more or less exact English equivalents, making it clear that even if the original Welsh use of the pattern was not inspired by English, the pattern did not continue to remain free of English influence."

Ym marn y marcwyr, dylanwad y Saesneg oedd i'w weld yn achos cyfieithiadau o chwe berf ymadroddol idiomatig (gw. Tabl 7).

Tabl 7: Berfau ymadroddol idiomatig

	Berf ymadroddol 1: to come to
ST	They may not have had much use for a moral compass, but they want everything proper when it **comes to** their kids. (BF, llau. 4-5)
TT	Nid oedd ganddynt lawer o ddefnydd o egwyddorion moesol, ond pan **mae'n dod i**'w plant maent eisiau popeth yn iawn.
Sylw	Mae 'mae'n dod i'w plant' yn gyfieithiad llythrennol o idiom Saesneg 'when it comes to..'. Oes modd osgoi hyn? 'wrth drafod eu plant', 'yn achos eu plant', ?
Yn	BF13, BF27, BF31, BF32
	Berf ymadroddol 2: (eventually -> to end up with)
ST	There are two kinds of rock star: the ones with monster egos who sleep with everything that moves, and the ones with monster egos who sleep with everything that moves but **eventually** have families and turn into dads. (BF, llau. 1-2)
TT	Ceir dau fath o seren y byd roc : y rhai sydd gyda meddwl enfawr o'u hunain, a gysgai ag unrhyw beth sy'n symud, a'r rhai sydd gyda meddwl enfawr o'u hunain, a gysgai ag unrhyw beth sy'n symud ond y maent **yn diweddu i fyny gyda** theuluoedd, ac yn dod yn dadau.
Sylw	Er bod 'diweddu i fyny' yn ymdrech i gyfieithu 'eventually', y mae, gwaetha'r modd, yn dilyn idiom arall Saesneg, 'to end up with'. Gellid defnyddio 'yn y pen draw'
Yn	BF13
	Berf ymadroddol 3: to turn into
ST	There are two kinds of rock star: the ones with monster egos who sleep with everything that moves, and the ones with monster egos who sleep with everything that moves but eventually have families and **turn into** dads. (BF, llau. 1-2)
TT	Y mae dau fath o seren roc: y rhai hynny â'r fi fawr sy'n cysgu gyda phopeth sy'n symud, a'r rhai hynny â'r fi fawr sy'n cysgu gyda phopeth sy'n symud ond sydd ymhen hir a hwyr yn magu teuluoedd a **throi mewn i** dadau.
Sylw	Saesneg yw hwn! 'troi yn dadau' sy'n gywir.
Yn	BF28, BF33, BF42
	Berf ymadroddol 4: to get away with
ST	Because Ferry has broken the one taboo even rock stars can't **get away with**: he is going out with his son's twentysomething ex. (BF. llau. 6-7)
TT	Oherwydd mae Ferry wedi torri'r un tabŵ na all hyd yn oed sêr roc **ddod bant â**: mae'n mynd allan gyda chyn cariad ugain rhywbeth ei fab.
Sylw	Mae 'dod bant â' ar ddiwedd brawddeg yn gyfieithiad llythrennol. Byddai 'torri' tabw yn iawn.

Yn	BF36
	Berf ymadroddol 5: to secret into
ST	In 1605 – the year of the Gunpowder Plot – she was **secreted into** England by the Jesuits despite the fact that she spoke not a word of English. (Carvajal, llau. 8-9)
TT	Ym 1605 - blwyddyn Cynllwyn y Powdwr Gwyn - cafodd ei **chludo i mewn i** Loegr gan yr Iesuwyr er nad oedd yn siarad gair o Saesneg.
Sylw	Mae'r i mewn yn ddiangen. Gellid dweud 'cludwyd hi yn ddirgel '.
Yn	Carvajal06
	Berf ymadroddol 6: to look into
ST	It has been three decades since Whitehall first **looked into** harnessing energy from the the Severn estuary's tides. (Hafren, ll. 1)
TT	Mae wedi bod yn dri degawd ers **chwiliwyd** Llywodraeth Prydain **i mewn i** ddefnyddio ynni llanw'r Hafren am y tro cyntaf.
Sylw	Idiom Saesneg? 'edrych ar' neu 'ymchwilio i'.
Yn	Hafren09, Hafren22

Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn, cynigiwyd cyfieithiad air am air am y berfau ymadroddol, tra byddai'r Gymraeg yn tueddu i ddefnyddio'r ferf heb yr adferf, neu ferf hollol wahanol, neu hyd yn oed ymadrodd idiomatig arall. E.e. byddai "yn achos eu plant" wedi bod yn gyfieithiad addas o "when it comes to their kids" yn lle'r cyfieithiad llythrennol "pan mae'n dod i'w plant" a gafwyd yn BF13, BF27, BF31 a BF32.

Ond efallai mai'r cyfieithiad mwyaf diddorol yn y categori hwn oedd yr un a gynigiwyd yn BF13, sef ymgais gan y cyfieithydd i drosi "eventually":

> ST: *There are two kinds of rock star: the ones with monster egos who sleep with everything that moves, and the ones with monster egos who sleep with everything that moves but* ***eventually*** *have families and turn into dads*. (BF, llau. 1-2)
> TT: Ceir dau fath o seren y byd roc : y rhai sydd gyda meddwl enfawr o'u hunain, a gysgai ag unrhyw beth sy'n symud, a'r rhai sydd gyda meddwl enfawr o'u hunain, a gysgai ag unrhyw beth sy'n symud ond y maent **yn diweddu i fyny gyda** theuluoedd, ac yn dod yn dadau.

Wrth ddewis "diweddu i fyny gyda", mae'n eglur i'r cyfieithydd chwilio am ffordd arall o gyfleu'r "eventually" Saesneg. Yr hyn sy'n dod i'w feddwl yw'r ferf ymadroddol Saesneg "to end up with". Mae'r broses feddwl honno yn debygol o fod yn anymwybodol, a chyfieithu'r ferf ymadroddol honno (yn aflwyddiannus, gwaetha'r modd) i'r Gymraeg yn enghraifft sy'n dangos yn glir pa mor bwysig yw gwneud y broses yn un gwbl ymwybodol. Yr hyn a geir yma yw cip hynod o ddifyr ar y ffordd y mae cyfieithwyr yn prosesu gwybodaeth yn y testun ffynhonnell a'r testun targed, ac ar y ffaith bod cyfieithu yn broses amlhaenog.[29]

[29] Mae astudio'r broses gyfieithu ac yn enwedig yr hyn sy'n digwydd ym meddwl y cyfieithydd wrth drosi (gan ddefnyddio'n bennaf y fethodoleg 'meddwl yn uchel'), wedi dod yn faes ymchwil cynhyrchiol iawn dros y chwarter canrif diwethaf. Am ragor o wybodaeth, gw. Tirkkonen-Condit & Jääskeläinen (2000), *passim*.

Ymadroddion idiomatig

Yn ogystal â'r priod-ddulliau a'r berfau ymadroddol, mae elfennau eraill yn perthyn i iaith sydd hefyd yn ymadroddion idiomatig. Nid unedau penodol o gyfuniad o eiriau mohonynt o reidrwydd, ond yn aml iawn geirynnau bach sy'n arwydd o sut mae'r iaith yn gweithio. Wrth ddefnyddio'r elfennau bach hynny'n gywir, mae cyfieithydd yn dangos ei fod yn meistroli'r iaith darged ac yn gallu cynhyrchu testun mewn iaith goeth a graenus. Fel y noda Gruffudd (2005:9), "Weithiau mae cyfieithiadau Cymraeg yn dda – mae'r Gymraeg mor naturiol fel nad ydych chi'n sylweddoli eich bod yn darllen cyfieithiad. Bryd arall mae'r cyfieithiad mor wael fel na allwch ei ddeall." Y rheswm dros hyn, yn aml, yw cyfieithu llythrennol a chlogyrnaidd, lle na ddefnyddir ymadroddion idiomatig yn y testun targed.

Cafwyd sawl enghraifft o hyn yn y gwaith cyfieithu (gw. Tabl 8: Ymadroddion idiomatig). Dywedodd marciwr BF36 wrth drafod "cariad **ugain rhywbeth** ei fab" fel cyfieithiad o "his son's **twentysomething** ex.": "Mae 'ugain rhywbeth' yn cadw'n rhy agos at y Saesneg. Dyw'r ystyr ddim yn glir yn y Gymraeg. Mae 'yn ei hugeiniau' yn well yn Gymraeg." Yn yr un cyfieithiad, unwaith eto, nododd y marciwr wrth drafod "yn gyfaddefol" fel trosiad am "admittedly": "Mae 'yn gyfaddefol' yn gyfieithiad llythrennol, sy'n anodd ei ddeall yn Gymraeg. Byddai 'A dweud y gwir' neu 'Rhaid cyfaddef' yn fwy naturiol." Yn yr un modd, cyfieithwyd "My guess indeed is..." fel "Fy amcandyb i yw" gan gyfieithydd Canwr03, a oedd yn methu dod o hyd i ymadrodd naturiol mor syml â "Yn fy marn i...", a sylwodd y marciwr, "Braidd yn annaturiol a llythrennol". Tro arall, baglodd y cyfieithwyr dros ymadroddion adferfol megis "in another three decades" (Hafren31, Hafren33) a "at every turn" (Hafren33), gan gynnig cyfieithiadau gair am air o'r testun ffynhonnell yn lle dewis ymadroddion idiomatig yr iaith darged. Yn wir, roedd dylanwad yr iaith ffynhonnell i'w weld yn eglur yn yr holl gyfieithiadau hyn.

Tabl 8: Ymadroddion idiomatig

	Ymadrodd 1: There is every possibility
ST	**There is every possibility** there will be high jinks and too much booze. (BF, llau. 15-16)
TT	**Mae pob posibilrwydd** y bydd rhywun yn cadw reiat a gormod o ddiota.
Sylw	Dilyn y Saesneg yn slafaidd. Beth am 'mae'n fwy na thebyg'?
Yn	BF31, BF32, BF33
	Ymadrodd 2: Twenty something
ST	Because Ferry has broken the one taboo even rock stars can't get away with: he is going out with his son's **twentysomething** ex. (BF, llau. 6-7)
TT	Oherwydd mae Ferry wedi torri'r un tabŵ na all hyd yn oed sêr roc ddod bant â: mae'n mynd allan gyda chyn cariad **ugain rhywbeth** ei fab.
Sylw	Mae 'ugain rhywbeth' yn cadw'n rhy agos at y Saesneg. Dyw'r ystyr ddim yn glir yn y Gymraeg. Mae 'yn ei hugeiniau' yn well yn Gymraeg.
Yn	BF36

	Ymadrodd 3: Admittedly (Adf. -> ymadrodd)
ST	And **admittedly**, the charter between rock-star parents and children is subtly different to the one between regular parents and children. (BF, llau. 14-15)
TT	Ac **yn gyfaddefol**, mae'r siarter rhwng rhieni seren roc a'u plant yn anniffiniol wahanol, i'r un rhwng rhieni rheolaidd a phlant.
Sylw	Mae 'yn gyfaddefol' yn gyfieithiad llythrennol, sy'n anodd ei ddeall yn Gymraeg. Byddai 'A dweud y gwir' neu 'Rhaid cyfaddef' yn fwy naturiol.
Yn	BF36
	Ymadrodd 4: In the normal course of events
ST	**In the normal course of events**, you'd be nervous. (BF, llau. 8-9)
TT	**Gyda threigl amser arferol** byddech yn nerfus.
Sylw	Ystyr. Glynu at y Saesneg. Yn syml 'yn naturiol/yn nhrefn normal pethau/yn normal'.
Yn	BF42
	Ymadrodd 5: My guess is
ST	**My guess indeed is** that he sounds closer to the legendary castrati than anything that's been heard since Napoleon abolished "the cut" two centuries ago. (Canwr, llau. 4-5)
TT	**Fy amcandyb i yw** ei fod yn swnio'n nes at y castrati diarhebol nag unrhywbeth a glywyd ers i Napoleon gael gwared ar "y disbaddu" ddwy ganrif yn ôl.
Sylw	Braidd yn annaturiol a llythrennol. Beth am yn fy marn i?
Yn	Canwr03
	Ymadrodd 6: At every turn
ST	**At every turn** it has been rejected for financial and environmental reasons. (Hafren, ll. 2)
TT	**Ar bob tro**, mae wedi cael ei wrthod, am resymau ariannol ac amgylcheddol.
Sylw	Mae hyn yn gyfieithiad llythrennol o 'at every turn'. Beth am 'Bob tro'?
Yn	Hafren33
	Ymadrodd 7: In another three decades
ST	If history is a guide, however, the most likely outcome is that **in another three decades** the Severn's tides will still be flowing free and unencumbered. (Hafren, llau. 19-20)
TT	Ond os yw hanes yn rhoi arweiniad i ni, y canlyniad mwyaf tebygol yw y bydd llanw Afon Hafren yn dal i lifo'n rhydd, heb unrhyw rwystrau **mewn tri degawd arall**.
Sylw	Byddai 'am dri degawd' yn iawn neu 'ymhen tri degawd'. Mae 'mewn tri degawd' yn dilyn y Saesneg.
Yn	Hafren31, Hafren33

Amlygodd y fath ymyrraeth ar lefel idiom nad oedd y cyfieithwyr wedi meistroli'r iaith darged yn ddigonol ac nad oeddynt yn gallu cynhyrchu testun mewn iaith goeth a graenus.

4.3.2 Geirfa

"If language were simply a nomenclature for a set of universal concepts, it would be easy to translate from one language to another. One would simply replace the name for a concept [in one language] with the name [for the concept in another language]." Yn y geiriau hyn awgryma Culler (1996:21) nad felly y mae iaith yn gweithio. Ac nid hawdd, felly, yw cyfieithu rhwng un iaith a'r llall. Fel y gwelwyd uchod, rhaid i'r cyfieithydd osgoi ymyrraeth ar lefel gystrawennol ac ar lefel yr idiom, ond rhaid iddo hefyd osgoi ymyrraeth ar lefel yr eirfa. Er nad oedd y fath hon o ymyrraeth mor amlwg yng nghyfieithiadau'r corpws

cyfochrog (8%), tynnwyd sylw at sawl enghraifft ddifyr gan y marcwyr (gw. Tabl 9 isod). Roedd y rhain yn enghreifftiau lle y gwelwyd ymyrraeth o ran ansicrwydd ynghylch y defnydd o'r lluosog a'r unigol a hefyd o ran cywerthedd geirfaol.

Tabl 9: Ymyrraeth ar lefel eirfaol

	Geirfa 1: tartledi gellygen
ST	After the inevitable condemnation, Luisa sent him **pear tartlets**. (Carvajal, llau. 19-20)
TT	Wedi'r condemnio anochel, fe anfonodd Luisa **dartledi gellygen** iddo.
Sylw	Mae angen y lluosog yma – tartledi gellyg, e.e. 'Siop lyfrau' sy'n gywir yn Gymraeg ac nid 'siop lyfr'.
Yn	Carvajal04
	Geirfa 2: cwmpawd
ST	They may not have had much use for a moral **compass**, but they want everything proper when it comes to their kids. (BF, llau. 4-5)
TT	Efallai nad oedd ganddynt lawer o ddefnydd ar gyfer **cwmpawd** moesol, ond maen nhw'n dymuno fod pob peth yn iawn ble mae eu plant yn y cwestiwn.
Sylw	Cyfieithu'n llythrennol mae 'cwmpawd'. Gall fod yn iawn, wrth gwrs, ond efallai nad ydyn ni'n defnyddio 'cwmpawd' fel y gwneir yn Saesneg. Beth am 'cod'?
Yn	BF18, BF23, BF24, BF27, BF28, BF30, BF32, BF35, BF36, BF37, BF38
	Geirfa 3: gweddillion marwol
ST	It was heading for a house in Spitalfields, where a wizened Spanish woman was awaiting to receive the **mortal remains** of freshly-martyred Catholic priests. (Carvajal, llau. 2-4)
TT	Anelodd am dŷ yn Spitalfields, ble roedd yna ddynes Sbaenaidd grebachlyd yn aros i dderbyn **gweddillion marwol**, merthyr oedd yn Offeiriad Catholig.
Sylw	'gweddillion' a ddywedwn yn Gymraeg - 'rhoddwyd ei gweddillion i orwedd'. Nid oes angen cyfieithu 'mortal' gan fod 'gweddillion' yn cyfleu'r cyfan.
Yn	Carvajal02, Carvajal06, Carvajal08, Carvajal10, Carvajal11, Carvajal12

Unigol/lluosog

Er mwyn dewis y geiriau iawn wrth drosi, weithiau mae angen newid rhwng ffurf unigol a ffurf luosog yr enw. Yn y Gymraeg defnyddir ffurf luosog yr enw yn aml pan ddefnyddia'r Saesneg y ffurf unigol. Noda Gruffudd (2005:27) fod hyn i'w weld amlaf pan gaiff yr enw unigol ei ddefnyddio'n ansoddeiriol, e.e. S. 'bookshop' > C. 'siop lyfrau' a thynnodd marciwr Carvajal04 sylw at enghraifft o hyn wrth drafod y cyfieithiad o "pear tartlets". "Tartledi gellygen" a gynigiwyd gan y cyfieithydd, ond fel y nododd y marciwr, "tartledi gellyg" gyda'r lluosog ddylasai fe fod.

Yn ddiddorol, nid rheol yw hon. Gall y gwrthwyneb fod yn wir, lle y defnyddir y ffurf unigol yn y Gymraeg pan fyddai'r Saesneg yn ffafrio defnyddio'r ffurf luosog, e.e. S. 'equal opportunities' > C. 'cyfle cyfartal' (Gruffudd 2005:27). A chyngor CCC yw: "Nid oes rhaid

dewis enw lluosog bob tro yn y Gymraeg dim ond oherwydd bod y Saesneg wedi dewis enw lluosog"[30]. Cafwyd enghraifft o achos fel hyn yn nhestun Hafren:

> ST: *It has been three decades since Whitehall first looked into harnessing energy from the the Severn estuary's* ***tides***. (Hafren, ll. 1)
> TT: Bu tri degawd ers i Whitehall ystyried am y tro cyntaf harneisio ynni o **lanwau** aber afon Hafren. (Hafren02)

Fel y nododd y marciwr, "fyddai hi'n well defnyddio 'llanw' am 'tides'. Mae 'llanwau' yn chwithig." Ond defnyddiodd y ffurf luosog gan 12 allan o 39 o'r cyfieithwyr yn y gweithdy, o ganlyniad i ymyrraeth gan y testun ffynhonnell. [31]

Nid oes rheol gaeth yma, felly. Mae'n fater o arfer a chonfensiwn pob iaith, ac mae rhaid i'r cyfieithydd fod yn effro i hyn a defnyddio'i glust.

Cywerthedd geirfaol

Problem arall ar lefel yr eirfa sy'n amlwg wrth drosi rhwng un iaith a'r llall yw'r dryswch sy'n codi o gael geirfa debyg yn y ddwy iaith. Fel y mae Gruffudd yn nodi, "Mae dewis geiriau'n gallu bod yn broblem wirioneddol wrth gyfieithu. Er bod geiriau gwahanol ieithoedd yn gallu cyfateb i'w gilydd ar lefel arwynebol, mae cwmpas cysylltiadau geiriau, ynghyd â chwmpas eu hystyron, yn gallu bod yn dra gwahanol ... Mae'r ystyr yn gallu newid yn ôl rhan ymadrodd, ac yn ôl yr idiom, a'r cyd-destun. Weithiau, i ddod o hyd i'r gair iawn, mae'n rhaid defnyddio geiriadur yn ofalus iawn." (Gruffudd, 2005:27). Ond o dderbyn canlyniadau ymchwil Hopkinson ar ymyrraeth mewn cyfieithiadau o'r Tsieceg i'r Saesneg, gall adnoddau geiriadurol *annigonol* hefyd fod yn gyfrifol am nifer o'r problemau ar lefel yr eirfa wrth drosi (2007:14).

Yn achos y defnydd o'r enw "cwmpawd" i gyfieithu'r enw "compass" yng ngweithdy BF (gw. Tabl 9 uchod), sylwodd y marciwr: "...efallai nad ydyn ni'n defnyddio 'cwmpawd' fel y gwneir yn Saesneg ... Er mai 'cwmpawd' yw 'compass', rwy'n amau a ydyn ni'n sôn am 'gwmpawd' moesol yn Gymraeg; cod moesol efallai? safonau moesol?" Yn sicr, o ystyried y cyd-destun, byddai "cod" moesol neu'n syml "egwyddorion" wedi bod yn addas, ond ni restrir y naill air na'r llall o dan 'compass ~' yn GyrA (td. 276). Hyd yn oed petai'r

[30] Gweler y llyfryn 'Cyfieithu Llwyddiannus ac Aflwyddiannus' (td. 19) sydd ar gael ar wefan y Gymdeithas, http://www.cyfieithwyrcymru.org.uk/.
[31] Hafren02, 04, 05, 08, 09, 12, 27, 29, 30, 33, 34, 38.

gair "cod" wedi ei gynnwys, honna Hopkinson (2007:16) fod diffyg cyd-destun yn aml mewn geiriaduron sy'n ei gwneud hi'n anodd dewis y gair iawn; at hynny tuedda cyfieithwyr i ddewis y gair cyntaf mewn rhestr o ddewisiadau, efallai oherwydd prysurdeb, sy'n golygu bod ymyrraeth bob amser yn bosibl. Nid yn unig cyd-destun a chynodiadau gair penodol sydd eu hangen mewn geiriadur da, ond hefyd diffiniadau mewn gwahanol feysydd o ddefnydd a gwahanol gyweiriau. Mae rhai o'r rhain ar gael yn *Geiriadur yr Academi* ac mae *Y Porth Termau* yn cynnwys diffiniadau a chyd-destun ystod eang o dermau mewn meysydd penodol. Mae GPC, wrth gwrs, yn cynnig llu o enghreifftiau o ddefnydd gair, ond efallai fod gormod o ddewis, bod yr enghreifftiau weithiau yn hen ac yn methu gweddu ag iaith gyfoes, a hynny yn achosi problem i gyfieithwyr wrth ddewis y gair iawn.

Mae anhawster arall, efallai yn fwy difrifol, yn codi o'r anhawster o wybod pa air i'w ddefnyddio. Yr anhawster hwnnw yw'r duedd i feddwl bod angen un gair Cymraeg am un gair Saesneg, a dau air Cymraeg am ddau air Saesneg. Effaith y duedd hon yw ein bod ni'n symud o ymyrraeth ar lefel y gair i ymyrraeth ar lefel cystrawen. Yn achos y cyfieithiad o "mortal remains" yn ein corpws cyfochrog fel "gweddillion marwol", nid oedd angen trosi'r ansoddair "mortal" gan fod "gweddillion" yn cyfleu'r cyfan. I Hopkinson (2007:16) mae'r broblem honno, sef "the unconscious tendency of translators to seek exact syntactic equivalence between lexical items ... in the source text and the target text", eto yn mynd yn ôl i'r geiriadur. Dywed, "Although this tendency to seek exact syntactic equivalence is undoubtedly rooted in psycholinguistic processes, commonly used dictionaries frequently exacerbate the problem by their over-reliance on single-word equivalents as the first items(s) listed in entry."

Mae dau beth yn codi i'r amlwg drwy'r drafodaeth hon. Yn gyntaf, daw yn glir nad oes efallai digon o eiriaduron Cymraeg ar gael sy'n cynnig y wybodaeth ychwanegol y mae cyfieithydd da yn chwilio amdani. Ac yn ail, ymddengys nad yw llawer o gyfieithwyr yn hollol siŵr sut i ddefnyddio hyd yn oed geiriaduron sy'n gynhwysfawr.

4.3.3 Cystrawen

Mae bob tro reolau ynghylch sut y gellir cyfuno geiriau i gyfleu ystyr (Baker 1992:46). Y rheolau hyn, yn y bôn, yw cystrawen yr iaith. Yn wir, mae mwy nag un rheswm am ysgrifennu cystrawen ddiffygiol, ond wrth gyfieithu gall diffyg cywirdeb cystrawennol fod yn

arwydd o ymyrraeth gan y testun ffynhonnell. Wrth ddadansoddi sylwadau'r marcwyr yn yr e-weithdai, daethpwyd o hyd i saith categori o ymyrraeth ar lefel y gystrawen, fel y dengys Ffigwr 25 isod.

Ffigwr 25: Ymyrraeth gystrawennol fel y'i ceid yng ngwaith cyfieithu'r gweithdai

Tystia'r siart i'r ffaith mai peidio â newid y dosbarth o eiriau oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o enghreifftiau o ymyrraeth a gafwyd yn y gweithdai, tra bod diffyg pwyslais yn y testun targed yn faen tramgwydd i gyfieithwyr eraill. At hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithwyr yn dilyn trefn geiriau'r testun ffynhonnell, yn cadw'r cyflwr cadarnhaol yn hytrach na throi at y cyflwr negyddol ac yn defnyddio modd goddefol y ferf yn hytrach na throi at y modd gweithredol. Yn ogystal, cyfieithwyd ymadroddion nad oedd eu hangen yn y testun Cymraeg ac achosodd y genidol drafferth i sawl cyfieithydd.

Cynigir trafodaeth ar bob un categori isod a rhoddir crynodeb o'r holl enghreifftiau yn Nhabl 10: Ymyrraeth ar lefel gystrawennol.

Trefn geiriau

A chofio bod y Gymraeg yn iaith sy'n dilyn y drefn 'Berf-Goddrych-Gwrthrych' (VSO) tra bo'r Saesneg yn dilyn y patrwm 'Goddrych-Berf-Gwrthrych' (SVO),[32] byddid efallai yn disgwyl gweld ymyrraeth o ran trefn y geiriau mewn cyfieithiadau o'r un iaith i'r llall. Ond nid felly a barnu yn ôl tystiolaeth y cyfieithiadau yn y corpws cyfochrog, a hynny efallai oherwydd bod y drefn yn sylfaenol *mor wahanol* yn y ddwy iaith. Cafwyd un enghraifft yn unig a ddangosodd batrwm geiriau'r testun ffynhonnell (gw. Tabl 10, Cystrawen 6) ac wrth ystyried safon gweddill y cyfieithiad, daw'n eglur fod gan y cyfieithydd afael ansad iawn ar y Gymraeg yn gyffredinol, nid trefn geiriau yn unig, fel y dengys y ddwy enghraifft isod:

> ST: *Last month the government breathed fresh life into the idea of building a "barrage" of up to 10 miles* ***stretching*** *across the waterway* ***that it says could provide*** *up to 5% of the country's energy needs*. (Hafren, llau. 4-5)
> TT: Y mis diwethaf adfywiodd y llywodraeth y syniad am adeiladu morglawdd **ymestyn** dros y ddyfrffordd am hyd at ddeg milltir **iddi ddweud yn gallu darparu** hyd at 5% o holl ynni gwledydd Prydain. (Hafren22)

> ST: *It could create as many as 18,000 construction jobs but some government and industry bean-counters* ***argue that*** *the £22 billion* ***it could cost would be better spent*** *elsewhere.* (Hafren, llau. 11-12)
> TT: Gallai creu cymaint â 18,000 swydd adeiladwaith ond **dadlau** rhai llygaid y geiniog yn y llywodraeth a diwydiant **taw'r** £22 biliwn **gallai'n costio y byddai'n cael ei wario** yn well mewn man arall. (Hafren22)

Felly, er i'r enghraifft gael ei chynnwys yn yr arolwg hwn, nid oes modd cyffredinoli mewn gwirionedd ar sail yr un cyfieithiad gwael hwn fod trefn geiriau yn achos o ymyrraeth wrth drosi rhwng Saesneg a Chymraeg.

Y Genidol[33]

Mae cystrawen y genidol yn wahanol yn Saesneg a'r Gymraeg. Wrth drafod y cyfieithiad gair am air o'r ymadrodd "the destruction of vital habitats", sef "y dinistriad o gynefinoedd pwysig" (gw. Tabl 10, Cystrawen 9), sylwodd marciwr Hafren05, "Mae'n bwysig dysgu cystrawen y ffurf enidol yn y Gymraeg. Nid yw yr un peth â'r Saesneg." Yn y bôn, defnydd y fannod sydd yn wahanol yng nghystrawen y ddwy iaith; pan fydd y fannod (benodol) yn

[32] Am ragor o wybodaeth, gw. Finegan (2008:225) a Borsley *et al* (2007:338-366), lle y nodir mai dim ond 10-12% o ieithoedd y byd sy'n ieithoedd VSO/VOS.
[33] Sylwer mai 'ymadrodd enwol dibynnol' yw'r term a ddefnyddir gan Thomas (1996:4.216b). Fodd bynnag, er iddo ddadlau'n argyhoeddiadol o blaid mabwysiadu'r term hwnnw, penderfynwyd defnyddio'r term 'genidol' yn y traethawd hwn, gan mai dyna'r term arferol a arddelir gan gyfieithwyr ac arholwyr CCC.

digwydd ar gychwyn ymadrodd genidol yn Saesneg, e.e. "the University of Wales", ni cheir y fannod yn Gymraeg o gwbl, e.e. "Prifysgol Cymru", a phan fydd y fannod ar gychwyn ac ar ganol yr ymadrodd, e.e. "the head of the college", dim ond yng nghanol yr ymadrodd y bydd angen y fannod yn y Gymraeg, e.e. "pennaeth y coleg" (Gruffudd 2005:25). Gellir gweld hyn mewn enghraifft arall o'r corpws:

> ST: ***The children of rock stars*** *are inured to hair dye and funny hats and eyeliner.* (BF, ll. 15)
> TT: Mae'**r plant sêr roc** yn ymgaledu i liw gwallt a hetiau rhyfedd a cholur. (BF33)

Cyngor y marciwr i'r cyfieithydd dan sylw oedd: "Gwyliwch gystrawen y genidol! Gwell yma fyddai 'plant sêr roc' heb y fannod".

Mae tair prif swyddogaeth i'r genidol yn Gymraeg, sef meddiannol, disgrifiadol a chyfosodol (gw. Thomas 1996:324-326). Yn achos y genidol disgrifiadol, tueddir i ddefnyddio berfenw yn hytrach nag enw os bydd yr elfen ddibynnol yn goddef y weithred yn hytrach na'i chyflawni. Er enghraifft: "agor y neuadd : y mae'r neuadd wedi ei hagor", "penodi'r cyfarwyddwr : y mae'r cyfarwyddwr yn cael ei benodi" (Thomas *ibid*). Gan hynny, yn achos yr enghraifft a ddyfynnwyd uchod, sef "y dinistriad o gynefinoedd pwysig", "dinistrio" yn hytrach na "dinistriad" fyddai'n fwy arferol yn y gystrawen Gymraeg. Trafodir y nodwedd arbennig hon ar ymadroddion genidol yn fanylach yn adran 4.4.

Gollwng elfen

Mae'n wir dweud bod y Saesneg yn defnyddio nifer o eiriau ac ymadroddion llanw nad oes angen eu cynnwys yn Gymraeg, er y byddai *modd* gwneud hynny, wrth gwrs. Un enghraifft amlwg fyddai'r gair "just". Byddai'r ymadrodd Saesneg "Just do it!" yn "Gwnewch e!" yn Gymraeg (Gruffudd 2005:32). O ganlyniad, mae angen i gyfieithwyr fod yn wyliadwrus rhag i'r fath eiriau ac ymadroddion ymyrryd yn y testun targed. Cafwyd un enghraifft yn y corpws cyfochrog o ymadrodd o'r fath hon, sef "the fact that", a gafodd ei gyfieithu'n ddiangen i'r Gymraeg (gw. Tabl 10, Cystrawen 14). Fel y nododd y marciwr: "Mae'r Saesneg yn hoff o 'the fact that'. Gellir hepgor hyn." Yn yr un modd, cynghora Gruffudd (*ibid*): "Osgowch 'the fact that' wrth gyfieithu. Fel arfer mae modd mynd yn syth i'r cymal enwol". Rhy'r frawddeg isod fel enghraifft:

> ST: *They had to consider the fact that the team had lost.*

TT: Roedd rhaid iddyn nhw gofio bod y tîm wedi colli.

Weithiau y gollyngir un elfen o'r frawddeg Saesneg ac ychwanegir gair neu ymadrodd gwahanol yn rhywle arall yn y Gymraeg, sy'n wir yn achos y geiriau 'please' a 'diolch'. Fel y noda Gruffudd (*ibid*): "Mae 'please' yn gallu ychwanegu at gwrteisi cais ond gall 'os gwelwch yn dda' fod yn drwsgl. Gall ychwanegu 'diolch' ar ddiwedd cais roi'r un cwrteisi."

Goddefol/gweithredol

Defnyddir y modd goddefol yn aml yn y Saesneg ysgrifenedig ond gall ei ddefnydd achosi problemau i'r cyfieithydd os nad oes strwythurau tebyg ar gael yn yr iaith darged neu os nad yw'n cael ei ddefnyddio i'r un graddau yn yr iaith darged. Fel yr esbonia Baker (1992:102):

> The tendency to translate English passive structures literally into a variety of target languages which either have no passive voice as such or which would normally use it with less frequency is often criticized by linguists and by those involved in training translators.

Ar y cyfan, mae'r Gymraeg yn un o'r ieithoedd hynny sy'n tueddu i ddefnyddio'r modd goddefol yn llawer llai nag y'i defnyddir yn y Saesneg (Gruffudd 2005:50-51). Amlygwyd hyn yng nghyfieithiad 'Hafren01', lle y troswyd "...the £22 billion would be better spent elsewhere" fel "byddai'r £22 biliwn yn well yn cael ei wario'n rhywle arall" a sylwodd y marciwr: "Byddai 'byddai'n well gwario £22 biliwn..' yn haws yn y Gymraeg na chadw at y goddefol yn y Saesneg".

Ymddengys, felly, fod gan y Gymraeg ei defnydd arbennig ei hun o'r modd goddefol, ac mae'n rhaid i gyfieithwyr fod yn wyliadwrus o ymyrraeth wrth drosi.

Tabl 10: Ymyrraeth ar lefel gystrawennol

	Cystrawen 1: Angen newid dosbarth o eiriau (ans. + enw haniaethol -> enw haniaethol + ans. + arddodiad + ans.
ST	There is **a sweet inevitability** about men who were once hell-raisers queuing up at parents' evenings and banning their children from smoking or going out on school nights. (BF, llau. 2-4)
TT	Mae yna **anocheledd melys** ynglŷn â dynion oedd unwaith yn chwarae'r diawl yn aros eu tro yn noson rieni, ac yn gwahardd eu plant rhag ysmygu neu fynd allan ar nosweithiau ysgol.
Sylw	Mae 'anocheledd melys' yn gyfieithiad llythrennol. Mae'n aml yn dda newid y rhannau ymadrodd, felly gallai 'teimlad melys o anochel' fod yn iawn yma.
Yn	BF18, BF36
	Cystrawen 2: Angen newid dosbarth o eiriau (adferf -> berfenw)
ST	But **there is still** a line that must never be crossed. (BF, llau. 16-17)
TT	Ond **mae yno dal** linell na ddylid mo'i chroesi.

Sylw	Cofiwch mai berfenw'r ferf 'dal' = 'to hold' yw hwn ac nid gair yn cyfieithu'r adferf Saesneg 'still'. Felly mae angen yr 'yn' berfenwol o'i flaen. 'mae yna linell yn dal . . .'
Yn	BF38
	Cystrawen 3: Angen newid dosbarth o eiriau (ansoddair -> enw)
ST	Under the name of Wilson he had preached to the **Spanish embassy**'s English-speaking staff and was nicknamed the 'parish priest of London'.
TT	Gan ddefnyddio'r enw Wilson, pregethodd i staff y **llysgenhadaeth Sbaeneg** oedd yn Saesneg eu hiaith, a chafodd y llysenw yr 'offeiriad plwyf o Lundain'.
Sylw	llysgenhadaeth Sbaeneg > llysgenhadaeth Sbaen. Unwaith eto, peidiwch â chyfieithu'n llythrennol ond meddyliwch beth y byddech yn ei ddweud yn naturiol yn Gymraeg.
Yn	Carvajal08
	Cystrawen 4: Angen newid dosbarth o eiriau (enw haniaethol -> berfenw)
ST	The plan for a barrage from Cardiff to Weston-super-Mare was one of five short-listed **for consultation**. (Hafren, ll. 6)
TT	Roedd y cynllun ar gyfer morglawdd o Gaerdydd i Weston-super-Mare yn un o bum cynllun ar restr fer **ar gyfer ymgynghoriad**.
Sylw	Rhaid dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.
Yn	Hafren04, Hafren13, Hafren15, Hafren17, Hafren21, Hafren22, Hafren27, Hafren28, Hafren29
	Cystrawen 5: Angen newid dosbarth o eiriau (enw haniaethol -> berfenw)
ST	Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the **destruction** of vital habitats. (Hafren, llau. 9-10)
TT	Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd pwysig.
Sylw	Teg dweud hefyd fod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'dinistrio' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'dinistrio cynefinoedd pwysig'.
Yn	Hafren05
	Cystrawen 6: Trefn geiriau
ST	**Other ideas include** tidal reefs and lagoons that would produce a fraction of the energy but cost much less and do less environmental harm. (Hafren, llau. 6-8)
TT	**Syniadau eraill, gan gynnwys** creigresi **llanw** a **lagwnau y byddai'n cynhyrchu ffracsiwn yr ynni ond yn costio'n gryn dipyn ac yn achosi llai problemau** amgylcheddol.
Sylw	Ble mae berf y frawddeg hon? Cofiwch fod trefn eitemau mewn brawddeg Gymraeg fel rheol yn wahanol i'r Saesneg, hynny yw, Cymraeg: Berf + goddrych+ gwrthrych. Saesneg: Goddrych+berf+gwrthrych.
Yn	Hafren22
	Cystrawen 7: Newid (cadarnhaol -> negyddol)
ST	The environmentally friendly lagoon and reef ideas, which would produce as little as a fifth of the energy of the big barrage, **seem to fall short of** the government's stated goal of producing a "strategically significant" amount of energy from the project. (Hafren, llau. 12-14)
TT	**Mae'r** syniadau am forlynnoedd a riffiau cyfeillgar i'r amgylchedd, a fyddai'n cynhyrchu cyn lleied ag un rhan o bump o ynni'r morglawdd mawr, **yn ymddangos yn syrthio'n fyr o** nod benodol y llywodraeth o gynhyrchu swm "strategol sylweddol" o ynni o'r prosiect.
Sylw	Nid wy'n hoffi'r 'syrthio'n fyr o'r nod' credaf y byddai'r frawddeg yn fwy Cymraeg pe defnyddid y negyddol i gychwyn. Rhywbeth tebyg i 'Ymddengys na fyddai'r syniadau mwy cydnaws â'r amgylchedd . . . yn dod yn agos at gyrraedd nod y llywodraeth'.
Yn	Hafren26, Hafren28
	Cystrawen 8: Newid modd y ferf (goddefol -> gweithredol)
ST	It could create as many as 18,000 construction jobs but some government and industry bean-counters argue that **the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere**. (Hafren, llau. 11-12)
TT	Gall y cynllun hwn greu gymaint ag 18,000 o swyddi adeiladu, ond mae rhai gwrthwynebwyr y llywodraeth a diwydiant yn dadlau **y byddai'r £22 biliwn yn well yn cael ei wario'n rhywle arall**.
Sylw	Byddai 'byddai'n well gwario £22 biliwn..' yn haws yn y Gymraeg na chadw at y goddefol yn y Saesneg.
Yn	Hafren01
	Cystrawen 9: Genidol
ST	Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against **the destruction of vital habitats**. (Hafren, llau. 9-10)
TT	Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn **y dinistriad o gynefinoedd pwysig**.

Sylw	Mae'n bwysig dysgu cystrawen y ffurf enidol yn y Gymraeg. Nid yw yr un peth â'r Saesneg. Cymharwch: 'The end of the road > diwedd y daith'. (Nid 'y diwedd o'r daith!')
Yn	Hafren05
	Cystrawen 10: Pwyslais
ST	**Born into** a great Spanish noble family, Luisa suffered a horribly abusive childhood and from her early years hankered to become a martyr for her faith. (Carvajal, llau. 5-6)
TT	**Yn un o** deuluoedd bonheddig Sbaen, dioddefodd Luisa blentyndod o gamdriniaeth gas, ac o'i blynyddoedd cynnar roedd ag awydd cryf i fod yn ferthyr i'w ffydd.
Sylw	Cystrawen – y dull arferol o gyfieithu'r gystrawen hon i'r Gymraeg fyddai dweud – 'A hithau wedi ei geni i.....'
Yn	Carvajal04
	Cystrawen 11: Pwyslais
ST	To everyone's surprise **including her own**, she steadily assumed a prominent role within London's underground Catholic community, setting up an unofficial nunnery, offering Roman priests a secure place to live, consoling prisoners awaiting execution, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad. (Carvajal, llau. 9-12)
TT	Er syndod i bawb, **gan gynnwys hi ei hun**, fe ddaeth yn raddol i chwarae rôl flaenllaw yng nghymuned Babyddol danddaearol Llundain, gan sefydlu lleiandy answyddogol, cynnig lle byw diogel i offeiriaid Pabyddol, cysuro carcharorion a arhosai i gael eu dienyddio, mewnforio llyfrau gwaharddedig, a helpu Pabyddion oedd yn cael eu herlid i ddianc dramor.
Sylw	Rydych yn glynu'n rhy gaeth i'r gystrawen Saesneg. Byddai dweud 'ac iddi hithau' yn llawer mwy naturiol.
Yn	Carvajal04, Carvajal06, Carvajal08, Carvajal11
	Cystrawen 12: Newid cymal enwol yn gymal berfol
ST	**Despite her chronic ill health**, Luisa went to see him in Newgate. (Carvajal, llau. 18-19)
TT	**Er gwaethaf ei hafiechyd ofnadwy**, aeth Luisa i'w weld yn Newgate.
Sylw	Beth am ddweud, 'er ei bod yn ddynes wael, aeth....' dyna'r ffordd naturiol o ddweud hyn yn Gymraeg.
Yn	Carvajal04, Carvajal06, Carvajal08
	Cystrawen 13: Cymal adferfol
ST	**It has been three decades since** Whitehall first looked into harnessing energy from the the Severn estuary's tides. (Hafren, ll. 1)
TT	**Mae hi wedi bod tri degawd ers** i Whitehall ymchwilio am y tro cyntaf i'r posibiliad o ddefnyddio egni o forlifoedd yr afon Hafren.
Sylw	Patrwm Saesneg yw hwn. Gallech ddweud 'mae wedi bod yn dri degawd' neu 'aeth tri degawd heibio'.
Yn	Hafren04
	Cystrawen 14: Gollwng elfen
ST	In 1605 – the year of the Gunpowder Plot – she was secreted into England by the Jesuits **despite the fact that** she spoke not a word of English. (Carvajal, llau. 8-9)
TT	Yn 1605 - blwyddyn Cynllwyn y Powdwr Gwn - cafodd ei chludo yn y dirgel i Loegr gan y Jeswitiaid, **er gwaetha'r ffaith** nad oedd yn siarad gair o Saesneg.
Sylw	Mae'r Saesneg yn hoff o 'the fact that'. Gellir hepgor hyn: 'er nad oedd yn...'
Yn	Carvajal03

Cadarnhaol/negyddol

Enghraifft arall o'r gwahaniaethau cystrawennol rhwng y ddwy iaith yw'r defnydd o'r cadarnhaol a'r negyddol. Wrth reswm, mae pob iaith yn mynegi realiti'r byd o'i chwmpas mewn modd gwahanol (Culler 1976:22), ac ymddengys fod y Gymraeg a'r Saesneg yn mynegi realiti'r byd drwy ddefnyddio'r cadarnhaol a'r negyddol mewn ffordd wahanol i'w gilydd. O'r herwydd, mae'n rhaid i'r cyfieithydd, os yw am osgoi ymyrraeth gan y testun ffynhonnell, ystyried naill ai newid brawddeg gadarnhaol yn un negyddol neu newid

brawddeg negyddol yn un gadarnhaol (Gruffudd 2005:35). Tynnwyd sylw at y gwahaniaeth hwn yng ngweithdy Hafren, pan ddywedodd y marciwr wrth drafod y frawddeg aml-gymalog gadarnhaol isod, "Credaf y byddai'r frawddeg yn fwy Cymraeg pe defnyddid y negyddol i gychwyn. Rhywbeth tebyg i 'Ymddengys na fyddai'r syniadau mwy cydnaws â'r amgylchedd . . . yn dod yn agos at gyrraedd nod y llywodraeth'":

> ST: *The environmentally friendly lagoon and reef ideas, which would produce as little as a fifth of the energy of the big barrage, seem to fall short of the government's stated goal of producing a "strategically significant" amount of energy from the project.* (Hafren, llau. 12-14)
> TT: Mae'r syniadau am forlynnoedd a riffiau cyfeillgar i'r amgylchedd, a fyddai'n cynhyrchu cyn lleied ag un rhan o bump o ynni'r morglawdd mawr, yn ymddangos yn syrthio'n fyr o nod benodol y llywodraeth o gynhyrchu swm "strategol sylweddol" o ynni o'r prosiect. (Hafren26)

Pwyslais

Nododd marcwyr e-weithdy 'Carvajal' i sawl cyfieithydd gael ei ddylanwadu gan yr iaith ffynhonnell wrth drosi cymalau ac iddynt elfennau o bwyslais (gw. Tabl 10, Cystrawen 10 ac 11). Er enghraifft, wrth edrych ar y darn isod, daw'r cymal "Born into..." ar ddechrau'r frawddeg Saesneg er mwyn cyfleu pwyslais, ond ni lwyddodd y cyfieithydd i gyfleu'r un pwyslais yn y testun targed. Fel y sylwodd y marciwr: "... y dull arferol o gyfieithu'r gystrawen hon i'r Gymraeg fyddai dweud – 'A hithau wedi ei geni i.....'".

> ST: ***Born into*** *a great Spanish noble family, Luisa suffered a horribly abusive childhood and from her early years hankered to become a martyr for her faith.* (Carvajal, llau. 5-6)
> TT: **Yn un o** deuluoedd bonheddig Sbaen, dioddefodd Luisa blentyndod o gamdriniaeth gas, ac o'i blynyddoedd cynnar roedd ag awydd cryf i fod yn ferthyr i'w ffydd. (Carvajal04)

Yn nes ymlaen yn yr un cyfieithiad baglodd 4 cyfieithydd dros yr ymadrodd "including her own", fel y dengys y darn isod:

> ST: *To everyone's surprise* ***including her own****, she steadily assumed a prominent role within London's underground Catholic community...* (Carvajal, llau. 9-12)
> TT: Er syndod i bawb, **gan gynnwys hi ei hun**, fe ddaeth yn raddol i chwarae rôl flaenllaw yng nghymuned Babyddol danddaearol Llundain... (Carvajal04)

A dywedodd y marciwr: "Rydych yn glynu'n rhy gaeth i'r gystrawen Saesneg. Byddai dweud 'ac iddi hithau' yn llawer mwy naturiol".

Newid dosbarth y geiriau

Er i bob un o'r categorïau uchod sbarduno rhywfaint o ymyrraeth gystrawennol yng nghyfieithiadau'r e-weithdai, dengys yr arolwg fod yr ymyrraeth fwyaf yn codi o beidio â newid dosbarth y geiriau i'w trosi. 'Trawsddodiad' yw'r term technegol a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses hon, fel yr eglura Venuti (2004:132):

> The method called transposition involves replacing one word class with another without changing the meaning of the message. Beside being a special translation procedure, transposition can also be applied within a language.

Mae i'r iaith Gymraeg wyth prif ddosbarth o eiriau (Thomas 1996:16-17), sef:

- berfau, e.e. 'dewch'
- enwau, e.e. 'pysgodyn'
- ansoddeiriau, e.e. 'trwm'
- rhagenwau, e.e. 'ein'
- arddodiaid, e.e. 'ar'
- adferfau, e.e. 'heno'
- cysyllteiriau, e.e. 'ond'
- y fannod, e.e. 'y'

Ceir, at hynny, sawl mân ddosbarth:

- ategion berfol, e.e. 'yr wyf *wedi* mynd'
- goleddfwyr ansoddeiriol, e.e. 'coch *iawn*'
- geirynnau, e.e. 'nid'

Cododd nifer o enghreifftiau yn y corpws cyfochrog lle roedd y cyfieithwyr yn cadw at yr union ddosbarth o air ag oedd yn y testun Saesneg yn hytrach na meddwl am yr hyn a fyddai wedi bod yn addas yn Gymraeg (gw. Tabl 10: Cystrawennau 1-5, 12 ac 13). Yn Carvajal08, er enghraifft, troswyd "the **Spanish** embassy" yn "y llysgenhadaeth **Sbaeneg**", gan ddefnyddio'r enw priod ar yr iaith "Sbaeneg", yn hytrach na'r enw priod ar y wlad "Sbaen". Sylw'r marciwr oedd: "Peidiwch â chyfieithu'n llythrennol ond meddyliwch beth y byddech yn ei ddweud yn naturiol yn Gymraeg". Fodd bynnag, troswyd yr un ansoddair yn "Sbaeneg" unwaith yn rhagor yn yr un testun pan gododd yn yr ymadrodd "Spanish woman" (ll. 3), ond y tro hwn "Sbaenes" oedd y cyfieithiad gorau. Fel y nododd y marciwr: "'Sbaenes' fyddai fwyaf naturiol yn Gymraeg. Cyfeirio at yr iaith a wna Sbaeneg. Fyddech chi byth yn dweud

‘dynes Gymraeg’ ond ‘Cymraes’”. Yn nes ymlaen yn yr un darn defnyddiwyd yr un enw priod eto wrth drosi’r ansoddair “Spanish” yn yr ymadrodd “a great Spanish noble family” (ll. 5). Ond fel y nododd y marciwr: “Unwaith eto, ni ellir defnyddio ‘Sbaeneg’ am *Spanish* yma; ‘o Sbaen’ sy’n gywir”. Bu rhaid i’r cyfieithydd felly ddewis dosbarthau gwahanol o eiriau ym mhob achos, fel y’i gwelir isod:

a)	ST: the Spanish embassy *bannod benodol* + *ansoddair* + *enw*	> TT: llysgenhadaeth Sbaen > *enw* + *enw priod* *(yn y cyflwr genidol disgrifiadol)*
b)	ST: Spanish woman *ansoddair* + *enw*	> TT: Sbaenes > *enw*
c)	ST: Spanish family *ansoddair* + *enw*	> TT: teulu o Sbaen > *enw* + *arddodiad* + *enw priod*

Tystia’r tair enghraifft hyn fod trawsddodi yn rhan annatod o gyfieithu a bod peidio â newid rhannau ymadrodd yn arwydd amlwg o ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell, sef y Saesneg yn ein hachos ni.

Ond nid ansoddeiriau yn unig oedd yn gyfrifol am y fath hon o ymyrraeth yn y cyfieithiadau. Cafwyd hefyd enghreifftiau o’r angen i newid adferf yn ferfenw, ac felly i ychwanegu’r ategolyn berfol ‘yn’, e.e. S: ‘still’ > C. ‘yn dal’ (gw. Cystrawen 2 yn Nhabl 10), ac o’r angen i newid ansoddair + enw haniaethol yn enw haniaethol + ansoddair + arddodiad + ansoddair (gw. Cystrawen 1 yn Nhabl 10).

At hynny, sylwodd marciwr Hafren 04 ar y patrwm Saesneg yn y cyfieithiad “Mae hi wedi bod **tri degawd**”, lle y dylai’r cyfieithydd wedi newid y rhifolyn a’r enw yn ymadrodd gyda’r ategolyn “yn” (gw. Thomas 1996:90 a gw. Cystrawen 13 yn Nhabl 10). Yn ogystal, awgrymodd Marciwr C mai’r ffordd naturiol o gyfleu “Despite her chronic ill health...” yn Gymraeg fyddai dweud “Er ei bod yn ddynes wael...”, drwy newid bron pob dosbarth o air a chreu cymal berfol yn hytrach na chymal enwol (gw. Cystrawen 12 yn Nhabl 10). Cafwyd hefyd enghraifft lle yr awgrymodd marciwr Carvajal04 fod “cafodd ei roi i farwolaeth” yn “adleisio gormod o’r gwreiddiol”, sef “was put to death” ac y byddai ef/hi wedi dweud “cafodd ei ddienyddio” yn lle, ond nid gwall oedd hwn mewn gwirionedd ac felly, er iddo gael ei drafod yma, nis cynhwyswyd yn Nhabl 10.

Yn olaf, cafwyd nifer uchel o enghreifftiau lle y troswyd enw haniaethol yn y testun ffynhonnell drwy roi enw haniaethol yn y Gymraeg (gw. Cystrawennau 4 a 5 yn Nhabl 10). Fel y nododd y marcwyr: "Rhaid dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw yn fwy cytnaws â'r Gymraeg". O ystyried nifer sylweddol yr enghreifftiau hyn, yn ogystal â'r posibiliadau ymarferol gyda golwg ar raglennu *Cysill* i ddelio â nhw, penderfynwyd y byddai'n fuddiol canolbwyntio, yng ngweddill y bennod hon, ar yr agwedd benodol hon ar ymyrraeth. Ond wrth i ni gloi'r arolwg cyffredinol hwn, mae'n eglur bod y gwahaniaethau sylfaenol rhwng Saesneg a Chymraeg — o ran idiom, geirfa a chystrawen — yn cael eu lleihau wrth drosi, a hynny oherwydd y berthynas anghytbwys rhwng y ddwy iaith yn gymdeithasol. Yn ddiddorol, mae Gruffudd wedi creu rhestr o'r naw prif wahaniaeth rhwng y ddwy iaith y mae'n rhaid bod yn ymwybodol ohonynt wrth gyfieithu (gw. Ffigwr 26 isod) ac mae ein harolwg wedi dangos bod y cyfieithwyr dan sylw wedi anwybyddu chwech o'r gwahaniaethau hynny (Rhifau 2, 3, 4, 6, 7, 9) wrth drosi, gan greu cyfieithiadau llawn ymyrraeth.

Ffigwr 26: Gwahaniaethau rhwng Saesneg a'r Gymraeg at ddiben cyfieithu

1. Mae'r Saesneg yn hoff o frawddegau â sawl is-gymal, ond y Gymraeg yn fwy tueddol o ddefnyddio brawddegau byr.
2. Mae'r Saesneg yn dueddol o ddefnyddio'r modd goddefol, lle byddai'r Gymraeg yn defnyddio'r modd mynegol.
3. Mae llu o eirynnau'n cael eu defnyddio ar ôl berfau yn y Saesneg, ond nid yn y Gymraeg, e.e. 'up', 'down', 'off'.
4. Mae'r Saesneg yn hoff o enwau haniaethol, ond yn y Gymraeg mae'n well defnyddio enwau diriaethol, ansoddeiriau neu ferfenwau.
5. Mae'r defnydd o'r fannod yn wahanol yn y ddwy iaith.
6. Mae angen gofal wrth ddefnyddio'r fannod gydag ymadroddion sy'n cynnwys dau enw: dydyn ni ddim yn rhoi'r fannod o flaen yr ymadroddion hyn.
7. Mae'r defnydd o'r unigol a'r lluosog yn gallu bod yn wahanol.
8. Mae rhoi adferf o flaen ansoddair yn gyffredin yn y Saesneg, ond yn llai cyffredin yn y Gymraeg.
9. Mae'r defnydd o'r negyddol a'r cadarnhaol yn wahanol yn y ddwy iaith.

Ffynhonnell: Gruffudd (2005:64-65)

Bwriedir gyda'r ymchwil hwn archwilio'r posibilrwydd o raglennu *Cysill* er mwyn helpu cyfieithwyr i osgoi'r fath ymyrraeth yn y dyfodol, gan ganolbwyntio yng ngweddill y

bennod hon ar adnabod y gwahaniaeth rhwng y defnydd o enwau haniaethol yn Saesneg a berfenwau yn y Gymraeg.

4.4 Defnyddio'r enw yn lle'r berfenw yn y testun targed

Mewn 10 o'r 95 cyfieithiad a gynhyrchwyd yn yr e-weithdai, sef mewn dros ddeg y cant o gyfieithiadau'r corpws cyfochrog, sylwodd y marcwyr ar y defnydd o enw (unigol neu luosog) yn y testun targed lle y "byddai defnyddio'r berfenw yn fwy cytnaws â'r Gymraeg", gan esbonio bod "y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg".[34] "Enw haniaethol" yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw beth na ellir ei weld, boed yn briodoledd neu'n ansawdd (Thomas 1996:134), rhywbeth heb sylwedd materol iddo, peth sy'n bodoli fel syniad yn unig (GPC Cyf. II, td. 1821).

Roedd y marcwyr yn cyfeirio at ddau enw haniaethol Saesneg penodol, sef "consultation" a "destruction", a gododd ill dau yn nhestun 'Hafren'. Troswyd yr enw cyntaf yn "ymgynghoriad" neu "ymgyngoriadau" gan 9 o gyfieithwyr, fel y'i gwelir isod:

> ST: *The plan for a barrage from Cardiff to Weston-super-Mare was one of five short-listed for* ***consultation****.* (Hafren, ll. 6)
> TT: Roedd y cynllun am forglawdd o Gaerdydd i Weston-super-Mare yn un o bump gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer **ymgynghoriad**. (Hafren13)

Awgrymodd y marciwr y "byddai rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch' yn addas", gan droi'r enw yn ferfenw a defnyddio'r arddodiad cyfansawdd enwol "ynghylch" gyda'r rhagenw.

Yn yr un modd, cyfieithwyd yr enw haniaethol "destruction" fel "dinistriad" gan gyfieithydd Hafren05, ac unwaith eto awgrymodd y marciwr y dylai'r cyfieithydd fod wedi defnyddio'r berfenw, sef "dinistrio", yn ei le:

> ST: *Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the* ***destruction*** *of vital habitats.* (Hafren, llau. 9-10)
> TT: Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd pwysig. (Hafren05)
> Sylw: Teg dweud hefyd fod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'dinistrio' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'dinistrio cynefinoedd pwysig'.

[34] Gw. Cystrawennau 4 a 5 yn Nhabl 10 uchod.

Fodd bynnag, o gofio na noda'r marcwyr bob tro ddylanwad y Saesneg, fel y gwelwyd yn 4.3 uchod, penderfynwyd ail-edrych ar yr holl gyfieithiadau unigol er mwyn cael darlun cyflawnach o'r math hwn o ymyrraeth.

Yn gyntaf, chwiliwyd am yr holl gyfieithiadau o'r enw "consultation" lle nad oedd y marcwyr wedi nodi eu bod yn dangos ymyrraeth. Daethpwyd o hyd i 20 o enghreifftiau ychwanegol o'r cyfieithiad "ymgynghoriad" ac enwau eraill ("trafodaeth", "ystyriaeth") a ddefnyddiwyd i drosi'r enw "consultation" (gw. Tabl 11 isod). Golyga hyn, mewn gwirionedd, fod cyfanswm o 29 o'r 39 cyfieithydd yn yr e-weithdy, sef 74% o'r cyfranogwyr, wedi defnyddio enw yn lle berfenw. Ond ni thynnodd y marcwyr sylw at ddylanwad y testun ffynhonnell nag at y posibilrwydd o ddefnyddio'r berfenw ym mhob un o'r enghreifftiau hyn. Wrth drafod cyfieithiad Hafren01 yn unig sylwodd y marciwr: "Dw i ddim yn sicr am ddweud bod y cynllun yn 'ymgynghoriad': byddai'n well ei fod 'yn un o bum cynllun ar y rhestr fer ar gyfer ymgynghori'". Pam, felly, y cafodd yr enghreifftiau hyn eu hesgeuluso gan y marcwyr? Wrth edrych drwy'r cyfieithiadau yn Nhabl 11, darganfuwyd mai Marciwr A a'u marciodd nhw i gyd — tra marciwyd y cyfieithiadau eraill gan Farciwr B — ac ymddengys felly mai anghytuno rhwng y marcwyr sydd wrth wraidd yr anghysondeb hwn.

Tabl 11: Enghreifftiau ychwanegol o'r enw "ymgynghoriad" yng ngweithdy 'Hafren'

Rhif	ST: The plan ... was one of five short-listed for **consultation**. (Hafren, ll. 6)
Hafren01	TT: Roedd cynllun ... yn un o bum **yngynghoriad** ar y rhestr fer.
Hafren03	TT: 'Roedd y cynllun ... yn un o bump a roddwyd ar restr fer ar gyfer **ymgynghoriad**.
Hafren05	TT: Y cynllun ... oedd un o bump a gafodd eu rhoi ar restr fer ar gyfer **trafodaeth**.
Hafren08	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump y'u rhoddwyd ar restr fer ar gyfer **ymgynghoriad**.
Hafren09	TT: Yr oedd y cynllun ... yn un o bump cynllun ... ar y rhestr fer er pwrpas **ymgynghoriad**.
Hafren10	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ar restr-fer am **ynghyngoriad**.
Hafren11	TT: Roedd y cynllun ... yn un o'r pump a oedd ar restr fer yr **ymgynghoriad**.
Hafren12	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ar restr fer i gael **ymgynghoriad**.
Hafren14	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump cynnig a gyrrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer **ymgynghoriad**.
Hafren18	TT: Mae'r cynllun ... yn un o bump a wnaeth gyrraedd y rhestr fer, gyda **ymgynghoriad** i ddilyn.
Hafren19	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump a ddewiswyd ar gyfer yr **ymgynghoriad** rhestr fer.
Hafren23	TT: Mae'r cynllun ... yn un o bump a rhoddwyd ar y rhestr-fer ar gyfer **ymgynghoriad**.
Hafren30	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ddaeth ar restr fer ar gyfer **ymgynghoriad**.
Hafren31	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ar y rhestr fer ar gyfer **ymgynghoriad**.
Hafren32	TT: Yr oedd y cynllun ... yn un o bump oedd ar y rhestr fer ar gyfer yr **ymgynghoriad**.
Hafren33	TT: 'Roedd y cynllun ... yn un o bump a roddwyd ar y rhestr fer am **ymgynghoriad**.
Hafren34	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ar restr fer am **ymgynghoriad**.
Hafren36	TT: Roedd cynllun ... yn un o bump ar y rhestr fer a fydd yn destun **ymgynghoriad**.
Hafren37	TT: Roedd cynllun ... yn un o bump a gynhwyswyd ar restr fer er **ystyriaeth**.
Hafren39	TT: Roedd cynllun ... yn un o bump ar restr fer gogyfer â **ymgynghoriad** pellach.

Serch hynny, achosodd y gystrawen gryn drafferth hyd yn oed i'r cyfieithwyr hynny a ddewisodd ddefnyddio'r berfenw, fel y'i gwelir yn Nhabl 12 isod. Digwyddodd hynny yn bennaf oherwydd nad oedd y cyfieithwyr yn sicr ynghylch sut a pha arddodiad i'w ddefnyddio gyda'r ferf "ymgynghori" — sef "ymgynghori ar", "ymgynghori ynghylch" ac ati. Efallai mai dyna'r rheswm pam y dewisodd cynifer o gyfieithwyr gadw'r enw yn eu cyfieithiadau? Ychwanegodd cyfieithydd Hafren38 ragenw yn ogystal â'r arddodiad, gan achosi i'r marciwr esbonio: "Does dim angen ''w': mae 'i ymgynghori arnynt' yn iawn. Mae ''w' yn cyfeirio at wrthrych y ferf, ond yma mae'r gwrthrych yn yr arddodiad 'arnynt'". Dengys yr enghreifftiau hyn nad oes gan bob cyfieithydd ddealltwriaeth o ramadeg y Gymraeg, neu yn benodol nad ydynt yn gwybod pa arddodiaid i'w defnyddio gyda berfau.

Tabl 12: Enghreifftiau o'r berfenw "ymgynghori" yng ngweithdy 'Hafren'

Rhif	ST: The plan ... was one of five short-listed for **consultation**. (Hafren, ll. 6)
Hafren02	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bum cynllun a osodwyd ar restr fer er mwyn **ymgynghori arnynt**.
Hafren06	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ar y rhestr fer yr **ymgynghorir yn ei chylch**.
Hafren07	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump ar y rhestr fer ar gyfer **ymgynghori**.
Hafren16	TT: Mae'r cynllun ... yn un o'r pump a roddwyd ar restr fer i **ymgynghori arnynt**.
Hafren20	TT: Roedd y cynllun ... un o'r pum a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer **ymgynghori arno**.
Hafren24	TT: Roedd y cynllun ... yn un o bump a roddwyd ar y rhestr fer ar gyfer **ymgynghori**.
Hafren26	TT: Roedd y cynllun ... yn un o'r pump a oedd ar y rhestr fer i **ymgynhgori â hwy**.
Hafren35	TT: Roedd ... yn un o bum cynllun a roddwyd ar restr fer er mwyn **ymgynghori arnynt**.
Hafren38	TT: Yr oedd y cynllun ... yn un o bump sydd ar y rhestr fer i'**w hymgynghori arnynt**.

Roedd y canfyddiadau ynghylch yr enw "dinistriad" yn debyg. Un enghraifft yn unig a gafodd ei nodi yn yr arolwg o ymyrraeth, ond unwaith yn rhagor daethpwyd o hyd i fwy o enghreifftiau ohono (a "dinistr", "difrod", "niwed", "distryw" ac eraill) wrth chwilio drwy holl gyfieithiadau'r gweithdy (gw. Tabl 13 isod).

Tabl 13: Enghreifftiau o'r enw "dinistriad" yng ngweithdy 'Hafren'

Rhif	ST: Campaigners ... have railed against the **destruction** of vital habitats. (Hafren, llau. 9-10)
Hafren03	Mae ymgyrchwyr ... wedi dwrdio yn erbyn y **dinistr i** gynefinoedd hanfodol bwysig.
Hafren04	Mae ymgyrchwyr ... wedi lladd ar **ddinistr** cynefinoedd hollbwysig.
Hafren08	Mae ymgyrchwyr ... wedi rhefru yn erbyn y **difrod i** gynefinoedd bywydol.
Hafren09	Y mae ymgyrchwyr ... wedi cwyno yn erbyn **dinistr** cynefinoedd hanfodol.
Hafren13	Mae ymgyrchwyr ... wedi lladd ar y **difrod i** gynefinoedd hanfodol.
Hafren15	Mae ymgyrchwyr ... wedi codi twrw ynglŷn â'r **dinistr i** gynefinoedd hanfodol.
Hafren16	Mae ymgyrchwyr ... wedi cwyno am y **dinistr i** gynefinoedd hanfodol.
Hafren17	Brwydro yn erbyn y syniad y mae ymgyrchwyr ... yn ei wneud ar sail y **niwed** andwyol **i** gynefinoedd naturiol.
Hafren18	Mae ymgyrchwyr ... wedi beirniadu yn hallt **dinistriad** o gynefinoedd hanfodol a hynod werthfawr.
Hafren22	Mae ymgyrchwyr ... wedi rhefru'n erbyn **distryw** cartrefi hanfodol.
Hafren25	Mae ymgyrchwyr ... wedi ymgyrchu'n chwyrn yn erbyn **dinistr** cynefinoedd hanfodol.
Hafren27	Mae cyrff ... wedi ymgyrchu yn erbyn y **dirywiad** o gynefinoedd bywiol.
Hafren32	Y mae ymgyrchwyr ... wedi protestio yn erbyn **dinistr** cynefinoedd allweddol.

Hafren33	Mae ymgyrchwyr ... wedi achwyn yn erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd hollbwysig.
Hafren35	Mae ymgyrchwyr ... wedi ymgasglu fel un yn erbyn **chwalfa**'r cynefinoedd sy'n hanfodol er cynnal bywyd.

Er na nododd y marcwyr fod dylanwad y testun ffynhonnell i'w weld yn yr enghreifftiau hyn, cafwyd sawl enghraifft lle y datganodd y marciwr y byddai wedi bod yn "well" neu yn "fwy priodol" defnyddio'r berfenw yn lle cadw'r enw. Er enghraifft, sylwodd marciwr Hafren18 a Hafren33: "Gwell fyddai newid yr enw haniaethol yn ferf – 'dinistrio cynefinoedd', yn lle 'dinistriad o gynefinoedd'", a dywedodd marciwr Hafren35: "Byddai defnyddio berfenw 'chwalu' yn fwy priodol na'r enw 'chwalfa' am 'destruction'". Atgoffwyd cyfieithydd Hafren27 i "ddefnyddio'r berfenw yn lle enw haniaethol" a nododd marciwr Hafren36: "Defnyddiwyd berfenw'n llwyddiannus yn hytrach nag enw haniaethol i gyfieithu 'destruction'". Yn yr un modd, canmolwyd cyfieithydd Hafren30 am ddewis berfenw: "Defnyddiwyd berfenw 'difa' yn hytrach nag enw am 'destruction'. Mae hyn yn glodwiw".

Fodd bynnag, cyfyd problem wrth geisio dadansoddi pob un o'r enghreifftiau uchod, gan fod y geiriau "dinistr" a "distryw" yn gallu cael eu defnyddio'n enwol ac yn ferfenwol (er eu bod yn enwau gan amlaf). Nid oes modd, felly, fod yn hollol sicr ai'r enwau a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd gan gyfieithwyr Hafren04, 09, 22, 25 a 32.

Yn ddiddorol, ac eithrio cyfieithiad Hafren27, Marciwr A oedd yn gyfrifol am y sylwadau hyn i gyd. Felly, wrth ystyried sylwadau blaenorol Marciwr B ar Hafren05 a'i sylwadau ar Hafren27, ymddengys fod cytuno rhwng y marcwyr o ran defnyddio berfenw yn lle enw yn y math hwn o gystrawen, sef ymadrodd genidol disgrifiadol. Fel y nodwyd uchod yn 4.3.3 wrth drafod y genidol, "tueddir i ddewis berfenw yn hytrach nag enw os bydd yr elfen ddibynnol yn goddef y weithred yn hytrach na'i chyflawni" (Thomas 1996:326), ac wrth edrych ar y testun ffynhonnell, gwelir bod hyn yn wir yn yr enghraifft dan sylw, lle y mae'r "vital habitats" yn goddef y weithred, sef y "destruction".

Fodd bynnag, nid "consultation" a "destruction" oedd yr unig enwau haniaethol yn y darnau i'w cyfieithu. Yn wir, cafwyd nifer o enwau haniaethol ym mhob darn, enwau megis "inevitability" a "possibility" (BF, llau. 3 a 10) a "childhood" a "willingness" (Carvajal, llau. 5 a 16). Ond wrth archwilio ôl-ddodiaid yr enwau hyn, gwelir bod yr enwau wedi'u creu naill ai o ansoddeiriau ("inevitability", "possibility" a "willingness") (Quirk *et al* 1985:1551) neu o enwau ("childhood") (*ibid* 1548). Yr hyn sy'n arbennig am yr enwau haniaethol "consultation" a "destruction", ar y llaw arall, yw eu bod wedi'u creu o ferfau – fe'u gelwir

yn ‘deverbal abstract nouns’ yn Saesneg (*ibid* 1550-51) – sy’n golygu ei bod yn bosibl dewis berfenw yn eu lle wrth drosi i’r Gymraeg. A ffocws yr ymchwil ar y grŵp penodol hwn o enwau haniaethol, y cam nesaf oedd chwilio’r testunau ffynhonnell am unrhyw enwau haniaethol eraill gyda’r ôl-ddodiad “–tion”. Daethpwyd o hyd i ddeg o enwau, gan gynnwys “consultation” a “destruction”, fel y dengys Tabl 14 isod.

Tabl 14: Enwau haniaethol gyda’r ôl-ddodiad “-tion”

Darn	**Enw haniaethol gyda’r ôl-ddodiad ‘-tion’**	**Brawddeg**
Hafren	(1) Consultation	(1) The plan for a barrage from Cardiff to Weston-super-Mare was one of five short-listed for **consultation**. (ll. 6)
	(2) Protection	(2) Campaigners like the Royal Society for the **Protection** of Birds have railed against the destruction of vital habitats. (llau. 9-10)
	(3) Destruction	(3) Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the **destruction** of vital habitats. (llau. 9-10)
	(4) Construction	(4) It could create as many as 18,000 **construction** jobs but some government and industry bean-counters argue that the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere. (llau. 11-12)
	(5) Institution	(5) A conference that the **Institution** of Civil Engineers is holding next week on the issue will call on the government to resurrect the most ambitious idea of all, a barrage from Minehead to Aberthaw that would cost up to £30 billion to build - £10 billion more than the short-listed Cardiff-Weston project. (llau. 15-17)
Canwr	(1) Interpretation	(1) There was no sense of a grotesque falsetto stunt in his singing: his **interpretations** had real depth. (ll. 7)
	(2) Competition	(2.a) The judges plumped instead for a lissome blonde Russian soprano, 32-year-old Ekaterina Shcherbachenko, who has sung several leading roles at the Bolshoi Opera in Moscow, and who shouldn’t have been eligible for a **competition** intended to promote the up and coming rather than the arrived. (llau. 11-14) (2.b) Time for some stiffening of the **competition**’s rules? (llau. 14-15)
Carvajal	(1) Execution	(1.a) Before dawn one morning in June 1612, an elderly Frenchman took charge of a carriage carrying a precious cargo near Tyburn Fields, London’s notorious place of **execution**. (llau. 1-2) (1.b) To everyone’s surprise including her own, she steadily assumed a prominent role within London’s underground Catholic community, setting up an unofficial nunnery, offering Roman priests a secure place to live, consoling prisoners awaiting **execution**, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad. (llau. 9-12) (1.c) Throughout this time she ran the risk of imprisonment and possibly even **execution**, yet she managed to avoid this ultimate fate in spite of being arrested on a number of occasions. (llau. 12-13)
	(2) Persecution	(2) Among those priests caught up in King James’ **persecution** was the Welshman John Roberts, a Benedictine. (ll. 14)
	(3) Condemnation	(3) After the inevitable **condemnation**, Luisa sent him pear tartlets. (llau. 19-20)

O edrych ar y tabl ac ar y darn 'Hafren' i gychwyn, gwelir bod ynddo dri enw haniaethol ar wahân i "consultation" a "destruction" sydd wedi deillio o ferfau, sef "protection", "construction" ac "institution". Mae'r un cyntaf yn rhan o enw sefydliad 'The Royal Society for the **Protection** of Birds', sef 'Y Gymdeithas Frenhinol er **Gwarchod** Adar'. Fodd bynnag, gan ei fod yn rhan annatod o ymadrodd cyfarwydd, a chan fod angen i'r cyfieithwyr ddelio ag ymadrodd yn hytrach na gair unigol, barnwyd na fyddai'n fuddiol ymchwilio i gyfieithiadau o'r gair; hyd yn oed os nad oedd y cyfieithwyr yn gyfarwydd â theitl y Gymdeithas, mae'n debyg y byddent wedi edrych ar y we am y teitl iawn, ac felly ni fyddai'r canlyniadau'n adlewyrchu eu gwaith cyfieithu eu hunain. Yn yr un modd, cododd yr enw "institution" fel rhan o deitl adnabyddus, ond y tro hwn bu rhaid cadw'r enw yn hytrach na defnyddio'r berfenw, felly anwybyddwyd yr enw hwn hefyd. Wrth gyfieithu'r enw "construction", defnyddiwyd y berfenw "adeiladu" gan y rhan fwyaf o'r cyfieithwyr yn yr e-weithdy, ond cafwyd 4 cyfieithiad lle y defnyddiwyd yr enw "adeiladwaith", fel y gwelir isod:

Tabl 15: Enghreifftiau o'r enw "adeiladwaith" yng ngweithdy 'Hafren'

Rhif	ST: It could create as many as 18,000 **construction** jobs but some government and industry bean-counters argue that the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere. (Hafren, llau. 11-12)
Hafren17	TT: Dadleua rhai o gyfrifwyr y llywodraeth a'r diwydiant adeiladu y byddai'n well gwario'r £22 biliwn ar brosiectau eraill er gall y cynllun greu hyd at 18,000 o swyddi ym myd **adeiladwaith**.
Hafren18	TT: Mae'n posib gwnaiff adeiladu'r morglawdd greu hyd at 18000 o swyddi yn y diwydiant **adeiladwaith** ond mae rhai cyfrifwyr, aelodau o'r Llywodraeth ac o fyd busnes, yn honni byddai'n well i wario'r £22 biliwn - y gost potensial o adeiladu'r morglawdd - ar rywbeth arall.
Hafren22	TT: Gallai creu cymaint â 18,000 swydd **adeiladwaith** ond dadlau rhai llygaid y geiniog yn y llywodraeth a diwydiant taw'r £22 biliwn gallai'n costio y byddai'n cael ei wario yn well mewn man arall.
Hafren23	TT: Fe all y cynllun yma greu hyd at 18,000 o swyddi **adeiladwaith** ond dywed rhai gwylwyr o goffrau'r llywodraeth a diwydiant fod modd gwario'r £22 biliwn, sef y gost o'i adeiladu, ar bethau gwell.

Ni sylwodd Marciwr B ar ddefnydd yr enw yn Hafren 17 a 22, ond nododd Marciwr A: "gwell fyddai'r berfenw 'adeiladu' na'r enw haniaethol 'adeiladwaith': mae hyn yn egwyddor eitha cyffredin wrth gyfieithu i'r Gymraeg" (Hafren18) ac "mae'r berfenw'n aml yn haws na'r enw haniaethol, felly 'swyddi adeiladu'" (Hafren23). Ymddengys felly fod cyfieithwyr yn llawer llai tebygol o gael eu dylanwadu gan y Saesneg wrth drosi'r math hwn o gystrawen, sef dau enw mewn cyfosodiad, lle y mae'r enw haniaethol yn gweithredu'n ansoddeiriol ac yn cael ei drosi gan ferfenw yn y Gymraeg. Yn wir, dengys y siart isod (Ffigwr 27) i ganran isel iawn o'r cyfieithwyr yng ngweithdy Hafren, sef 10% yn unig, gael eu dylanwadu gan y testun ffynhonnell wrth drosi'r gystrawen hon, o gymharu â 41% yn

achos ymadrodd genidol disgrifiadol ("the destruction of vital habitats") a 74% yn achos enw haniaethol ar ôl arddodiad, lle y byddai rhaid dilyn y berfenw cyfatebol yn Gymraeg ag arddodiad ("for consultation" – "ymgynghori am/ar/ynghylch rhth").

Ffigwr 27: Enwau haniaethol yn y testun 'Hafren'

Wrth droi at y testun 'Canwr', gwelir dau enw haniaethol gyda'r ôl-ddodiad "-tion", sef "interpretation" a "competition". Fodd bynnag, er bod modd cyfieithu'r ddau ohonynt drwy ddefnyddio berfenwau mewn rhai amgylchiadau, e.e. '**Interpretation** Act 1978' > 'Deddf **Ddehongli** 1978' *(TermCymru)*; '**Competition** Commission' > 'Comisiwn **Cystadlu**' *(TermCymru)*, ni nododd y marcwyr fod angen defnyddio'r berfenw yn y brawddegau dan sylw.

Yn olaf, wrth edrych ar y testun 'Carvajal', gwelir tri enw haniaethol gyda'r ôl-ddodiad "-tion", sef "condemnation", "persecution" ac "execution". Cyfyd yr enw "execution" dair gwaith; y tro cyntaf fel rhan o'r ymadrodd genidol "place of execution" (Carvajal ll. 2): llwyddodd y rhan fwyaf o'r cyfieithwyr yn y gweithdy i newid dosbarth y gair, gan ei drosi'n "dienyddio". Er enghraifft, defnyddiodd cyfieithydd Carvajal01 yr ymadrodd "man dienyddio", a chafodd ei gyfieithu fel "safle dienyddio" gan gyfieithwyr Carvajal03 a Carvajal12 a "lle dienyddio" gan gyfieithydd Carvajal04. Ac er i sawl cyfieithydd newid y gystrawen ychydig, y berfenw a ddefnyddiwyd ganddynt yn y gystrawen newydd, fel y dangosir isod:

... lle sy'n enwog yn Llundain am y weithred greulon o ddienyddio (Carvajal02)

... lle enwog yn Llundain ar gyfer dienyddio (Carvajal05)

... ardal ddrwg-enwog yn Llundain am ddienyddio (Carvajal09)

... man a oedd gydag enw drwg yn Llundain am ddienyddio (Carvajal11)

Yn ddiddorol, dewisodd dau gyfieithydd gyfuno dwy elfen yr ymadrodd genidol i greu'r geiriau cyfansawdd "dienyddfa" (Carvajal07) a "dienyddfan" (Carvajal08), ond sylwodd Marciwr Carvajal08: "cynnig teg ... neu beth am ddweud 'y lle dienyddio enwog hwnnw yn Llundain'. Peidiwch â bod ag ofn cynnig rhywbeth sy'n fwy naturiol yn y Gymraeg".

Dwy enghraifft yn unig a gafwyd lle y defnyddiwyd enw yn y testun targed, sef Carvajal06 a Carvajal10. Fodd bynnag, newidiwyd cystrawen yr ymadrodd gan gyfieithydd Carvajal06 a defnyddiwyd ffurf luosog yr enw yn hytrach na'r ffurf unigol, fel a ganlyn:

... ardal o Lundain a oedd yn enwog am ddienyddiadau.

Ymddengys, felly, mai cyfieithydd Carvajal10 yn unig a gafodd ei ddylanwadu gan y testun ffynhonnell, gan drosi'r ymadrodd yn "lle dienyddiad". Fel y nododd y marciwr: "Er mai enw yw 'execution', mae'n aml yn fwy cyfleus defnyddio berfenw wrth gyfieithu, felly 'lle dienyddio'".

Wrth droi at yr ail enghraifft o'r gair "execution", gwelir i nifer ychydig yn is o gyfieithwyr, sef saith cyfieithydd, ddefnyddio'r berfenw y tro hwn. Roedd angen newid cryn dipyn ar y gystrawen i gael testun Cymraeg naturiol, ac efallai fod y newid hwn wedi annog cyfieithwyr i newid categori gair hefyd:

ST: *To everyone's surprise including her own, she steadily assumed a prominent role within London's underground Catholic community ... consoling prisoners awaiting* ***execution****, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad.* (Carvajal, llau. 9-12)
TT: Er syndod i bawb, gan gynnwys hi ei hun, fe ddaeth yn raddol i chwarae rôl flaenllaw yng nghymuned Babyddol danddaearol Llundain ... gan gysuro carcharorion a arhosai i gael eu **dienyddio**, mewnforio llyfrau gwaharddedig, a helpu Pabyddion oedd yn cael eu herlid i ddianc dramor. (Carvajal04)

Defnyddiwyd enw yn y testun targed gan weddill y cyfieithwyr (gw. Tabl 16 isod)

ond un sylw yn unig a gafwyd gan y marcwyr gyda golwg ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r berfenw, sef "Gwell defnyddio'r berfenw 'dienyddio'" (Carvajal10).

Tabl 16: Enghreifftiau o'r enw "dienyddiad" yng ngweithdy 'Carvajal'

Rhif	ST: To everyone's surprise including her own, she steadily assumed a prominent role within London's underground Catholic community ... consoling prisoners awaiting **execution**, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad. (Carvajal, llau. 9-12)
Carvajal01	O dipyn i beth ac yn annisgwyl i bawb ac iddi hi ei hun, cymerodd arni ran flaenllaw o fewn cymuned Babyddol cudd Llundain ... bu'n cysuro carcharwyr yn aros **dienyddiad**, mewnforio llyfrau gwaharddedig, a helpu Pabyddion oedd yn cael eu herlid i ddianc dramor.
Carvajal03	Er mawr syndod iddi, ac i bawb arall, daeth yn flaenllaw yn raddol yng nghymuned Gatholig danddaearol Llundain ... gan gysuro carcharorion yn disgwyl eu **dienyddiad**, mewnforio llyfrau gwaharddedig a rhoi cymorth i Gatholigion dan erledigaeth i ddianc dramor.
Carvajal07	Er syndod i bawb ac iddi hi ei hun, o dipyn i beth cymrodd arni hi ei hun rôl amlwg o fewn cymuned Babyddol danddaearol Llundain ... gan gysuro carcharorion a ddisgwyliai eu **tynged**, yn mewnforio llyfrau wedi'u gwahardd, a chynorthwyo Pabyddion dan erledigaeth i ffoi dramor.
Carvajal08	Er mawr syndod i bawb, gan gynnwys hi ei hunan, meddodd, gan bwyll, ar rôl blaenllaw o fewn cymuned Gatholig tanddaearol Llundain ... gan gysuro carcharwyr yn aros dydd eu **dienyddiad**, mewnforio llyfrau dan waharddiad, a chynorthwyo Catholigion erlynedig i ddianc dramor.
Carvajal10	Er syndod pawb yn ogystal â syndod iddi ei hunan, derbyniodd yn raddol rôl bwysig o fewn cymuned Gatholig ddirgel Llundain ... yn cysuro carcharorion oedd yn aros am **ddienyddiad**, yn mewnforio llyfrau gwaharddedig ac yn rhoi cymorth i Gatholigion wedi'u erlid er mwyn iddynt ffoi tramor.

Llwyddodd pob cyfieithydd ond un i osgoi ymyrraeth gan y testun ffynhonnell wrth drosi'r drydedd enghraifft o'r gair "execution" yn "dienyddio", fel y dengys yr enghraifft o Carvajal01 isod:

> ST: *Throughout this time she ran the risk of imprisonment and possibly even* ***execution****, yet she managed to avoid this ultimate fate in spite of being arrested on a number of occasions.* (Carvajal, llau. 12-13)
> TT: Trwy gydol yr adeg honno bu mewn perygl o gael ei dedfrydu i'r carchar neu'i **dienyddio** o bosib, eto bu'n llwyddiannus i osgoi'r penyd eithaf hwn er gwaethaf cael ei harestio cynifer o weithiau.

Ond baglodd cyfieithydd Carvajal10 unwaith yn rhagor, gan ddefnyddio'r enw "dienyddiad" — er iddo droi'r enw haniaethol "imprisonment" yn ferf yn rhan gyntaf y frawddeg — a sylwodd y marciwr: "defnyddio 'dienyddio' eto":

> Trwy gydol yr adeg hon, roedd mewn perygl o gael ei charcharu ac efallai ei **dienyddiad** hyd yn oed, ond llwyddodd i osgoi'r dynged derfynol er gwaethaf cael ei harestio sawl gwaith. (Carvajal10)

Dengys hyn oll y gall yr un enw haniaethol ymyrryd yn y testun targed i raddau gwahanol iawn yn dibynnu ar gystrawen y testun ffynhonnell (gw. Ffigwr 28a isod).

Ffigwr 28a: Enwau haniaethol yn y testun 'Carvajal'

Yn yr un testun, troswyd "persecution" yn enw gan hanner y cyfieithwyr yng ngweithdy Carvajal, tra defnyddiwyd ymadrodd berfol gan yr hanner arall (gw. Tabl 17 isod), er y gellid dehongli "erlid" yn enw neu'n ferfenw yn Carvajal10, wrth gwrs. Serch hynny, ni chafodd y naill cynnig na'r llall lawer o sylw gan y marcwyr. Wrth drafod Carvajal06 yn unig, dywedodd y marciwr: "Rwy'n falch ichi anwybyddu *caught up* a dweud 'yn cael eu herlyn(sic)' yn syml ond gwyliwch 'erlid' yw'r gair sydd ei angen yma".

Tabl 17: Cyfieithu "persecution"

Rhif	ST: Among those priests caught up in King James' **persecution** was the Welshman John Roberts, a Benedictine. (Carvajal, ll. 14)
Carvajal01	Ymysg yr offeiriaid hynny a gipiwyd dan **erledigaeth** y Brenin Iago oedd y Cymro John Roberts, Benedictiad.
Carvajal02	Ymhlith yr offeiriad oedd wedi cael eu dal gan **erledigaeth** y Brenin James oedd y Cymro, John Roberts a oedd yn Fenedictiad.
Carvajal03	Un o'r offeiriaid dan **erledigaeth** y brenin Iago oedd Cymro o'r enw John Roberts, mynach oedd yn perthyn i urdd Sant Benedict.
Carvajal04	Ymysg yr offeiriaid a gafodd eu **herlid** yng nghyrch Brenin Iago oedd y Cymro a'r Benedictiad John Roberts.
Carvajal05	Roedd Cymro ymhlith yr offeriaid oedd yn cael eu **herlid** gan y Brenin Iago, sef John Roberts, Benedictiad.
Carvajal06	Ymysg yr offeiriad a oedd yn cael eu **herlyn** gan y Brenin Iago oedd y Cymro John Roberts a oedd yn Fenedictiad.
Carvajal07	Ymysg yr offeiriaid a gafodd ei hunain yn rhan o'r **erledigaeth** dan law'r Brenin Iago oedd y

	Benedictiad o Gymro, John Roberts.
Carvajal08	Ymhlith yr offeiriaid a ddaliwyd yn **erledigaeth** y Brenin Siâms oedd y Cymro John Roberts a oedd yn Fenedictiad.
Carvajal09	Ymysg yr offeiriaid hynny a gafodd eu **herlid** gan y brenin Iago roedd y Cymro John Roberts –Benedictiad.
Carvajal10	Ym mhlith yr offeiriaid hynny a oedd yn cynnwys yn **erlid** y Brenhines James oedd y Cymro John Roberts, Benedictiad.
Carvajal11	Ymysg yr offeiriaid hynny a gafodd eu **herlid** gan y Brenin Iago oedd y Cymro John Roberts, o'r urdd Benedictaidd.
Carvajal12	Ymysg yr offeiriaid a ddaliwyd ynghanol **erledigaeth** y Brenin Iago, roedd y Cymro John Roberts o urdd Sant Bened.

Yn yr un modd, ni chafwyd trafodaeth eang gan y marcwyr am y cyfieithiad o "condemnation". Dewisodd 10 allan o'r 12 cyfieithydd gadw enw yn eu cyfieithiadau (gw. Tabl 18 isod) ac amlygodd "condemniad anochel" yn wyrdd yn achos Carvajal01 a Carvajal02; gwyddys bod Marciwr A yn ddefnyddio'r lliw hwnnw i dynnu sylw at gynigion da.

Tabl 18: Cyfieithu "condemnation"

Rhif	ST: After the inevitable **condemnation**, Luisa sent him pear tartlets. (Carvajal, llau. 19-20)
Carvajal01	Ar ôl y **condemniad** anochel, anfonodd Luisa dartledi gellyg draw iddo.
Carvajal02	Yn dilyn y **condemniad** anochel, anfonodd Luisa deisennau gellyg bychain iddo.
Carvajal03	Wedi'r **condemniad** anochel, gyrrodd Luisa dartenni gellyg iddo.
Carvajal04	Wedi'r **condemnio** anochel, fe anfonodd Luisa dartledi gellygen iddo.
Carvajal05	Yn dilyn ei **gondemnio** nid annisgwyl anfonodd Luisa dartledau gellyg ato.
Carvajal06	Ar ôl y **ddedfryd** anochel, anfonodd Luisa dartledi gellyg ato.
Carvajal07	Ar ôl y **condemniad** anorfod, anfonodd Luisa dartennau bach gellyg iddo.
Carvajal08	Wedi'r **gollfarn** anochel, anfonodd Luisa dartledi gellyg ato.
Carvajal09	Wedi'r **condemniad** anochel, anfonodd Luisa dartennau bach gellyg iddo.
Carvajal10	Ar ôl y **condemniad** anochel, anfonai Luisa dartennau gellyg ato.
Carvajal11	Ar ôl y **condemniad** anorfod gyrrodd ato gacennau bach o ellyg.
Carvajal12	Wedi'r **condemniad** anochel, anfonodd Luisa dartennau bach gellyg iddo.

Wedyn, wrth drafod cynnig Carvajal04, sef "y condemnio anochel", nododd Marciwr C: "Defnyddiodd amryw 'ddedfryd anochel' yma ac rwy'n credu bod hyn yn taro deuddeg". Ymddengys felly o'r ychydig sylwadau hyn fod y marcwyr yn ffafrio cadw'r enw yn yr achos hwn.

Ceir crynodeb o'r patrymau cyfieithu hyn yn Ffigwr 28b isod.

Ffigwr 28b: Enwau haniaethol yn y testun 'Carvajal'

Gwelwyd, felly, y gall rhai enwau haniaethol ymyrryd mewn testunau Cymraeg sydd wedi'u cyfieithu o'r Saesneg, lle y byddai defnyddio berfenw yn fwy naturiol yn Gymraeg. Nodwyd hefyd fod y math o gystrawen yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses ymyrryd. Er enghraifft, canran isel iawn o'r cyfieithwyr yn y gweithdai, sef 10% yn unig, gafodd eu dylanwadu gan y testun ffynhonnell wrth drosi ymadroddion a oedd yn cynnwys dau enw mewn cyfosodiad, o gymharu â 41% yn achos ymadroddion genidol disgrifiadol a 74% yn achos enwau ar ôl arddodiaid. Cadarnhawyd hyn pan welwyd yr un enw yn ymyrryd yn y testun targed i raddau gwahanol iawn mewn gwahanol gystrawennau.

Ond mae'n ddigon posibl, wrth gwrs, y gallai defnyddio enwau haniaethol fel hyn adlewyrchu datblygiad newydd yn y Gymraeg. Er mwyn bod yn sicr, felly, mai ymyrraeth sydd ar waith, penderfynwyd chwilio corpws o destunau Cymraeg nad oedd wedi eu cyfieithu am batrymau tebyg. Cyflwynir y canlyniadau yn yr adran nesaf.

4.5 Cymharu'r canlyniadau ag iaith corpws *Cysill ar-lein*

O ystyried y pwysigrwydd o gymharu tebyg at ei debyg, barnwyd y dylid cyfyngu'r chwilio yng nghorpws *Cysill ar-lein* i chwiliadau am enghreifftiau o un o'r enwau haniaethol a drafodwyd uchod. "Consultation" (a droswyd yn "ymgynghoriad"/"ymgynghori" yn y

corpws cyfochrog) oedd yr enw a ddewiswyd, a hynny am resymau hollol ymarferol: nid adwaenir ffurfiau treigledig ar eiriau gan y rhaglen goncordans *MonoConc Pro 2.2* ac felly bu angen dewis enw sy'n cychwyn â llafariad yn y Gymraeg er mwyn sicrhau i'r rhaglen ddod o hyd i bob enghraifft ohono. Fodd bynnag, o gofio yr ychwanegir y gytsain 'h' at eiriau sy'n dechrau â llafariad o dan rai amgylchiadau penodol (gw. Thomas 1996:704-5), chwiliwyd am 'hymgynghoriad' hefyd.

Daethpwyd o hyd i 54 enghraifft o'r enw haniaethol "ymgynghoriad" yn y corpws a rhestrir pob un ohonynt yn Nhabl 19 isod. Er mai'r cyd-destun cyfagos yn unig a geir yn y tabl (fel yn Nhabl 20), rhoddir brawddegau cyfan wrth drafod yr enghreifftiau yn nes ymlaen. Dylid cofio, serch hynny, ei bod yn bosibl iawn y bydd nifer o wallau gramadeg a sillafu yn y dyfyniadau gan mai'r hyn a roddir yma yw enghreifftiau o'r testunau cyn, nid ar ôl, iddynt gael eu cywiro gan *Cysill ar-lein*.

Tabl 19: Enghreifftiau o'r enw "ymgynghoriad" yn y corpws

Rhif	Enghraifft	Rhif	Enghraifft
1	ei ddatblygu wedi ymgynghoriad gyda chyrff perthnasol	28	Ffurfiodd yr ymgynghoriad ran o'r cyfnod
2	gweinidog bod yr ymgynghoriad ar y strategaeth	29	Ymgynghoriad Safonau Ieuenctid
3	y Wylfa - heb ymgynghoriad o unrhryw fath	30	wedi cynnal tri ymgynghoriad
4	cynulliad i groesawu'r ymgynghoriad a ddaeth i	31	ar y ddogfen ymgynghoriad efo pobl ifanc
5	gweinidog y byddai ymgynghoriad TAN 6 yn	32	ar gyfer eu ymgynghoriad nhw
6	llywodraeth yn cyhoeddi ymgynghoriad drafft ynglyn a	33	ychwanegol yn yr ymgynghoriad a doedd o
7	Ymgynghoriad byw gyda phobl	34	fel rhan o'r ymgynghoriad
8	a chyhoeddi eu ymgynghoriad ar gynllun newydd	35	Penderfynwyd mewn ymgynghoriad ag Is-bwyllgor Ansawdd
9	Benfro wedi cwblhau ymgynghoriad am y taliadau	36	blwyddyn o ystyriaeth, ymgynghoriad a chynllunio manwl
10	yn ystod yr ymgynghoriad	37	bryd ac mae ymgynghoriad wedi'i gynllunio ar
11	yn agored am ymgynghoriad rhwng Mawrth ac	38	ar gyfnod o ymgynghoriad yn ddiweddar
12	gyhoeddodd y llywodraeth ymgynghoriad ar strategaeth tlodi	39	a Glannau Dyfrdwy ymgynghoriad ar Fframwaith Cynhwysiant
13	newydd, sydd dan ymgynghoriad ar hyn o	40	Wrth lansio'r ymgynghoriad galwodd y Gweinidog
14	fel ran o'r ymgynghoriad, yn enwedig yn	41	Fel rhan o'r ymgynghoriad cynhelir pedwar digwyddiad
15	Elystan Morgan mewn ymgynghoriad agos â phobl	42	wnaeth ymateb i'w ymgynghoriad ar gnydau GM
16	Yn yr ymgynghoriad yma, dengosir fod	43	arweinyddiaeth parhaus, ymrwymiad, ymgynghoriad, hyfforddiant a chefnogaeth
17	unrhyw drafodaeth nac ymgynghoriad gyda cyrff allweddol	44	Bydd ein ymgynghoriad ffurfiol ar ein
18	yn ystod yr ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth	45	yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn eu
19	egni yn destun ymgynghoriad cyhoeddus	46	Bydd ein ymgynghoriad mewnol yn gwahodd
20	ystyried cynnwys yr ymgynghoriad gyda chyrff perthnasol	47	Cyflwyno ein Ymgynghoriad ar y Cynllun
21	wedi bod dan ymgynghoriad yn ddiweddar ac	48	a chwmpas yr ymgynghoriad hwn
22	ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r undebau ffermio	49	Dyddiad cau yr ymgynghoriad hwn ydy 24

23	y wybodaeth am ymgynghoriad y Strategaeth Iaith	50	o ymatebion yr ymgynghoriad hefyd ar gael
24	a dderbynir o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyluniad	51	rhan yn yr ymgynghoriad hwn
25	nad oedd yr ymgynghoriad ar strwythyr y	52	dilyn diwedd yr ymgynghoriad byddwch yn cyhoeddi
26	pedwar prif elfen; ymgynghoriad gyda grwpiau sy'n	53	eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys
27	yn ystod yr ymgynghoriad ar y mesur	54	o ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar achosion

Wrth archwilio cyd-destun agos pob enghraifft o "ymgynghoriad", daeth pum chategori o gydleoliad y gair i'r amlwg. Disgrifir y categorïau hyn isod:

Ffigwr 29: Cydleoliadau'r enw haniaethol "ymgynghoriad"

Y fannod benodol / enw priod

Fel y'i gwelir, defnyddiwyd yr enw haniaethol gan amlaf wrth gyfeirio at ymgynghoriadau neilltuol. Mewn 21 o'r achosion — sef 39% o'r holl enghreifftiau — cafodd yr enw ei ddefnyddio naill ai ar ôl y fannod benodol neu wedi'i ddilyn gan enw priod yr ymgynghoriad, fel y dengys y ddwy enghraifft isod:

> Dywedodd y gweinidog bod **yr ymgynghoriad** ar y strategaeth wedi dod i ben gwanwyn a bydd strategaeth terfynol yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2010. (Tabl 19, Rhif 2)
>
> Dywedodd y gweinidog y byddai **ymgynghoriad TAN 6** yn gorffen ar 16 Hydref, 2009 ac y byddai'n rhoi'r diweddaraf yn dilyn hynny. (Tabl 19, Rhif 5)

Dangosolyn ac ati

At hynny, cafwyd 12 enghraifft lle y defnyddiwyd yr enw gyda dangosolyn, rhagenw blaen neu rifolyn, gan ddiriaethu'r enw i raddau helaeth, fel y'i gwelir yn y tair enghraifft a ganlyn:

> Dyddiad cau **yr ymgynghoriad hwn** ydy 24 Medi 2010. (Tabl 19, Rhif 49)

> Cyflwyno **ein Ymgynghoriad** ar y Cynllun Cydraddoldeb Sengl. (Tabl 19, Rhif 47)

> Gwadodd yr honiadau nad oedd wedi bod yn agored ynglyn â diwygio'r cynghorau iechyd cymunedol, a'i bod wedi cynnal **tri ymgynghoriad**. (Tabl 19, Rhif 30)

Y fannod amhenodol

Fodd bynnag, roedd 6 enghraifft yn y corpws o'r enw heb fannod — neu gyda'r fannod amhenodol ("a" yn Saesneg), a bod yn fanwl gywir — felly ni ddefnyddiwyd yr enw *bob tro* i gyfeirio at gysyniad penodol, e.e.

> Mae [enw priod] yn ymgymryd â gwaith ychwanegol ar hyn o bryd ac mae **ymgynghoriad** wedi'i gynllunio ar gyfer yr haf hwn ynghylch y modd mae risg sylweddol yn cael ei benderfynu. (Tabl 19, Rhif 37)

Arddodiad

Gwelwyd hefyd 8 enghraifft o'r enw yn cael ei ddefnyddio o fewn ymadrodd arddodiadol, e.e.

> Yn ystod ymchwiliad i dlodi tanwydd ar 26 Tachwedd 2009, dywedodd y gweinidog y byddai'r strategaeth newydd, sydd **dan ymgynghoriad** ar hyn o bryd, yn targedu mwy o bobl dan anfantais. (Tabl 19, Rhif 13)

Yn olaf, cafwyd rhai enghreifftiau a ddigwyddodd unwaith yn unig, ac felly nid oes modd bod yn bendant yn eu cylch. Er enghraifft, cafwyd yr enghraifft ganlynol o'r enw yn gweithredu fel ansoddair, ond wrth drafod y berfenw "ymgynghori" yn nes ymlaen, gwelir mai'r berfenw a ddefnyddir mewn cystrawen fel hon fel arfer, a barnu yn ôl nifer yr enghreifftiau:

> Eisiau rhoi'r logo ar **y ddogfen ymgynghoriad** efo pobl ifanc ryda ni yn ei roi at ei gilydd. (Tabl 19, Rhif 31)

At ei gilydd, felly, mae'r defnydd o'r enw mewn testunau nad ydynt yn gyfieithiadau yn gyson â'r hyn a welwyd yn y gwaith cyfieithu uchod. Hynny yw, defnyddiwyd yr enw fwyaf yn y gwaith cyfieithu ar ôl y fannod (benodol neu amhenodol) neu'r rhagenw blaen.

Bid a fo am hynny, nodwyd yn 4.4 uchod fod y marcwyr wedi tynnu sylw at nifer o achosion lle y troswyd enw haniaethol yn y testun Saesneg gan enw haniaethol yn y cyfieithiad, pan fyddai wedi bod yn fwy naturiol defnyddio'r berfenw yn Gymraeg. Er mwyn gwirio ai ymyrraeth gan yr iaith Saesneg yn ystod y broses gyfieithu (yn hytrach na ddatblygiad newydd yn y Gymraeg) oedd defnyddio'r enw yn y fath gystrawennau, aethpwyd ati i chwilio corpws *Cysill ar-lein* am enghreifftiau o'r berfenw "ymgynghori" yn ogystal. Cafwyd 84 enghraifft ohono yn y corpws, fel y dengys Tabl 20 isod.

Tabl 20: Enghreifftiau o'r berfenw "ymgynghori" yn y corpws

Rhif	Enghraifft	Rhif	Enghraifft
1	Cymru a'r Grwp Ymgynghori Niwclear wedi cael	43	am y gwaith ymgynghori gyda phobl ifanc
2	dechnegau ar gyfer ymgynghori gyda plant iau	44	roedda nhw yn ymgynghori
3	pam y dylem ymgynghori gyda plant iau	45	rhedeg hyfforddiant ac ymgynghori ar gyfranogaeth, chwarae
4	rhai blynyddoedd, wedi ymgynghori Aelodau Cynulliad a'r	46	i roi proses ymgynghori briodol a chadarn
5	Y sesiwn ymgynghori a gynhaliwyd yn	47	cais am swydd ymgynghori neu feddyg teulu
6	unrhyw ystyriaeth nac ymgynghori wedi digwydd	48	fod angen gwell ymgynghori cyhoeddus tra bod
7	nad oes unrhyw ymgynghori wedi cymryd lle	49	cymorth i ddefnyddwyr, ymgynghori a datrys problemau
8	unrhyw fath o ymgynghori	50	ond yn dilyn ymgynghori ag ardaloedd eraill
9	10:10 Sesiwn Ymgynghori Economi Gwyrdd i	51	o drefnu digwyddiadau ymgynghori yn gyfarfodydd cyhoeddus
10	13:30 Sesiwn Ymgynghori Trafnidiaeth	52	rhesymau pellach dros ymgynghori â disgyblion
11	Ymgynghori gyda plant, pobl	53	cyngor ysgol a ymgynghori a chyfranogi ymysg
12	gynnwys theori, dulliau ymgynghori a datblygu strwythur	54	rhai o buddion ymgynghori a chyfranogaeth disgyblion
13	o gyfarfodydd i ymgynghori â'r cyhoedd	55	ystod eang o ymgynghori ers 2007
14	Gwaith ymgynghori a strategaeth gwleidyddol	56	rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori ar draws Prydain
15	Bydd yn ymgynghori a'ch hysbysu	57	Amrywiaeth, y Pwyllgor Ymgynghori Cefnogaeth Dysgu a
16	Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i	58	a chynllunio i ymgynghori yr haf hwn
17	Ymgynghori â'r ysgol ynglyn	59	Ymgynghori mwy ymarferol am
18	rhaid i ni ymgynghori ag asiantaethau eraill	60	a diogelwch ac ymgynghori cymdeithasol yn y byd
19	y gweinidog yn ymgynghori ar strategaeth newydd	61	Asesiad Effaith Amgylcheddol, ymgynghori, caniatau, diwydrwydd dyladwy
20	cynnwys y pecyn ymgynghori gyda cyrff perthnasol	62	staff llawn i ymgynghori ar y Cynllun
21	ymateb i broses ymgynghori'r Llywodraeth y DU	63	eang o astudiaethau ymgynghori ledled y DU
22	neud digon i ymgynghori cymunedau ynglyn â	64	amrywiaeth o gomisiynau ymgynghori yn y sector
23	dechrau ar broses ymgynghori i weld os	65	o brofiad mewn ymgynghori a gwerthuso economaidd
24	Nd yw'r broses ymgynghori hwn wedi dechrau	66	economeg, mae profiad ymgynghori [enw priod] wedi canolbwyntio

25	Prosiect a Gwahoddiad Ymgynghori	67	ynni trwy waith ymgynghori ac yn y
26	fod rhagor o ymgynghori cyn i'r llywodraeth	68	sy'n darparu gwasanaethau ymgynghori ar ddatblygu prosiectau
27	Mae'n amhosib ymgynghori ar fesur cyn	69	fe oruchwyliodd prosiect ymgynghori cymunedol manwl yn
28	Bwriadwn ymgynghori â'r cyhoedd a	70	gweithdai ar gyfer ymgynghori gyda phobl ifanc
29	i ddarparu gwasanaethau ymgynghori	71	Mae fformiwla ymgynghori a fformiwla o
30	i ddarparu gwasanaethau ymgynghori	72	cyfle i'r cyngor ymgynghori â'r sector er
31	chwilio am gyfleoedd ymgynghori dilynol neu ailadroddol	73	Ar ol broses ymgynghori, penderfynodd yr undeb
32	Ymgynghori â chydweithwyr a	74	yn y broses ymgynghori
33	eraill o'r tîm ymgynghori, yn y gweithrediad	75	cynhelir pedwar digwyddiad ymghynhori ar draws Cymru
34	gymhwysedd y tîm ymgynghori	76	ôl y cyfnod ymgynghori, y disgwyl yw
35	pwysig o aseiniadau ymgynghori	77	y profiad o ymgynghori ag amryw o
36	eraill ar sail ymgynghori	78	ddatblygu, byddwn yn ymgynghori eto ar ychwanegiadau
37	adeg y proses ymgynghori	79	ôl i'n cyfnod ymgynghori ffurfiol gau ar
38	gychwyn y cyfnod ymgynghori i drafod yn	80	Byddwn felly yn ymgynghori yn fewnol ac
39	ar gyfer pwrpasu ymgynghori a chynnwys barn	81	Rydym yn ymgynghori ar ein Cynllun
40	Galluogodd broses ymgynghori i'r ddau Goleg	82	ymatebion i'r papur ymgynghori hwn
41	Mae'r broses ymgynghori wedi darparu cyfle	83	Bydd y papur ymgynghori hwn ar agor
42	Cafodd y ddogfen ymgynghori ei ddatblygu ar	84	yn cynnig gwasanaethau ymgynghori a hyfforddiant yr

Yma, hefyd, daeth pum chategori i'r amlwg, wrth archwilio'r cyd-destun agos (gw. Ffigwr 30 isod).

Berf gyfansawdd

Ffurfiodd y berfenw ran gynhenid o ferfau cyfansawdd[35], sef (geiryn berfol +) berf gynorthwyol + ategydd + berfenw, mewn sawl un o'r enghreifftiau yn y corpws, e.e.

> **Bydd yn ymgynghori** a'ch hysbysu. (Tabl 20, Rhif 15)
>
> Wrth i'n cynllun ddatblygu, **byddwn yn ymgynghori** eto ar ychwanegiadau pwysig neu newidiadau iddo. (Tabl 20, Rhif 78)

[35] Sylwer y defnyddir y term 'berf gwmpasog' neu 'berf beriffrastig' gan rai gramadegwyr (gw. Thomas 1996:81b)

Ffigwr 30: Cydleoliadau'r berfenw "ymgynghori" (1)

Gwelir bod llawer o'r enghreifftiau yng nghorpws *Cysill ar-lein* yn defnyddio'r berfenw mewn gwahanol fathau o ymadrodd. O gofio'r enghreifftiau cyfieithu lle'r oedd angen i'r cyfieithwyr newid cystrawen y frawddeg i gael testun Cymraeg naturiol, a hynny yn aml drwy ddefnyddio ymadrodd berfol yn lle enw haniaethol, gellir gofyn a yw'r un peth yn wir am enghreifftiau corpws *Cysill ar-lein*.

Mewn geiriau eraill, mae'n bosibl bod y berfenw naill ai'n rhan o ymadrodd berfol neu, fel y gwelwyd yn y cyfieithiadau, yn ffordd o fynegi cysyniad a fynegir yn Saesneg mewn enw haniaethol. Cofier, er enghraifft, fel yr awgrymodd Marciwr B y dylasai cyfieithydd Hafren13 newid "ar gyfer ymgynghoriad" yn "i ymgynghori yn eu cylch" yn y cyfieithiad isod:

> ST: *The plan for a barrage from Cardiff to Weston-super-Mare was one of five short-listed for* ***consultation***. (Hafren, ll. 6)
> TT: Roedd y cynllun am forglawdd o Gaerdydd i Weston-super-Mare yn un o bump gyrhaeddodd y rhestr fer **ar gyfer ymgynghoriad**. (Hafren13)

Yn yr un modd, roedd angen i'r cyfieithwyr yng ngweithdy Carvajal drawsddodi'r enw "execution" yn ymadrodd berfol yn y ddwy frawddeg isod:

ST: *To everyone's surprise including her own, she steadily assumed a prominent role within London's underground Catholic community ... consoling prisoners awaiting* ***execution****, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad.* (Carvajal, llau. 9-12)
TT: Er syndod i bawb, gan gynnwys hi ei hun, fe ddaeth yn raddol i chwarae rôl flaenllaw yng nghymuned Babyddol danddaearol Llundain ... gan gysuro carcharorion a arhosai **i gael eu dienyddio**, mewnforio llyfrau gwaharddedig, a helpu Pabyddion oedd yn cael eu herlid i ddianc dramor. (Carvajal04)

ST: *Throughout this time she ran the risk of imprisonment and possibly even* ***execution****, yet she managed to avoid this ultimate fate in spite of being arrested on a number of occasions.* (Carvajal, llau. 12-13)
TT: Trwy gydol yr adeg honno bu mewn perygl o **gael ei** dedfrydu i'r carchar neu'i **dienyddio** o bosib, eto bu'n llwyddiannus i osgoi'r penyd eithaf hwn er gwaethaf cael ei harestio cynifer o weithiau. (Carvajal01)

Mae'n ddigon posibl, felly, fod nifer o'r brawddegau yng nghorpws *Cysill ar-lein* sy'n cynnwys y berfenw fel rhan o ferf gyfansawdd neu fel rhan o ymadrodd berfol, yn enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Gymraeg yn mynegi enwau haniaethol mewn gwirionedd, fel y dengys y cyfieithiad posibl o'r enghraifft isod o'r corpws:

Byddwn felly yn **ymgynghori** yn fewnol ac yn allanol am 13 wythnos o 28 Mehefin i 24 Medi 2010. (Tabl 20, Rhif 80)
Cyfieithiad posibl: *We shall therefore be undertaking internal and external* ***consultations*** *over a period of 13 weeks from 28 June to 24 September 2010.*

Rhaid ac ati

Nodwyd hefyd 14 o enghreifftiau o'r berfenw mewn cystrawennau lle y byddid yn disgwyl gweld berfenw yn y Gymraeg, megis mewn cystrawennau gyda'r enw 'rhaid' yn ddibeniad (Thomas 1996: 556-7), e.e.:

Fe all y bydd adegau pan fydd ein pryder dros eich plentyn yn golygu bod yn rhaid i ni **ymgynghori** ag asiantaethau eraill hyd yn oed cyn i ni gysylltu gyda chi. (Tabl 20, Rhif 18)

Arddodiad

Cafwyd hefyd nifer o enghreifftiau o'r berfenw mewn ymadroddion arddodiadol. Yn yr ymadroddion hyn mae modd defnyddio'r enw haniaethol yn hytrach na'r ferf wrth gyfieithu i'r Saesneg. Er enghraifft:

O fewn cyd-destun ysgol mae statws statudol ABCh a'r gofyniad i bob ysgol gynradd a gynhelir (ac eithrio babanod a meithrin) sefydlu cyngor ysgol yn rhesymau pellach **dros ymgynghori** â disgyblion. (Tabl 20, Rhif 52)
Cyfieithiad posibl: *Within a school setting, the statutory status of PSE and the fact that each primary school (excluding the infants and nursery) is required to establish a school council, are further reasons* ***for holding consultations*** *with pupils.*

Mae'n edrych yn debygol iawn, felly, fod yr achosion niferus hynny a welwyd yn y gwaith cyfieithu o enwau haniaethol ar ôl arddodiad (e.e. S. for consultation > C. ar gyfer ymgynghoriad) neu yn lle enwau haniaethol heb fannod — benodol neu amhenodol — yn y Saesneg (e.e. S. awaiting execution > C. yn aros dienyddiad) yn enghreifftiau o ymyrraeth gan yr iaith Saesneg.

Enw

Yn ddiddorol, cafwyd y rhan fwyaf o enghreifftiau o'r berfenw "ymgynghori" — 45 enghraifft gyda'i gilydd — mewn cystrawen lle ceir dau enw mewn cyfosodiad. Mae'r enw haniaethol yn y Saesneg yn gweithredu'n ansoddeiriol ac yn cael ei drosi gan ferfenw yn y Gymraeg. Mae'r gystrawen honno yn debyg i'r un a welwyd yng ngweithdy Hafren:

ST: *It could create as many as 18,000* ***construction jobs*** *but some government and industry bean-counters argue that the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere.* (Hafren, llau. 11-12)
TT: Gall y cynllun hwn greu gymaint ag 18,000 o **swyddi adeiladu**, ond mae rhai gwrthwynebwyr y llywodraeth a diwydiant yn dadlau y byddai'r £22 biliwn yn well yn cael ei wario'n rhywle arall. (Hafren01)

Fel y nodwyd yn 4.4, troswyd yr enw haniaethol yn enw (h.y. "swyddi adeiladwaith") gan 10% o'r cyfieithwyr yn y gweithdy, ond yn ôl tystiolaeth corpws *Cysill ar-lein*, y berfenw a ddefnyddir mewn cystrawennau o'u bath yn Gymraeg.

Berfenw: Cafodd **y ddogfen ymgynghori** ei ddatblygu ar y cyd i gefnogi'r broses hon. (Tabl 20, Rhif 42)

Wrth gyfieithu'r frawddeg hon i'r Saesneg, yr enw haniaethol a fyddai'n cael ei ddefnyddio:

The **consultation document** was jointly developed in order to support this process.

Un enghraifft yn unig o ddefnyddio'r enw haniaethol a gafwyd yng nghorpws *Cysill ar-lein* wrth gymharu â 45 enghraifft gyda'r berfenw:

Enw: Eisiau rhoi'r logo ar **y ddogfen ymgynghoriad** efo pobl ifanc ryda ni yn ei roi at ei gilydd. (Tabl 19, Rhif 31)

Awgryma hyn mai ymyrraeth gan y testun Saesneg yw peidio â newid yr enw yn ferfenw wrth drosi dau enw mewn cyfosodiad, lle y mae'r enw haniaethol yn y Saesneg yn gweithredu'n ansoddeiriol.

Genidol disgrifiadol

Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o'r berfenw mewn ymadrodd genidol disgrifiadol, lle y tueddir i ddefnyddio berfenw yn hytrach nag enw os bydd yr elfen ddibynnol yn goddef y weithred yn hytrach na'i chyflawni. Cofier enghraifft gweithdy Hafren lle y nododd y marciwr, "Teg dweud hefyd fod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'dinistrio' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'dinistrio cynefinoedd pwysig'":

ST: *Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the* ***destruction*** *of vital habitats.* (Hafren, llau. 9-10)
TT: Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd pwysig. (Hafren05)

Fodd bynnag, wrth ystyried y gystrawen honno, sylweddolwyd na fyddai hi'n bosibl gyda'r berfenw "ymgynghori", gan i'r berfenw hwnnw gael ei ddilyn gan yr arddodiad "â" yn hytrach na chael ei ddilyn yn syth gan wrthrych. Bu'n rhaid, felly, chwilio corpws *Cysill ar-lein* am ferfenw arall o enghreifftiau'r corpws cyfochrog na chaiff ei ddilyn gan arddodiad. Chwiliwyd, felly, am enghreifftiau o "adeiladwaith"/"adeiladu".

Nid oedd enghraifft o'r enw "adeiladwaith" yng nghorpws *Cysill ar-lein*, ond cafwyd 46 enghraifft o'r berfenw "adeiladu". Dyma un ohonynt:

Mae'r cyfluniant "CAT" yn ymyl Machynlleth yn cefnogi'r **adeiladu felinau gwynt** oherwydd maen nhw'n meddwl mae'n ffordd hyfyw a ddewisol i greu ynni 'glan'.
Cyfieithiad posibl: *The Centre for Alternative Technology near Machynlleth supports* ***the construction of wind turbines*** *because they think it a viable alternative means of creating 'clean' energy.*

Ymddengys mai'r berfenw ac nid yr enw a ddefnyddir mewn ymadroddion genidol disgrifiadol o'r fath hon yn y Gymraeg, ac felly, roedd y defnydd o'r enw mewn nifer o gyfieithiadau yn y corpws cyfochrog yn enghraifft arall o ymyrraeth gan y testun Saesneg.

O dderbyn, felly, fod ymyrraeth ar waith, oes modd rhaglennu'r gwirydd gramadeg

Cysill i ddelio â hi? Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, mae'n rhaid dechrau drwy ail-edrych ar ddosbarth geiriau yn y Gymraeg.

4.6 Cyfatebiaeth berfenwau ac enwau yn Gymraeg a'r Saesneg

Mae'r duedd i ddefnyddio berfenw yn y Gymraeg pan gaiff enw ei ddefnyddio yn y Saesneg yn un a amlygir mewn nifer o eiriaduron Saesneg-Cymraeg cyfoes. Er enghraifft, wrth chwilio *Geiriadur yr Academi* am ddau o'r enwau a drafodir yn y gwaith dadansoddi uchod — sef "consultation" a "construction" — deuir o hyd i'r berfenwau "ymgynghori" ac "adeiladu" ymysg y rhestr o ddewisiadau Cymraeg (Griffiths & Jones 1995:294):

Ffigwr 31: Ciplun o *Geiriadur yr Academi*

consultation *n.* **1.** *(action):* ymgynghoriad(-au) *m,* ymgynghori *vn;* **joint consultation,** cydymgynghori *vn.* **2.** *(=discussion):* trafodaeth(-au) *m,* trafod *vn;* **to hold a consultation,** ymgynghori (**about sth,** *ynghylch rhth);* trafod, trin a thrafod (rhth).

construction *n.* **1.** *(a) (action):* adeiladu *vn*, codi *vn*, saernïo *vn*; **a house under construction** *or* **in course of construction,** tŷ yn cael ei adeiladu; *(b) (=building):* adeilad(-au) *m*; *(c) Art: Ph: Mth:* lluniad(-au) *m*; *(d) (=make-up, workmanship):* adeiledd *m*, saernïaeth *f*, gwneuthuriad *m*, adeiladwaeth *m*; **construction industry** *n.* diwydiant *(m)* adeiladu. .../

Yn yr un modd, rhestrir y berfenw "adeiladu" ymhlith y dewisiadau o dan yr enw "construction" yn y casgliad o eiriaduron electronig *Cysgeir*, fel y gwelir isod:

Ffigwr 32: Ciplun o *Cysgeir*

Ar y llaw arall, yn *Y Termiadur,* er i'r golygyddion dynnu sylw at y duedd hon, ac annog cyfieithwyr i "gofio bod sawl cyd-destun lle dylid newid enw yn ferfenw wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg er mwyn cadw cystrawen naturiol Gymraeg", cadw cyfatebiaeth dosbarth geiriau y mae *Y Termiadur* ar y cyfan, gan ddewis cyfyngu'r enghreifftiau o ferfenw yn Gymraeg yn cyfateb i enw yn Saesneg i dermau aml-air, e.e. "construction technology" yn Saesneg yn cyfateb i "technoleg adeiladu" yn Gymraeg. A'r rheswm dros hynny? Oherwydd bod "adegau pan fo angen enw yn Gymraeg i gyfateb i enw yn Saesneg" (Prys, D. *et al* 2006: Canllawiau/Rhagair). A dyna bwynt dyrys ein hymchwil — sut i raglennu *Cysill* fel y bydd modd i'r feddalwedd adnabod pan fo angen enw a phan fo angen berfenw yn ei le? Yn amlwg, mae cyfeirio at "enwau" yn gyffredinol yn hollol annigonol yn hyn o beth. Efallai y gallem ddod yn nes i'r lan wrth bennu pa fath yn union o enwau sy'n troi yn ferfenwau mewn testunau Cymraeg.

Enwau rhif ac enwau cynnull

Yn ôl Quirk *et al* (1985:247), mae modd rhannu enwau yn ôl cyfrifadwyedd a dyma un o'r rhaniadau mwyaf sylfaenol yn Saesneg. Hynny yw, ceir enwau y mae modd eu cyfrif a elwir yn "enwau rhif" a cheir, ar y llaw arall, enwau na ellir eu cyfrif na llunio ffurf luosog iddynt a elwir yn "enwau cynnull". Mae'r enw "cat", er enghraifft, yn enw rhif tra bod yr enw "butter" yn enw cynnull, fel y dengys isod:

There were three **cats** in the garden.	[ENW RHIF]
*There were three **butters** on the table.[36]	
There was **butter** on the table.	[ENW CYNNULL]

Serch hynny, yn Saesneg mae'n bosibl i rai enwau berthyn i'r ddau grŵp, gan ddangos yr hyn a elwir yn "dual class membership", fel yr amlyga'r tair enghraifft isod (Quirk *et al* 1985:247):

He's had several odd **experiences**.	[ENW RHIF]
He hasn't had much **experience**.	[ENW CYNNULL]
There were bright **lights** and harsh **sounds**.	[ENW RHIF]
Light travels faster than **sound**.	[ENW CYNNULL]
She will give a **talk** on Chinese art.	[ENW RHIF]
That's foolish **talk**.	[ENW CYNNULL]

[36] Defnyddir seren (*) i nodi cystrawen anramadegol.

Wrth ystyried yr enw "consultation", a oedd yn sail i'r gwaith dadansoddi yn 4.4 a 4.5 uchod, mae'n eglur ei fod yn un o'r enwau hyn a all berchen i'r ddau ddosbarth. Er enghraifft, enw rhif ydyw yn y frawddeg gyntaf isod, ond enw cynnull yn yr ail frawddeg:

> Gwadodd yr honiadau nad oedd wedi bod yn agored ynglyn â diwygio'r cynghorau iechyd cymunedol, a'i bod wedi cynnal **tri ymgynghoriad**. (Tabl 19, Rhif 30)
> ***Cyfieithiad posibl:*** *She denied the allegations that she had not been open about changes to the community health councils, and that she had held* ***three consultations****.* [ENW RHIF]
>
> Ddylai fod rhagor o **ymgynghori** cyn i'r llywodraeth gyhoeddu'r mesur? (Tabl 20, Rhif 26)
> ***Cyfieithiad posibl:*** *Should there be further* ***consultation*** *before the government publishes the bill?* [ENW CYNNULL]

O archwilio'r ddwy frawddeg uchod, ynghyd â'r enghreifftiau eraill o gorpws *Cysill ar-lein*, gwelir y defnyddir yr enw "ymgynghoriad" pan fo "consultation" yn enw rhif ond, yn ddiddorol iawn, y **berfenw** "ymgynghori" a ddefnyddir pan fo'n enw cynnull.

Mae'r un peth yn wir am enghreifftiau o gronfa ddata *TermCymru*. Fel y'i gwelir o'r ddau deitl swydd isod, defnyddir enw yn y Gymraeg yn lle'r enw rhif Saesneg ond y berfenw a geir yn lle'r enw cynnull:

S. ***Consultations*** *and liaison officer*	[S. ENW RHIF]
C. Swyddog **ymgyngoriadau** a chyswllt	[C. ENW]
S. ***Consultation*** *and liaison officer*	[S. ENW CYNNULL]
C. Swyddog **ymgynghori** a chyswllt	[C. BERFENW]

Sylwodd golygydd *Termau Hybu Iechyd* ar yr egwyddor gyffredinol hon yn ôl yn 2000, fel yr esbonia'r paragraff canlynol:

> Defnyddir 'mass noun' a 'count noun' i ddisgrifio enwau yn Saesneg. Mae 'mass noun' yn cyfeirio at bethau na ellir eu rhifo ac nad oes modd creu lluosog ar eu cyfer, ac **yn aml iawn, defnyddir y berfenw i gyfateb iddynt yn y Gymraeg**. Mae 'count noun' ar y llaw arall yn cyfeirio at rywbeth y gellir ei rifo a'i fynegi yn y lluosog, a **defnyddir enw i gyfateb iddo yn Gymraeg**. (Prys 2000:Rhagair)

O hynny ymlaen, dechreuodd geiriaduron termau safonedig y Gymraeg ddosbarthu enwau yn ôl cyfrifiadwyedd lle roedd modd, ac mae golygyddion *Y Termiadur,* wrth esbonio bod "rhai geiriaduron cyfoes Cymraeg yn rhoi berfenw i gyfieithu enw Saesneg er mwyn atgoffa'r Cymro i beidio ag efelychu'r gystrawen Saesneg", yn ychwanegu, "ond mae adegau

pan fo angen enw yn Gymraeg i gyfateb i enw yn Saesneg, **yn enwedig gyda rhifolion**. (Prys, D. *et al* 2006: Canllawiau/Rhagair).

Ymddengys, felly, mai'r cyfan sydd ei angen yw neilltuo a thagio enwau cynnull o fewn rhaglen *Cysill* a chreu rheol newydd er mwyn gwneud yn siŵr bod berfenwau yn cael eu defnyddio yn eu lle. Ond, yn anffodus, mae'r dosbarth "enwau cynnull" yn un eang iawn, ac yn cynnwys pob math o eiriau eraill megis "butter", fel y nodwyd uchod. Yn amlwg, ni fyddai modd defnyddio berfenw yn y Gymraeg yn lle'r fath enwau. Mae'n rhaid, felly, fod gan yr enwau dan sylw nodweddion arbennig eraill.

Enwau diriaethol ac enwau haniaethol

Esbonia Quirk *et al* (1985:247) y gall enwau rhif ac enwau cynnull gael eu hisrannu ymhellach yn ôl nodweddion semantig sy'n amlygu natur ddiriaethol neu haniaethol y gwrthrych. Fel y mae'n dywed:

> Cutting across the grammatical and semantic count/noncount distinction, there is a semantic division into nouns ... which are CONCRETE (*ie* accessible to the senses, observable, measurable, etc) and nouns ... which are ABSTRACT (typically nonobservable and nonmeasurable).

Gellir gweld y berthynas rhwng y gwahanol ddosbarthiadau yn y siart isod.

Ffigwr 33: Prif ddosbarthiadau enwau

Ffynhonnell (wedi'i chyfieithu): Quirk *et al* (1985:247)

Wrth drafod y defnydd o ferfenwau yn lle enwau yn 4.4 a 4.5 uchod, cofier i farcwyr y cyfieithiadau bwysleisio mai enwau haniaethol oedd yr holl enwau dan sylw, gan nodi bod angen "defnyddio'r berfenw yn lle enw **haniaethol**" (Hafren 27) am fod "y Saesneg yn fwy hoff o enwau **haniaethol** nag yw'r Gymraeg" (Hafren05). Ceir adlais o hyn yng ngwaith Gruffudd (2005:65), wrth iddo ddatgan: "Mae'r Saesneg yn hoff o enwau **haniaethol**, ond yn y Gymraeg mae'n well defnyddio enwau diriaethol, ansoddeiriau neu ferfenwau", a rhy'r enghraifft ganlynol:

S. *The captain showed his displeasure with the team's* ***performance****.*
C. Nid oedd y capten yn hapus â **chwarae**'r tîm.

Yn yr un modd, wrth drafod darnau o arholiadau'r Gymdeithas, ynghyd ag enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus a welwyd wrth farcio'r darnau hynny, mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn atgoffa darpar gyfieithwyr fod "yr iaith Saesneg yn fwy tueddol o ddefnyddio enwau **haniaethol** nag yw'r Gymraeg", gan gynghori: "Lle bo hynny'n bosibl, dylid defnyddio berfenw i gyfleu'r enw **haniaethol**".[37]

Fodd bynnag, o edrych yn fanylach ar yr ystod o enwau cynnull haniaethol a geir yn yr iaith Saesneg, daw'n amlwg yn syth na fyddai'n bosibl defnyddio berfenwau yn eu lle bob amser wrth drosi i'r Gymraeg. Er enghraifft, os ydym am gyfleu'r enw cynnull haniaethol "energy" yn Gymraeg, yr enw haniaethol "ynni" a ddefnyddir, fel y'i gwelir yn yr ychydig enghreifftiau isod o *TermCymru*:

S. solar energy	>	C. ynni'r haul
S. low energy bulb	>	C. bwlb rhad-ar-ynni
S. Baglan Energy Park	>	C. Parc Ynni Baglan
S. Minister for Energy	>	C. Gweinidog dros Ynni

Felly os na chaiff pob un enw cynnull haniaethol Saesneg ei droi yn ferfenw yn Gymraeg, mae'n rhaid bod modd isrannu enwau ymhellach.

[37] Gw. gwefan CCC, sef http://www.welshtranslators.org.uk/ymarferion-111.aspx, lle y ceir nifer o ymarferion i'w defnyddio gan ddarpar gyfieithwyr fel gwersi hunan-ddysgu. Cyfeiria'r dyfyniad at waith cyfieithu aflwyddiannus yn Ymarfer 4 (Cystrawen 3).

Enwau sydd wedi deillio o ferfau ("deverbal nouns")

Wrth drafod yr enwau haniaethol yn y darnau i'w cyfieithu yn 4.4 uchod, sylwyd ar y gwahanol ôl-ddodiaid. O archwilio'r ôl-ddodiaid hynny, gwelwyd bod o leiaf tri math o enw haniaethol: sef y rheiny a oedd wedi deillio o enwau eraill (e.e. "child**hood**"– Carvajal ll.5); y rheiny a oedd wedi deillio o ansoddeiriau (e.e. "inevitabil**ity**" – BF ll.3); ac wedyn y rheiny a oedd wedi deillio o ferfau (e.e. "consult**ation**" – Hafren ll.6).[38] Roedd hefyd grŵp arall o enwau haniaethol, megis "health" (Carvajal ll.19), nad oeddynt wedi deillio o unrhyw ddosbarth gair arall (Radden & Dirven 2007:84).

Nodwyd mai'r enwau haniaethol a oedd wedi deillio o ferfau ("deverbal nouns") oedd yr enwau a achosodd ymyrraeth yn y cyfieithiadau, fel y gwelwyd yn yr enghraifft isod gyda'r enw "destruction":

> ST: *Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the **destruction** of vital habitats. (Hafren, llau. 9-10)*
> TT: Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd pwysig. (Hafren05)
> Sylw: Teg dweud hefyd fod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'dinistrio' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'dinistrio cynefinoedd pwysig'.

Mae'r math hwn o enw, sef enw sydd wedi deillio o ferf, yn dra chyffredin yn Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn wir, dangosodd astudiaeth ddiweddar o dua 2000 o frawddegau Saesneg i dros hanner ohonynt gynnwys o leiaf un enw a oedd wedi deillio o ferf (Gurevich *et al* 2006:670). Ond pam caiff berfenwau eu defnyddio weithiau wrth gyfieithu'r enwau hyn i'r Gymraeg, a thro arall caiff enwau eu defnyddio?

Enwau canlyniad ac enwau proses

Yn aml iawn, cyfeiria'r enwau hyn at ddigwyddiadau[39], ond gwelir gwahaniaeth cynnil o ran eu hystyr, fel yr esbonia Andersen (2007:164):

> Most deverbal nouns are event referring, but some have a dynamic, process meaning of an event and others refer to the result of the event and have a static, result meaning.

[38] Gw. Quirk *et al* 1985:1548-1551 am restr lawn o ôl-ddodiaid Saesneg a'u harwyddocâd.
[39] Gall enwau yn y grŵp hwn hefyd gyfeirio at bethau eraill, megis lleoliad, pwrpas neu amser. Am restr lawn o'r dosbarthiadau, gw. Kastovsky (1985:223-226).

O ganlyniad, dosberthir yr enwau hyn yn "enwau canlyniad" ac "enwau proses"[40] (Gurevich *et al* 2006:672), ond fel y mae Andersen yn esbonio ymhellach, gall nifer o'r enwau hyn fod yn enwau canlyniad **ac** yn enwau proses, gan feddu ar y ddau ystyr:

> Many deverbal nouns can have both these meanings [a dynamic, process meaning of an event and a static, result meaning]. This is a phenomenon called logical polysemy ... One of the most central and widespread types of logical polysemy concerns the distinction between process and result meanings of event referring nouns ...

Rhy Andersen y ddwy frawddeg Saesneg ganlynol fel enghraifft, gan egluro'r ddau ystyr:

> Standard control valve *insulation*.
> *"Insulation" refers to an unspecified, generic, complex process event.*
> The *insulation* in the walls was combustible.
> *"Insulation" refers to the result of the process of insulation, in this case the material used in the process.*

Mae'n dilyn y cyfeirir at yr enwau hyn fel "enwau hybrid". Wrth ystyried yr enwau a drafodwyd yn 4.4 a 4.5 uchod, enwau megis "consultation" a "destruction", daw'n eglur mai dyma'r union fath o enwau sydd dan sylw, sef enwau a all gyfleu **naill ai**'r broses o wneud rhywbeth **neu** ganlyniad y broses honno. Er enghraifft, yn y frawddeg gyntaf isod, cyfeiria'r enw "consultation/s" at dri ymgynghoriad neilltuol sydd wedi eu cynnal yn y gorffennol a cheir ystyr sefydlog i'r enw, tra bo'r ail enghraifft yn cyfeirio at y broses ymgynghori ei hun, proses a fydd yn parhau dros gyfnod o amser:

> Gwadodd yr honiadau nad oedd wedi bod yn agored ynglyn â diwygio'r cynghorau iechyd cymunedol, a'i bod wedi cynnal **tri ymgynghoriad**. (Tabl 19, Rhif 30)
> ***Cyfieithiad posibl:*** *She denied the allegations that she had not been open about changes to the community health councils, and that she had held* ***three consultations****.* [CANLYNIAD]
>
> Ddylai fod rhagor o **ymgynghori** cyn i'r llywodraeth gyhoeddu'r mesur? (Tabl 20, Rhif 26)
> ***Cyfieithiad posibl:*** *Should there be further* ***consultation*** *before the government publishes the bill?* [PROSES]

Yr hyn sydd o'r pwys mwyaf cyn belled ag y mae ein hymchwil yn y cwestiwn yw mai un enw â dau ystyr a geir yn y Saesneg, ond dau air gwahanol a geir yn Gymraeg — dau

[40] Sylwer y gelwir "enwau proses" yn "enwau digwyddiad cymhleth", sef "complex event nouns", gan rai ieithyddion (e.e. Grimshaw 1990 *passim*).

ddosbarth gair gwahanol mewn gwirionedd, gan mai enw a ddefnyddir i gyfleu'r ystyr sefydlog ond **berfenw** a ddefnyddir i gyfleu'r ystyr deinamig yn Gymraeg.

Dengys hyn oll mai enwau proses yw'r enwau a gaiff eu trosi gan ferfenwau yn Gymraeg. Mae'n wir dweud eu bod yn enwau haniaethol, ac yn enwau cynnull yn ogystal. Ond y ffaith eu bod nhw wedi deillio o ferfau a bod ganddynt ystyr proses yw nodwedd flaenaf yr enwau hyn, fel y dengys y diagram isod:

Ffigwr 34: Y math o enwau a gyfieithir gan ferfenwau yn Gymraeg

Yn ddiddorol, cynigia corpws *Cysill ar-lein* dystiolaeth ychwanegol o'r ddolen hon rhwng berfenwau a'r ystyr proses. Wrth edrych ar gyd-leoliadau'r berfenw "ymgynghori" yng nghorpws *Cysill ar-lein*, gwelwyd iddo gael ei gyplysu â'r enw "proses" yn fwy nac ag unrhyw enw arall, fel y dengys Ffigwr 35 isod.

Defnyddiwyd y berfenw "ymgynghori" gydag ystod eang o enwau yn y corpws, wrth reswm, ond mewn dros hanner yr enghreifftiau fe'i cafwyd yn rhan o ymadrodd enwol, gyda'r berfenw yn gweithredu'n ansoddeiriol, fel y gwelir yn y graff a'r enghraifft isod:

> Mae'r **cyfnod ymgynghori** yn dod i ben ar ddiwedd wythnos yma. (Tabl 20, Rhif 16)
> ***Cyfieithiad posibl:*** The **consultation period** will come to a close at the end of this week.

Ffigwr 35: Cydleoliadau'r berfenw "ymgynghori" (2)

Dengys y graff fod 18 o'r 23 enghraifft yn enghreifftiau lle na ddefnyddiwyd y berfenw ond un neu ddwywaith gydag enwau megis "gwaith" neu "pecyn". Mae hyn yn arwydd, o bosibl, bod y math hwn o ymadrodd enwol yn gyffredin iawn yn y Gymraeg gan gael ei ddefnyddio gyda thrawstoriad o enwau a berfenwau. Serch hynny, fe'i defnyddiwyd yn amlach gyda'r enwau "gwasanaethau" a "digwyddiadau", ond gan i'r enghreifftiau hyn ddigwydd mewn sawl testun eithaf tebyg i'w gilydd — a wiriwyd gan yr un defnyddiwr o *Cysill ar-lein* — ni chredir bod unrhyw arwyddocâd arbennig i'r ddau enw hyn. Fodd bynnag, mae'n drawiadol sylwi y defnyddiwyd y berfenw gyda'r enw "proses" 9 o weithiau, gyda'r enw "cyfnod" 5 o weithiau, a chyda'r enw "sesiwn" 3 o weithiau, e.e.

> A fyddwch cystal a nodi fod y Llywodraethwyr wedi penderfynu dechrau ar **broses ymgynghori** i weld os bydd yr ysgol yn parhau i gynnig y dewis hwn yn y dyfodol. (Tabl 20, Rhif 23)

Tuedda presenoldeb yr enwau neilltuol hyn i bwysleisio ystyr deinamig y berfenw ac i amlygu natur barhaus y weithred a gaiff ei chyfleu.

Gellir dweud, felly, y defnyddir berfenwau yn y Gymraeg pan ddefnyddir enwau proses yn y Saesneg — ond cedwir yr enw pan ddefnyddir enw canlyniad yn y Saesneg. Bwriedir yn y bennod nesaf gymhwyso'r wybodaeth hon at reolau'r gwirydd gramadeg *Cysill*.

5. CYMHWYSO'R CANFYDDIADAU AT Y GWIRYDD SILLAFU A GRAMADEG '*CYSILL*'

"A rule-based [grammar] checker ... can be built incrementally, starting with just one rule and then extending it rule by rule."

Naber (2003:8)

O dderbyn bod ymyrraeth ar waith pan ddefnyddir enw yn y Gymraeg wrth gyfieithu enw proses o'r Saesneg, ac o gofio y bwriedir yn yr ymchwil hwn ddarganfod a all y gwirydd gramadeg *Cysill* adnabod a chywiro'r fath ymyrraeth, canolbwyntir yn y bennod hon ar gymhwyso canfyddiadau'r gwaith dadansoddi at *Cysill* ei hun.

Trafodir, felly, bensaernïaeth *Cysill* i ddechrau, gan amlinellu'r broses wirio a'r rheolau gramadeg sy'n sail i'r broses, cyn mynd ymlaen i ystyried y posibilrwydd o greu rheolau newydd i'r rhaglen. Dylid cofio, fodd bynnag, fod *Cysill* yn rhaglen fasnachol ac o'i herwydd ni all y drafodaeth hon ddatgelu unrhyw wybodaeth am god mewnol y rhaglen. Yr hyn a gynigir yma, yn hytrach, yw trafodaeth ar lefel gysyniadol. Serch hynny, dylid nodi bod y rheolau newydd a gaiff eu hawgrymu yn ddichonadwy nid yn unig ar lefel gysyniadol, ond hefyd ar lefel dechnegol; trafodwyd y rheolau â pheirianwyr meddalwedd yr Uned Technolegau Iaith ac maent wedi cadarnhau ei bod yn ymarferol bosibl addasu'r rhaglen yn y ffyrdd a awgrymir.

5.1 Pensaernïaeth *Cysill*

Ceir tri phrif ddull o wirio gramadeg yn awtomatig; dull sy'n seiliedig ar gystrawen, dull arall sy'n seiliedig ar ystadegau a thrydydd dull sy'n seiliedig ar reolau (Naber 2003:7). Mae *Cysill* yn wirydd gramadeg sy'n defnyddio'r dull seiliedig ar reolau. Hynny yw, mae gan y rhaglen restr o reolau gramadegol y caiff testunau Cymraeg eu cymharu â nhw er mwyn dod o hyd i wallau gramadegol yn y testunau, ond mae'r broses wirio yn un soffistigedig iawn ac yn cynnwys sawl cam y mae'n rhaid eu gweithredu cyn bod modd cymharu'r testunau â'r rhestr o reolau, fel y dengys Ffigwr 36 a ganlyn.

Ffigwr 36: Proses wirio *Cysill*

Ffynhonnell: Hicks (2004:2)

Fel y gellir gweld o'r siart llif uchod, ar ôl i destun gael ei dderbyn gan *Cysill*, caiff ei docyneiddio. Hynny yw, defnyddir y nodau gofod gwyn yn y testun i wahanu'r geiriau a'r brawddegau, gan greu rhestr lawn o atalnodau a geiriau. O gymryd y paragraff hwn fel enghraifft, byddai'r rhestr yn edrych rhywbeth fel a ganlyn:

```
⟦⟦ˡFelˡ, y, gellir, gweld, o, ⸗ˡ⸗, r, siart, llif, uchod,
(,), ar, ôl, i, destun, gael, ei, dderbyn, gan, ˡ*Cysill*ˡ,
(,), caiff, ei, docyneiddio, ˡ.ˡ⟧, ⟦ˡHynnyˡ, yw, (,),
defnyddir, y, nodau, gofod, gwyn, yn, y, testun, i,
wahanu, ⸗ˡ⸗, r, geiriau, a, ⸗ˡ⸗, r, brawddegau, (,), gan,
greu, rhestr, lawn, o, atalnodau, a, geiriau, ˡ.ˡ⟧, ⟦ˡ0ˡ,
gymryd, y, paragraff, hwn, fel, enghraifft, (,), byddai,
⸗ˡ⸗, r, rhestr, yn, edrych, rhywbeth, fel, a, ganlyn, :⟧⟧
```

Holltir y testun wedyn yn segmentau, sef naill ai yn ymadroddion neu yn frawddegau, cyn y gwirir y sillafu; adnabyddir geiriau sydd wedi'u camsillafu drwy eu cymharu â rhestr sydd mor gyflawn â phosib o eiriau'r iaith Gymraeg ac awgrymir cywiriadau ar sail cymharu pa mor debyg yw gair yn y testun i air a geir yn y rhestr. Rhaid wrth y cam o wirio sillafiad gair, wrth reswm, cyn bod modd dadansoddi morffoleg y geiriau yn y testun.

Caiff pob gair ei dagio'n algorithmig gyda'i lema, categori rhediadau, a dosbarth, neu'r gwahanol ddosbarthiadau os bydd mwy nag un. Er enghraifft,

Gafodd :

/cael/
berf
person 3unigol gorffennol
treiglad meddal

o :

arddodiad syml
NEU arddodiad rhedadwy
NEU rhagenw personol
NEU ebychiad
NEU cysylltair
NEU geiryn gofynnol

Yn dilyn hynny, ail-ddadansoddir gwybodaeth pob gair yng nghyd-destun y frawddeg gyfan er mwyn dadamwyso ymhellach. O ddadansoddi'r frawddeg ganlynol, er enghraifft, byddai'r gair unigol "o" a welwyd uchod yn cael ei dagio'n rhagenw personol yn y cyd-destun hwn:

Gafodd **o**'r anaf i ei ben pan yn teithio?

Ar ôl i'r camau hyn i gyd gael eu cwblhau, mae'r testun yn barod i'w wirio ar gyfer gwallau gramadegol. Golyga hyn gymharu'r segmentau a'r brawddegau sydd wedi'u tagio â'r rhestr o reolau a geir yn rhaglen *Cysill*. Wrth wirio'r frawddeg uchod, er enghraifft, byddai *Cysill* yn dod o hyd i ddau wall gramadegol. Yn gyntaf, nid "ei", sef y rhagenw blaen **rhydd** trydydd person, a ddefnyddir ar ôl yr arddodiad "i" yn Gymraeg, ond "'w", sef y rhagenw blaen **clwm** trydydd person (Thomas 1996:254). Yn ail, defnyddir cymal berfol yn syth ar ôl y cysylltair "pan" fel arfer, ond o ddefnyddio'r berfenw, mae'n rhaid cael y cysylltair "wrth" (Thomas 1996:474, 483-4). Dengys Ffigwr 37 isod sut y mae *Cysill* yn amlygu'r gwallau

hyn, yn ogystal â'r negeseuon a gaiff eu harddangos i'r defnyddiwr. Noder bod y negeseuon hyn yn cynnwys nid yn unig awgrym am gywiro'r gwall ond hefyd esboniad cryno o'r gwall ei hun. Mewn proses gwbl ryngweithiol, penderfyna'r defnyddiwr wedyn a ydy am dderbyn yr awgrym ai peidio. Unwaith i'r awgrym gael ei dderbyn, caiff y testun ei addasu, gw. "i ei" --> "i'w" isod.

Ffigwr 37: Gwirio gwallau gramadeg

Yn anffodus, ni all gwirwyr wedi'u seilio ar reolau byth fod yn "gyflawn" (Naber 2003:8). Hynny yw, ni ellir creu rheolau ar gyfer pob gwall ac felly bydd bob amser gwallau na fydd y gwirydd yn eu hadnabod. Er enghraifft, wrth drafod perfformiad pedwar gwirydd gramadeg Ffrangeg, nododd Burston (1995-6:106-7) fod nifer o wallau yn "anweledig" i bob un o'r gwirwyr dan sylw, gan ddweud:

> Within a sentence, only orthography, inflectional morphology, head/modifier agreement phenomena, and the most nuclear syntactic dependencies (e.g., verb/subject/object) can be treated ... Not surprisingly, because of its inherent semantic nature, pronoun usage goes unmonitored. So, too, given their intrinsically non-nuclear character, errors involving prepositional phrase structure are invisible to the grammar checkers.

Nid yw'r gwirydd gramadeg *Cysill* yn wahanol yn hyn o beth. Er bod gan y Gymraeg nifer o nodweddion o ran ei chystrawen a'i morffoleg — ei system dreiglo a'i morffoleg ffurfdroadol, yn anad dim — sy'n ei gwneud yn iaith addas iawn i gael ei gwirio'n awtomataidd, mae rhai nodweddion semantig, megis cytundeb rhagenwau, na all *Cysill* ddelio â nhw o gwbl. Er enghraifft, o wirio'r frawddeg ganlynol, nid yw'n bosibl i'r rhaglen ddehongli pa enw yn y frawddeg y mae'r rhagenw blaen "ei" yn cyfeirio ato, ac felly nid yw'n awgrymu treiglo'r enw "lle" yn feddal, fel y byddid yn disgwyl (Thomas 1996:257):

> Mae rhagenw'n cytuno â rhif a pherson yr **enw** y mae'n cymryd **ei** *lle.

Fodd bynnag, gall y ffaith nad yw gwirwyr gramadeg wedi'u seilio ar reolau byth yn medru bod yn gyflawn fod yn fantais yn gymaint â bod modd datblygu gwirwyr o'u bath yn gynyddrannol, gyda'r cyfle i ychwanegu rheolau newydd fesul un (Naber 2003:8). Mae hyn o'r pwys mwyaf cyn belled ag mae ein hymchwil ni yn y cwestiwn; mae'n golygu y bydd yn ymarferol bosibl ychwanegu rheolau newydd at *Cysill*, sef rheolau sydd wedi'u teilwra'n arbennig at y broses o gyfieithu ac a fydd yn ymdrin â'r agweddau ar ymyrraeth a nodwyd. Gadewch i ni, felly, edrych ar reolau cyfredol *Cysill*, cyn ystyried y math o reolau newydd fydd eu hangen.

5.2 Rheolau gramadeg *Cysill*[41]

Mae gan raglen *Cysill* ychydig dros 300 o reolau gramadeg cyffredinol, ac ychydig dros 200 o reolau treiglo sy'n ymwneud â chyfnewidiadau i rai cytseiniaid dechreuol dan amodau gramadegol penodol (Hicks 2004:6). Mae pob un rheol wedi cael ei hysgrifennu mewn iaith parth arbennig ac yn cynnwys esboniad cryno o'r gwall a chywiriad tebyg.

Datblygwyd y rheolau fesul un, gan roi'r flaenoriaeth i greu rheolau a all ddelio â chamdreiglo mewn testunau Cymraeg. Ymhlith y rheolau gramadeg cyffredinol mae rheolau sy'n delio â'r defnydd o "os" yn lle "pe", rheolau eraill sy'n delio â'r defnydd o "a" yn lle "â", a rhai eraill sy'n delio â'r defnydd o'r arddodiad anghywir ar ôl berf, megis "gwrando **i**" yn lle "gwrando **ar**", a welir yn yr enghraifft isod:

Ffigwr 38: Cywiro arddodiaid

O ystyried y rheolau hyn i gyd, mae'n eglur mai adnodd iaith cyffredinol yw *Cysill* yn y bôn, ac nid adnodd arbennig at ddefnydd cyfieithwyr yn unig. Nid yw hynny'n golygu nad yw o wasanaeth i gyfieithwyr proffesiynol fel y mae. I'r gwrthwyneb, mae'n bwysig iawn i'r diwydiant gael defnyddio adnoddau iaith cyffredinol. Ond os ydym am addasu'r rhaglen i fod yn adnodd technoleg **cyfieithu**, mae'n rhaid ystyried creu rheolau a fydd yn adnabod yn benodol y math o wallau y mae cyfieithwyr yn dueddol o'u wneud wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Creu rheolau newydd

A derbyn mai'r "peth pwysig wrth gyfieithu yw na ddylai'r darllenydd wybod a yw'r darn y mae e'n ei ddarllen wedi ei gyfieithu" (Gruffudd 2005:9), mae'n eglur mai tasg pob cyfieithydd wrth drosi o un iaith i'r llall yw ceisio osgoi ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell.

[41] Gw. Hicks (2004:4-6) am drafodaeth lawn ar reolau *Cysill*.

O ganlyniad, mae ffocws yr ymchwil hwn wedi bod ar adnabod ymyrraeth gan yr iaith Saesneg mewn cyfieithiadau i'r Gymraeg, gyda'r nod o greu rheolau newydd i'r gwirydd gramadeg *Cysill* allu delio â hi.

Fodd bynnag, wrth bwyso a mesur canlyniadau'r ymchwil, daeth yn eglur yn syth fod rhai mathau o ymyrraeth na fyddai byth modd creu rheolau newydd ar eu cyfer. Er enghraifft, nodwyd yn 4.3.3 uchod mai un o'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yw'r ffordd y mae'r ddwy iaith yn defnyddio'r cadarnhaol a'r negyddol. O ganlyniad, os yw'r cyfieithydd am osgoi ymyrraeth gan y testun ffynhonnell mae'n rhaid iddo ystyried naill ai newid brawddeg gadarnhaol yn un negyddol neu newid brawddeg negyddol yn un gadarnhaol (Gruffudd 2005:35). Ond nid oes rheolau caeth ynglŷn â hyn. Mae'n fater o arfer a chonfensiwn pob iaith, ac mae'n rhaid i'r cyfieithydd fod yn effro iddi. Yn yr un modd, nodwyd y tueddir yn y Gymraeg i ddefnyddio'r modd goddefol yn llawer llai nag y'i defnyddir yn y Saesneg (Gruffudd 2005:50-1), sy'n golygu bod angen i'r cyfieithydd fod yn wyliadwrus o ymyrraeth yma eto. Ond nid oes rheol bendant yn ei gylch; mae'n dibynnu, ymysg pethau eraill, ar gyd-destun ac arddull y darn. Felly, o gofio cyfyngiadau cyffredinol gwirwyr gramadeg, fel y'u nodwyd yn 5.1 uchod, mae'n eglur na fyddai modd i *Cysill* ddelio â'r mathau hyn o ymyrraeth.

Ar y llaw arall, dangosodd ein harolwg fod rhai mathau o ymyrraeth a ganfuwyd yn y testunau Cymraeg **yn** cael eu cywiro gan *Cysill* eisoes, ond bod yr enghreifftiau **penodol** dan sylw heb eu cynnwys yn y rheolau. Nodwyd yn 4.3.1, er enghraifft, i sawl cyfieithydd gynnig cyfieithiad air am air am ambell i ferf ymadroddol idiomatig, tra defnyddir y ferf heb yr adferf, neu ferf hollol wahanol, neu hyd yn oed ymadrodd idiomatig arall yn Gymraeg fel arfer. Er enghraifft, defnyddiwyd "diweddu i fyny" gan gyfieithydd BF13 wrth drosi'r Saesneg "to end up". Mae eisoes gan *Cysill* nifer o reolau sy'n mynd i'r afael ag ymyrraeth gan ferfau ymadroddol idiomatig, fel y dengys y tair enghraifft isod, ond cyfyngir y rheolau hyn i lond dwrn o ferfau ymadroddol idiomatig yn unig, megis "to give up", "to get up" a "to bring up":

S. *to give up*	-->	C. rhoi lan / i fyny	-->	<u>*Cysill*</u>: rhoi'r gorau i
S. *to get up*	-->	C. codi lan / i fyny	-->	<u>*Cysill*</u>: codi
S. *to bring up*	-->	C. dwyn i fyny	-->	<u>*Cysill*</u>: magu

Yn amlwg, nid rheolau newydd sydd eu hangen yn yr achosion hyn. Y cyfan sydd ei angen yw ehangu'r rheolau cyfredol fel bod modd cynnwys nifer o ferfau ymadroddol eraill, megis "to end up", "to miss out", "to sit down" ac ati.

Daw hyn â ni, yn olaf, at y math o ymyrraeth y credir y **bydd** modd creu rheolau newydd ar ei chyfer. Nododd ein harolwg fod yr ymyrraeth fwyaf yn y cyfieithiadau dan sylw wedi codi pan nad oedd cyfieithwyr yn newid dosbarth y geiriau i'w trosi. 'Trawsddodiad' yw'r term technegol a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses hon, fel yr eglura Venuti (2004:132):

> The method called transposition involves replacing one word class with another without changing the meaning of the message. Beside being a special translation procedure, transposition can also be applied within a language.

Cododd nifer o enghreifftiau yn y corpws cyfochrog lle y cadwodd y cyfieithwyr at yr union ddosbarth o air ag oedd yn y testun Saesneg yn hytrach na meddwl am yr hyn a fyddai wedi bod yn addas yn Gymraeg. Yn Carvajal08, er enghraifft, troswyd "the **Spanish** embassy" yn "y llysgenhadaeth **Sbaeneg**", gyda'r cyfieithydd yn dewis defnyddio'r enw priod ar yr iaith, "Sbaeneg", yn hytrach na defnyddio'r enw priod ar y wlad, "Sbaen". Sylw'r marciwr oedd: "Peidiwch â chyfieithu'n llythrennol ond meddyliwch beth y byddech yn ei ddweud yn naturiol yn Gymraeg".

Ond nid ansoddeiriau yn unig oedd yn gyfrifol am y fath hon o ymyrraeth yn y cyfieithiadau. Cafwyd hefyd enghreifftiau o'r angen i newid adferf yn ferfenw ac o'r angen i newid ansoddair + enw haniaethol yn enw haniaethol + ansoddair + arddodiad + ansoddair.

Fodd bynnag, cododd yr ymyrraeth fwyaf o lawer o ganlyniad i gyfieithwyr beidio â newid **enw haniaethol** yn **ferfenw** yn y testun Cymraeg; mewn dros ddeg y cant o'r cyfieithiadau yn y corpws cyfochrog sylwodd y marciwr ar y defnydd o enw yn y testun targed lle y "byddai defnyddio'r berfenw yn fwy cytnaws â'r Gymraeg" a nododd fod "y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg" (Hafren04). Cadarnhawyd hyn gan ddata corpws *Cysill ar-lein*, ond wrth ymchwilio ymhellach canfuwyd mai enwau "hybrid" oedd yr holl enwau Saesneg, mewn gwirionedd — sef enwau â dau ystyr: enwau canlyniad <u>ac</u> enwau proses — a bod y term "haniaethol" yn gamarweiniol yn hyn o beth. Yn fwy diddorol byth, er mai un enw â dau ystyr oedd yn y testunau Saesneg, canfuwyd mai dau ddosbarth gair gwahanol a ddefnyddiwyd wrth drosi'r enwau hyn i'r Gymraeg: berfenw i

gyfleu'r ystyr deinamig/proses, ond enw i gyfleu'r ystyr sefydlog/canlyniad, fel y dengys y ddwy enghraifft isod o gorpws *Cysill ar-lein*:

> Gwadodd yr honiadau nad oedd wedi bod yn agored ynglyn â diwygio'r cynghorau iechyd cymunedol, a'i bod wedi cynnal tri **ymgynghoriad**. (Tabl 19, Rhif 30)
> ***Cyfieithiad posibl:*** *She denied the allegations that she had not been open about changes to the community health councils, and that she had held three* ***consultations***. [YSTYR SEFYDLOG/CANLYNIAD]
>
> Ddylai fod rhagor o **ymgynghori** cyn i'r llywodraeth cyhoeddu'r mesur? (Tabl 20, Rhif 26)
> ***Cyfieithiad posibl:*** *Should there be further* ***consultation*** *before the government publishes the bill?* [YSTYR DEINAMIG/PROSES]

A chofio nad yw'n bosibl i wirwyr gramadeg adnabod semanteg brawddegau, yr her felly yw ceisio creu rheol a fydd yn caniatáu i *Cysill* adnabod pryd mae angen yr enw a phryd mae angen y berfenw yn Gymraeg, a hynny er mwyn osgoi ymyrraeth gan yr iaith Saesneg.

Wrth dderbyn yr her, rhaid dechrau drwy ail-edrych ar enghraifft benodol o'r math hwn o ymyrraeth fel y'i cafwyd yn y gweithdai cyfieithu. Dyma sut y cyfieithwyd yr enw hybrid "destruction" gan rai cyfieithwyr yng ngweithdy Hafren:

> ST: *Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the* ***destruction*** *of vital habitats.* (Hafren, llau. 9-10)
> TT: Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd pwysig. (Hafren05)

Fel y'i gwelir, peidiodd cyfieithydd Hafren05 â newid dosbarth y gair "destruction" yn y testun targed a sylwodd y marciwr: "Byddai defnyddio'r berfenw 'dinistrio' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'dinistrio cynefinoedd pwysig'". Wrth ystyried yr hyn sydd yn y testun targed — oherwydd mai'r testun Cymraeg yn unig a gaiff ei weld gan *Cysill* — mae'n eglur bod rhaid neilltuo a thagio'r enw "dinistriad" (ac enwau tebyg) mewn rhyw ffordd fel y bydd neges wedyn yn ymddangos ar ryngwyneb *Cysill* i rybuddio'r cyfieithydd bod angen berfenw yn ei le.

Ar hyn o bryd, caiff y gair "dinistriad" ei dagio gan *Cysill* fel "*eg*" (enw gwrywaidd), ond yn amlwg bydd angen creu tag manylach o lawer os ydym am neilltuo'r enw hwn ac enwau tebyg a chreu rheolau newydd ar eu cyfer. Mae ein hymchwil eisoes wedi dangos bod yr enw "destruction" yn enw hybrid yn y testun ffynhonnell ond mai enw canlyniad yn unig yw "dinistriad" yn y Gymraeg — os ydy'r cyfieithydd am gyfleu ystyr proses y gair, y

berfenw "dinistrio" a ddefnyddir. Fel cam cyntaf, felly, awgrymir y dylai enwau megis "dinistriad" gael eu hechdynnu a'u tagio fel enwau canlyniad. Ond sut i wneud hynny'n awtomatig o gofio'r miloedd a miloedd o enwau sydd yng ngeiriaduron *Cysgeir*?

Wrth drafod yr enwau yn y darnau i'w cyfieithu yn 4.4 uchod, sylwyd ar y gwahanol ôl-ddodiaid. O archwilio'r ôl-ddodiaid hynny, gwelwyd bod yr enwau hybrid a oedd wedi achosi ymyrraeth i gyd yn rhannu'r ôl-ddodiad Saesneg "-tion", a bod yr ôl-ddodiad hwnnw'n nodweddu enwau haniaethol sydd wedi deillio o ferfau — dwy briodwedd enwau hybrid. Yn Gymraeg, ceir nifer o ôl-ddodiaid a gaiff eu hychwanegu at y bôn berfol i greu enwau haniaethol[42], fel y dengys y tabl isod (gw. Thomas 1996:647-668):

Tabl 21: Rhestr o ôl-ddodiaid enwol a ychwanegir at fonau berfol yn Gymraeg

Ôl-ddodiad	**Disgrifiad**	**Grym**	**Enghreifftiau**
-ad	Cyffredin a chynhyrchiol	Dynodi rhywbeth sy'n gynnyrch cyflawni gweithred y ferf.	Arddodiad, dynwarediad, eisteddiad, honiad, profiad, ysgogiad. *Cyffredin gyda'r bonau yn –ha-,* e.e. arwyddocâd, caniatâd, cyfiawnhad, glanhad, parhad, sicrhad.
-aeth	Tra chyffredin a chynhyrchiol.	Dynodi'r cyflwr neu'r weithred a gysylltir â'r bôn.	Amheuaeth, cydnabyddiaeth, cyfatebiaeth, dirnadaeth, goruchwyliaeth, triniaeth.
-as	Prin ac anghynhyrchiol.	Dynodi'r cyflwr sy'n hynodi'r bôn.	Perthynas, priodas.
-awd	Prin ond fe'i defnyddiwyd mewn rhai bathiadau diweddar.	Dynodi rhywbeth sy'n cyflawni gweithred y ferf.	Agorawd, cyfaddawd.
-dod	Cyffredin a chynhyrchiol.	Cynhyrchu enwau haniaethol	Drewdod, cryndod, myfyrdod, nychdod, poendod, rhyndod.
-eb	Daeth yn gynhyrchiol wrth lunio termau technegol.	Dynodi cynnyrch i weithred y ferf.	Canlyneb, cyllideb, diweddeb, disgynneb.
-ed	Anghynhyrchiol ac wedi ei gyfyngu i nifer fach iawn o enwau.	Dynodi'r ansawdd a gysylltir â'r ferf.	Adduned, caethiwed, colled, cymuned, nodded, syched.
-en	Tra chynhyrchiol.	Dynodi gwrthrych a chanddo briodoleddau'r ferf.	Siglen.
-fa	Cyffredin a chynhyrchiol.	Dynodi'r ansawdd a gysylltir â'r ferf.	Boddfa, cosfa, crasfa, chwalfa, gwlychfa, tagfa.
-iant/-ant	Cymharol brin ac	Dynodi'r ansawdd a gyfleir gan	Adloniant, chwyddiant,

[42] Ychwanegir rhai ôl-ddodiaid at fonau berfol wrth ddisgrifio dynion neu ferched, e.e. "cardotyn". Nis cynhwysir yn y tabl.

	anghynhyrchiol hyd yn ddiweddar, pryd y dechreuwyd ei ddefnyddio mewn termau technegol.	weithred y ferf.	disgyrchiant, ffyniant, llwyddiant, tyfiant.
-yn	Tra chynhyrchiol.	Dynodi cynnyrch cyflawni gweithred y ferf.	Echdynnyn.

O ystyried yr enghreifftiau a geir yn y tabl, gwelir bod gan bob un ohonynt ystyr sefydlog, ond **hefyd** bod modd defnyddio berfenw yn eu lle i gyfleu'r ystyr proses. Mae hyn hyd yn oed yn wir am enwau megis "priodas" a "siglen", fel yr amlyga'r ddwy enghraifft isod o GyrA (tt. 867, 1424):

S. marriage → S. **marriage** vow --> C. adduned **priodas**

S. marriage → S. **marriage** licence --> C. trwydded **briodi**

S. swing → S. **swing** and tyre frame --> C. **siglen** deiar

S. swing → S. **swing** boat --> C. cwch **siglo**

Ymddengys, felly, fod enwau sy'n cynnwys unrhyw un o'r ôl-ddodiaid a restrir uchod yn enwau canlyniad, gan feddu hefyd ar ystyron proses a gyflëir gan y berfenw. Ond yn anffodus, caiff y rhan fwyaf o'r ôl-ddodiaid a restrir uchod eu hychwanegu hefyd at fonau nad ydynt yn fonau berfol, gan greu enwau nad ydynt yn enwau canlyniad o gwbl. Er enghraifft, ychwanegir yr ôl-ddodiad "-awd" at rifolion i greu enwau sy'n dynodi "amser sy'n gysylltiedig â'r bôn" e.e. "deg" + "-awd" = "degawd", ac ychwanegir yr ôl-ddodiad "-aeth" at enwau gwrywaidd i ddynodi "tir a lywodraethir gan yr enw gwrywaidd", e.e. "esgob" + "-aeth" = "esgobaeth" (Thomas 1996:662,652). Byddai echdynnu a thagio'r holl enwau sy'n cynnwys yr ôl-ddodiaid a restrir uchod felly yn arwain at sefyllfa lle byddai llawer o enwau nad ydynt yn enwau canlyniad yn cael eu tagio'n anghywir, gan sbarduno negeseuon

cyfeiliornus gan *Cysill* yn y pen draw. At hynny, wrth ystyried y nifer fawr o enwau sy'n cynnwys yr ôl-ddodiaid dan sylw, byddai tagio'r holl enwau yn golygu bod y defnyddiwr yn cael negeseuon di-rif, gan arafu'r broses wirio'n sylweddol. Mae cyflymder y broses wirio a chywirdeb y negeseuon ymysg rhagofynion mwyaf sylfaenol unrhyw wirydd gramadeg, wrth reswm (Naber 2003:4). A oes unrhyw ffordd arall felly o echdynnu a thagio enwau canlyniad yn awtomatig?

Wrth drafod enwau canlyniad yn 4.6 uchod gwelwyd bod y rhan fwyaf ohonynt (77%) yn cynnwys yr ôl-ddodiad "-(i)ad", e.e. "ymgynghoriad", "dinistriad", "dienyddiad". O ganolbwyntio ar dagio dim ond yr enwau sy'n cynnwys yr ôl-ddodiad hwn gellid osgoi'r peryglon a drafodwyd uchod ond yn dal i sicrhau bod *Cysill* yn mynd i'r afael â chanran uchel iawn o achosion o ymyrraeth. Dengys GPC, tt. 33, 3693, fod yr ôl-ddodiad "-(i)ad" yn cael ei ychwanegu at sawl bôn i greu gwahanol fathau o enwau nad ydynt yn enwau canlyniad (gw. Ffigwr 39 isod). Ond gellir anwybyddu'r enwau a lunnir drwy gyfuno enwau ar wledydd â'r ôl-ddodiad i greu enwau diriaethol a ddynoda frodorion o'r gwledydd hynny, e.e. "Norwy" + "-ad" = "Norwyad" (*a Norwegian*) a'r enwau a lunnir drwy gyfuno bonau berfol â'r ôl-ddodiad i greu enwau diriaethol a ddynoda'r rhai sy'n cyflawni gweithred y ferf, e.e. "ymlusg" + "-iad" = "ymlusgiad" (*a reptile*). Yn wahanol i'r enwau canlyniad yn y dosbarth sy'n ffurfio eu lluosog yn "-au", mae'r ddau grŵp hyn yn ffurfio eu lluosog yn "-(i)aid", ac o'i herwydd byddai'n bosibl rhedeg chwiliad ar eu cyfer a'u hanwybyddu wedyn yn ystod y broses dagio.

Ffigwr 39: Yr ôl-ddodiad "-(i)ad" yn GPC

-ad[1], trf. be., e.e. *adeilad*, mewn e., e.e. *llygad*, mewn a., e.e. *crwydrad, gorddyfnad*.

-iad[1], -ad[2] *oldd. enw.* ll. (fel rheol) *–au*, a arferir yn dra chyff. i lunio enwau sy'n dynodi gweithred bf. a'i chanlyniad, haniaeth, &c., e.e. *adroddiad, arferiad, cariad, casgliad, cymhelliad, dechreuad, dehongliad, digwyddiad, dilead, dychweliad, golchiad, gwelediad, lledaeniad, neilltuad, penodiad, rhediad, syniad, teimlad, toriad.*

-iad[2], -ad[2] *oldd. enw.* ll. *–(i)aid*, yn dynodi gweithredydd, e.e. *ceidwad, ceim(i)ad, datgeiniad, deiliad, ehediad, geilwad, hebryngiad, lleiddiad, trychiad, ymlusgiad.*

-iad[3], -ad[2] *oldd. enw.* ll. *–(i)aid*, yn dynodi'r math o berson y cyfeirir ato, y dosbarth y mae'n perthyn iddo, y genedl y mae'n aelod ohoni, &c., e.e. *Affricaniad, deïstiad, Eseniad, Ethiopiad, Ewropead, Groegiad, Israeliad, Norwyad, Rhufeiniad.*

Ffynhonnell: GPC, tt. 33, 3693

Mae hyn yn gadael rhestr o enwau canlyniad a grŵp bach o enwau eraill sydd wedi'u ffurfio o enwau haniaethol, e.e. "dydd" + "-iad" = "dyddiad" (Thomas 1996:662). Cymerwyd sampl o'r holl enwau hyn, a chanfuwyd mai 9% yn unig sy'n perthyn i'r dosbarth olaf hwn a byddai'n bosibl felly naill ai eu dileu â llaw, neu eu cynnwys yn y gwaith tagio (gweler y ciplun isod am y rhestr o eiriau dan sylw).

Ffigwr 40: Geiriau yn *Cysgeir* sy'n cynnwys yr ôl-ddodiad "-(i)ad"

Fodd bynnag, nid yw'n ddigonol tagio pob enw canlyniad fel bod neges yn ymddangos ar ryngwyneb *Cysill* bob tro y defnyddir enw canlyniad i rybuddio'r cyfieithydd bod angen berfenw yn ei le achos, fel y gwelwyd wrth drafod data corpws *Cysill ar-lein* yn 4.5, weithiau mae angen **cadw**'r enw canlyniad. Er enghraifft, ni fyddai'r berfenw yn cael ei ddefnyddio yn y frawddeg isod, a hynny oherwydd bod ystyr canlyniad/sefydlog i'r enw "consultation":

> Gwadodd yr honiadau nad oedd wedi bod yn agored ynglyn â diwygio'r cynghorau iechyd cymunedol, a'i bod wedi cynnal **tri ymgynghoriad**. (Tabl 19, Rhif 30)

Felly, a chofio nad yw'n bosibl i wirwyr gramadeg adnabod semanteg brawddegau, rhaid ystyried a oes modd i *Cysill* ddefnyddio'r cyd-destun cyfagos i adnabod pryd mae

angen yr enw a phryd mae angen y berfenw? Gan mai cyd-destun cyfagos y berfenw sy'n bwysig, edrychwn unwaith eto ar ddefnydd y berfenw yng nghorpws *Cysill ar-lein*.

Wrth drafod testunau Cymraeg naturiol yng nghorpws *Cysill ar-lein* yn 4.5, gwelwyd bod y rhan fwyaf o enghreifftiau o ferfenwau mewn cystrawen debyg i'r un yng ngweithdy Hafren, lle roedd dau enw mewn cyfosodiad yn y testun ffynhonnell ("construction jobs"). Mae'r enw cyntaf yn gweithredu'n ansoddeiriol ac yn cael ei drosi gan ferfenw ("adeiladu") yn Gymraeg naturiol ond gwelwyd bod 10% o'r cyfieithwyr yn y gweithdy yn defnyddio'r enw canlyniad mewn cystrawennau o'r fath, a bod y testun ffynhonnell yn dylanwadu ar eu penderfyniadau:

> ST: *It could create as many as 18,000* ***construction jobs*** *but some government and industry bean-counters argue that the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere.* (Hafren, llau. 11-12)
> TT: Gallai creu cymaint â 18,000 **swydd adeiladwaith** ond dadlau rhai llygaid y geiniog yn y llywodraeth a diwydiant taw'r £22 biliwn gallai'n costio y byddai'n cael ei wario yn well mewn man arall. (Hafren22)

A fyddai'n bosibl felly greu rheol fel y byddai *Cysill* yn dod o hyd i "enw" + "enw canlyniad" ac yn rhoi neges yn awgrymu bod y cyfieithydd yn defnyddio'r berfenw yn ei le? Ni fyddai, yn anffodus, oherwydd, fel y dengys yr enghraifft isod o gorpws *Cysill ar-lein*, gall y patrwm "enw" + "enw canlyniad" ddigwydd mewn cystrawennau lle nad oes angen newid yr enw canlyniad o gwbl:

> Ar 9 Tachwedd fe gyhoeddodd y **llywodraeth ymgynghoriad** ar strategaeth tlodi tanwydd newydd. (Tabl 19, Rhif 12)

Fel y gwelir, goddrych y ferf yw'r enw cyntaf "llywodraeth", tra mae'r enw canlyniad "ymgynghoriad" yn wrthrych iddi, ac felly byddai'n gyfeiliornus awgrymu newid yr ail enw yn ferfenw gan mai cystrawen hollol wahanol sydd yma.

Yn yr un modd, gwelwyd ymyrraeth gan enwau canlyniad mewn ymadroddion genidol disgrifiadol, lle y tueddir yn Gymraeg i ddefnyddio berfenw yn hytrach na'r enw os bydd yr elfen ddibynnol yn goddef y weithred yn hytrach na'i chyflawni. Er enghraifft, defnyddiwyd yr enw canlyniad "dinistriad" yn y frawddeg isod, yn lle'r berfenw "dinistrio" — a baglodd y cyfieithydd wrth drosi cystrawen y genidol hefyd:

> ST: *Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the* ***destruction*** *of vital habitats.* (Hafren, llau. 9-10)

TT: Mae ymgyrchwyr fel RSPB Cymru wedi cwyno'n erbyn y **dinistriad** o gynefinoedd pwysig. (Hafren05)

A fyddai modd felly raglennu *Cysill* i adnabod enghreifftiau o enwau canlyniad mewn ymadroddion genidol disgrifiadol ac awgrymu bod y cyfieithydd yn defnyddio'r berfenw? Yma eto, ni fyddai hynny'n bosibl, oherwydd bod y patrwm hwnnw'n hollol ddilys mewn cyd-destunau eraill, fel y dengys yr enghraifft isod o *TermCymru*:

S: *Report of the Child Poverty Task Group Consultation*
C: Adroddiad ar **Ymgynghoriad y Grŵp** Gorchwyl Tlodi Plant

Ceir yma ymadrodd genidol disgrifiadol, ond mae'r elfen ddibynnol ("y Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant") yn cyflawni'r weithred yn hytrach na'i goddef, a defnyddir yr enw canlyniad yn hytrach na'r berfenw.

Mae'n eglur, felly, nad oes modd dibynnu ar y cyd-destun wrth geisio creu rheol ar gyfer y fath hon o ymyrraeth. O'i herwydd, awgrymir y dylai *Cysill* ddangos neges bob tro y defnyddir enw canlyniad, gan ofyn i'r cyfieithydd a oes angen berfenw yn ei le, fel y dangosir isod.

Ffigwr 41: Neges newydd bosibl

Byddai isddewislen wedyn yn esbonio'r cyd-destunau gwahanol yn Gymraeg sy'n gofyn am ferfenw yn lle'r enw canlyniad. Mae *Cysill* eisoes yn caniatáu dewisiadau o ran negeseuon sillafu a gramadeg lle y gellir derbyn, ymhlith pethau eraill, eiriau a therfyniadau anffurfiol, felly byddai'n bosibl cynnig dewis newydd i gyfieithwyr, e.e. 'Dangos negeseuon i

gyfieithwyr', y byddai modd ei ddewis neu ei ddiffodd. O ganlyniad, ni fyddai negeseuon fel hyn i gyfieithwyr yn mynd yn fwrn ar bawb.

Felly, i gloi, er nad oes modd bod yn gynhwysol ynghylch y defnydd o ferfenw yn lle enw wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, byddai modd creu rheol i *Cysill* sy'n anfon neges at y cyfieithydd i'w atgoffa i ystyried trawsddodiad.

6. CASGLIADAU

"Mae dylanwad y Saesneg ar y Gymraeg yn ffaith."

Thomas (1996:11)

Mae'r ymchwil hwn wedi canolbwyntio ar ddadansoddi ymyrraeth yng nghyd-destun cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, gyda'r nod o gymhwyso'r canfyddiadau at y gwirydd gramadeg *Cysill*, a hynny er mwyn gwella'r broses gyfieithu. Seiliwyd y gwaith dadansoddi ar ddata o ddau gorpws, sef corpws cyfochrog o gyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg a chorpws *Cysill ar-lein,* sy'n cynnwys testunau Cymraeg heb eu golygu.

Cyflwynir yn y bennod olaf hon brif gasgliadau'r ymchwil; rhoddir yn 6.1 grynodeb o ganlyniadau'r dadansoddi gyda thrafodaeth am faterion o bwys. Wedyn, wrth gloi'r traethawd, awgrymir yn 6.2 sawl maes lle y gellid cynnal ymchwil pellach.

6.1 Crynodeb o'r canlyniadau

- **Agwedd marcwyr arholiadau cyfieithu profiadol at ymyrraeth**

Cychwynnwyd ar y gwaith dadansoddi drwy gasglu gwybodaeth empirig am yr hyn yr oedd tri marciwr arholiadau cyfieithu profiadol yn ei ystyried yn dderbyniol a'r hyn yr oeddynt, ar y llaw arall, yn ei ystyried yn annerbyniol mewn gwaith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

A barnu wrth sylwadau'r tri marciwr, **roeddynt yn effro iawn i'r posibilrwydd o ymyrraeth gan y testun ffynhonnell, ac roeddynt yn amlwg yn ystyried y fath ymyrraeth yn wall yn y testun targed.** Dro ar ôl tro, pwysleisiwyd yr angen i beidio â chyfieithu'n llythrennol ac i gynhyrchu cyfieithiadau a oedd yn "darllen fel darnau o Gymraeg gwreiddiol".

- **Arolwg o ymyrraeth**

Rhestrwyd a chategoreiddiwyd pob enghraifft o ymyrraeth a nodwyd ar y cyfieithiadau gan y marcwyr a **chanfuwyd bod y rhan fwyaf o achosion o ymyrraeth (62%) yn perthyn i'r categori 'idiom'**. Defnyddiwyd y term 'idiom' wrth gyfeirio at idiomau pur ('priod-ddulliau'), trosiadau, berfau ymadroddol idiomatig ac ymadroddion idiomatig. Cawsant i gyd eu cyfieithu yn llythrennol yn y cyfieithiadau dan sylw, gyda'r cyfieithwyr yn dilyn union eiriad y Saesneg yn hytrach na defnyddio ymadroddion a phriod-ddulliau naturiol Cymraeg. Gwelwyd bod hyn yn gyffredin wrth gyfieithu unrhyw iaith; wrth ystyried idiom y cyfieithiad, mwy na dim byd arall efallai, mae'n bosibl barnu calibr y cyfieithydd.

Ond nid idiom oedd yr unig achos o ymyrraeth ar y cyfieithiadau yn y corpws. **Cafwyd hefyd ymyrraeth ar lefel yr eirfa (8%).** Gwelwyd ansicrwydd ynghylch y defnydd o'r lluosog a'r unigol a chafwyd ymyrraeth o ran cywerthedd geirfaol. Gall dewis y geiriau iawn fod yn broblem wirioneddol wrth gyfieithu, ac felly mae angen i'r cyfieithydd ddefnyddio geiriaduron yn ofalus iawn. Wrth ystyried yr ymyrraeth ar lefel eirfaol a welwyd, daeth dau beth i'r amlwg. Yn gyntaf, efallai nad oes digon o eiriaduron Cymraeg ar gael sy'n cynnig y wybodaeth ychwanegol y mae cyfieithydd da yn chwilio amdani ac yn ail ymddengys nad yw llawer o gyfieithwyr yn hollol siŵr sut i ddefnyddio hyd yn oed geiriaduron sy'n gynhwysfawr.

Yn olaf, **nodwyd ymyrraeth a lefel gystrawennol a oedd yn gyfrifol am 30% o'r achosion o ymyrraeth** a welwyd yn y corpws cyfochrog. Mae bob tro reolau ynghylch sut y gellir cyfuno geiriau i gyfleu ystyr. Y rheolau hyn, yn y bôn, yw cystrawen yr iaith ac wrth gyfieithu gall diffyg cywirdeb cystrawennol fod yn arwydd o ymyrraeth gan y testun ffynhonnell. Wrth ddadansoddi sylwadau'r marcwyr yn yr e-weithdai, daethpwyd o hyd i saith categori o ymyrraeth ar lefel y gystrawen. Peidio â newid dosbarth geiriau oedd yn gyfrifol am ymyrraeth mewn nifer o gyfieithiadau'r corpws cyfochrog, tra bo diffyg pwyslais yn y testun targed yn faen tramgwydd i gyfieithwyr eraill. At hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithwyr yn dilyn trefn geiriau'r testun ffynhonnell, yn cadw'r cyflwr cadarnhaol yn hytrach na throi at y cyflwr negyddol (ac i'r gwrthwyneb) ac yn defnyddio modd goddefol y ferf yn hytrach na throi at y modd gweithredol. Yn ogystal, cyfieithwyd ymadroddion nad oedd eu hangen yn y testun Cymraeg ac achosodd y genidol drafferth i sawl cyfieithydd. Fodd bynnag, er i bob un o'r categorïau hyn

sbarduno rhywfaint o ymyrraeth gystrawennol yng nghyfieithiadau'r corpws, **roedd yn amlwg bod yr ymyrraeth fwyaf yn codi o beidio â newid dosbarth y geiriau i'w trosi.** 'Trawsddodiad' yw'r term technegol a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses hon. Cododd nifer o enghreifftiau yn y corpws cyfochrog lle roedd y cyfieithwyr yn cadw at yr union ddosbarth o air ag oedd yn y testun Saesneg yn hytrach na meddwl am yr hyn a fyddai wedi bod yn addas yn Gymraeg. Yn eu plith, **roedd nifer sylweddol o enghreifftiau lle y troswyd enw haniaethol yn y testun ffynhonnell gan enw haniaethol yn y Gymraeg yn hytrach na defnyddio'r berfenw.** Oherwydd y nifer uchel o gyfieithiadau a oedd yn cynnwys yr enghraifft hon o ymyrraeth ac oherwydd ystyriaethau ymarferol o ran rhaglennu *Cysill* i ddelio â hi, penderfynwyd ymchwilio i'r fath hon o ymyrraeth.

- **Defnyddio'r berfenw yn lle'r enw wrth drosi**

Canfuwyd tueddiad i ddefnyddio berfenwau yn Gymraeg — lle y defnyddir enwau yn Saesneg — **mewn ymadroddion genidol disgrifiadol**, os bydd yr elfen ddibynnol yn goddef y weithred yn hytrach na'i chyflawni. Defnyddir berfenwau hefyd **mewn ymadroddion lle y ceir dau enw mewn cyfosodiad yn Saesneg**, gyda'r enw cyntaf yn gweithredu'n ansoddeiriol. At hynny caiff **rhai enwau sy'n dilyn arddodiaid** yn y Saesneg eu cyfieithu gan ferfenwau yn y Gymraeg.

Nodwyd hefyd fod y math o gystrawen yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses ymyrryd. Er enghraifft, canran isel iawn o'r cyfieithwyr yn y gweithdai, sef 10% yn unig, gafodd eu dylanwadu gan y testun ffynhonnell wrth drosi ymadroddion a oedd yn cynnwys dau enw mewn cyfosodiad, o gymharu â 41% yn achos ymadroddion genidol disgrifiadol a 74% yn achos enwau ar ôl arddodiaid. Cadarnhawyd hyn pan welwyd yr un enw yn ymyrryd yn y testun targed i raddau gwahanol iawn mewn gwahanol gystrawennau.

Yn ychwanegol, **darganfuwyd mai'r hyn a elwir yn "enwau hybrid" yn Saesneg,** sef enwau a all weithredu fel **enwau canlyniad** ac **enwau proses**, **oedd y math o enwau a achosodd yr ymyrraeth hon.** Yn ddiddorol iawn, er mai un enw â dau ystyr sydd yn y Saesneg, canfuwyd mai dau ddosbarth gair gwahanol a ddefnyddir wrth drosi'r enwau hyn i'r Gymraeg: berfenw i gyfleu'r ystyr proses, ond enw i gyfleu'r ystyr canlyniad.

- **Cymhwyso'r canfyddiadau at *Cysill***

O gofio mai'r testun Cymraeg yn unig a gaiff ei weld gan *Cysill*, roedd yn eglur bod **angen neilltuo a thagio enwau canlyniad** os am ddelio â'r math hwn o ymyrraeth.

Gwelwyd bod y rhan fwyaf o enwau canlyniad yn y cyfieithiadau yn cynnwys yr ôl-ddodiad "-(i)ad". O ganolbwyntio ar dagio'r enwau sy'n cynnwys yr ôl-ddodiad hwn gellid sicrhau bod *Cysill* yn mynd i'r afael â chanran uchel iawn o achosion o ymyrraeth. Yn anffodus, nid yw pob enw a lunnir gyda'r ôl-ddodiad "-(i)ad" yn enw canlyniad ond gwelwyd y byddai modd gwahaniaethu rhwng y gwahanol enwau ar sail eu ffurfiau lluosog a dileu rhai eraill â llaw yn ystod y broses dagio.

Fodd bynnag, sylwyd ar y ffaith na fyddai'n ddigonol tagio pob enw canlyniad fel bod neges yn ymddangos ar ryngwyneb *Cysill* bob tro y defnyddir un i rybuddio'r cyfieithydd bod angen berfenw yn ei le achos **weithiau mae angen cadw'r enw canlyniad**. Felly, o gofio nad yw'n bosibl i wirwyr gramadeg adnabod semanteg brawddegau, gofynnwyd a oedd modd i *Cysill* ddefnyddio'r cyd-destun cyfagos i adnabod pryd mae angen yr enw a phryd mae angen y berfenw. Gwelwyd nad oedd modd dibynnu ar y cyd-destun wrth geisio creu rheol ar gyfer y fath hon o ymyrraeth ac o'i herwydd, **awgrymwyd y dylai *Cysill* ddangos neges gyffredinol bob tro y defnyddir enw canlyniad**, gan ofyn i'r cyfieithydd ystyried a oes angen berfenw yn ei le. Byddai modd dangos isddewislen wedyn yn esbonio'r cyd-destunau gwahanol yn Gymraeg sy'n gofyn am ferfenw yn lle'r enw canlyniad.

I grynhoi, felly, gwelwyd bod y Saesneg yn dylanwadu ar y Gymraeg, o ran idiom, geirfa a chystrawen, wrth drosi. Gwyddys bod ymyrraeth yn fwy tebygol wrth drosi o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol oherwydd statws yr iaith y cyfieithir ohoni. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hwn wedi dangos y bydd modd rhaglennu'r gwirydd gramadeg *Cysill* i helpu cyfieithwyr i osgoi'r fath ymyrraeth yn y dyfodol, a hynny drwy adnabod y gwahaniaeth rhwng y defnydd o enwau proses yn Saesneg a berfenwau yn y Gymraeg.

6.2 Ymchwil pellach

O ystyried natur aml-ddisgyblaethol yr ymchwil, mae'n eglur bod sawl maes gwahanol lle y gellid cynnal ymchwil pellach.

Wrth droi at faes astudiaethau cyfieithu i ddechrau, mae'r ymchwil hwn wedi amlygu sut y mae nodweddion Saesneg yn ymyrryd mewn testunau Cymraeg wrth drosi, a hynny yn bennaf oherwydd statws yr iaith Saesneg fel iaith fwyafrifol. Yn ôl Toury (1995:278), mae ymyrraeth yn llawer mwy tebygol wrth drosi o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol na'r ffordd arall. Byddai'n fuddiol, felly, **ymchwilio i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**, gan gymharu'r canlyniadau â chanlyniadau'r ymchwil hwn er mwyn profi cywirdeb y gosodiad hwn. Hyd y gwyddys, nid oes unrhyw astudiaeth o'i bath wedi cael ei chynnal hyd yn hyn a byddai'n gyfraniad gwerthfawr nid yn unig at astudiaethau cyfieithu Saesneg-Cymraeg ond hefyd at astudiaethau cyffredinol ar y berthynas rhwng ieithoedd mwyafrifol ac ieithoedd lleiafrifol wrth gyfieithu.

Wrth gwrs, mae rhai pobl yn honni bod y Cymry Cymraeg, yn rhinwedd eu dwyieithrwydd, yn aml yn wynebu'r un heriau wrth gynhyrchu'r Gymraeg â'r rhai sy'n cyfieithu. Dywed Williams (1999:49):

> ...Un o broblemau mwyaf yr iaith Gymraeg yw bod pawb sy'n ei siarad yn ddwyieithog. Problem bellach yw bod ail iaith y rhan fwyaf ohonom yn digwydd bod yn un o'r ieithoedd cryfaf yn y byd, sef y Saesneg. Mae'r Saesneg wedyn yn cael effaith ar y ffordd yr ydym yn meddwl a'r ffordd yr ydym yn sgrifennu. Er nad ydym bob tro yn cyfieithu brawddeg Saesneg, rydym yn aml yn meddwl yn Saesneg ac wedyn yn gwneud yr un camgymeriadau ag y bydd rhai'n eu gwneud wrth gyfieithu.

Byddai'n werthfawr, felly, **gynnal ymchwil cyferbyniol ym maes ieithyddiaeth i ddylanwad y Saesneg ar iaith ysgrifenedig y Cymry Cymraeg** — gan ddefnyddio corpws *Cysill ar-lein*, o bosib — i ganfod a ydy'r Cymry Cymraeg mewn gwirionedd yn gwneud "yr un camgymeriadau" â'r rhai a welir yng ngwaith cyfieithwyr, ac os felly i ystyried goblygiadau hynny ym maes addysg ac ati.

Yn olaf, o gofio nod yr ymchwil o addasu *Cysill* at ddefnydd cyfieithwyr, mae'n eglur bod llawer mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn — maes sy'n cyflym ddatblygu. Oherwydd sgôp traethawd fel hyn, bu'n rhaid canolbwyntio ar un agwedd yn unig ar drosi a ystyriwyd yn broblemus, ond **gallai defnyddio'r fethodoleg 'meddwl yn uchel', lle y astudir yr hyn sy'n digwydd ym meddwl y cyfieithydd wrth drosi, amlygu nifer o broblemau eraill y byddai modd ceisio rhaglennu *Cysill* i ddelio â nhw.** Byddai ymchwil o'r fath yn torri cwys newydd ym myd cyfieithu.

ATODIADAU

ATODIAD 1: Y 4 DARN SAESNEG A GYFIEITHWYD YN Y GWEITHDAI

DARN 1 (BF)

There are two kinds of rock star: the ones with monster egos who sleep with everything that moves, and the ones with monster egos who sleep with everything that moves but eventually have families and turn into dads. There is a sweet inevitability about men who were once hell-raisers queuing up at parents' evenings and banning their children from smoking or going out on school nights. They may not have had much use for a moral compass, but they want everything proper when it comes to their kids. Unless, that is, you're talking about Bryan Ferry. Because Ferry has broken the one taboo even rock stars can't get away with: he is going out with his son's twentysomething ex.

Lets just imagine you are Isaac Ferry and you want to bring your girlfriend home. In the normal course of events, you'd be nervous. What you really don't want to be thinking is, "I hope Dad doesn't have a crack at this one". The faintest possibility of such a betrayal and you're a son with no safe home to go to.

It is bad enough to be dating at the same time as your parents, but if you actually have to compete with your father for partners, and then he wins hands down…How bad is that?

Bryan's new squeeze insists that she's known him for ages, and it was five years ago that she and Isaac were an item. And admittedly, the charter between rock-star parents and children is subtly different to the one between regular parents and children. The children of rock stars are inured to hair dye and funny hats and eyeliner. There is every possibility there will be high jinks and too much booze. But there is still a line that must never be crossed. And when dads start moving in on their sons' girlfriends, that's just not rock'n'roll.

(311 gair)

The Sunday Times

DARN 2 (CANWR)

A blazing star was born in this year's BBC Cardiff Singer of the World – or would have been, had the judges shown any collective sense.

Yuriy Mynenko is a 30-year old Ukrainian male soprano who commands a staggering virtuosity and power that puts him in another league to other counter-tenors. My guess indeed is that he sounds closer to the legendary castrati than anything that's been heard since Napoleon abolished "the cut" two centuries ago.

Mynenko's phenomenal voice is married to rock-solid technique, sensitive musicianship and stylistic intelligence. There was no sense of a grotesque falsetto stunt in his singing: his interpretations had real depth. In a melancholy aria by Broschi, he brought a lump to my throat; in the runs of "Crude furie" from Handel's *Serse*, he was simply dazzling; and in Rossini's "Di tanti palpiti", he showed that he was more than capable of entering the bel canto repertory.

I'd put good money on him rocketing to a sensational international career, but he didn't win. The judges plumped instead for a lissome blonde Russian soprano, 32-year-old Ekaterina Shcherbachenko, who has sung several leading roles at the Bolshoi Opera in Moscow, and who shouldn't have been eligible for a competition intended to promote the up and coming rather than the arrived. Time for some stiffening of the competition's rules?

She did some meltingly lovely things with Liu's first aria from *Turandot*, but she blew the climax of Anne's aria from *The Rake's Progress*, and sang Gounod's "Jewel Song" in mushy, heavily accented French. She struck me as useful and attractive, but not exceptional.

(263 gair)

Daily Telegraph

DARN 3 (CARVAJAL)

Before dawn one morning in June 1612, an elderly Frenchman took charge of a carriage carrying a precious cargo near Tyburn Fields, London's notorious place of execution. It was heading for a house in Spitalfields, where a wizened Spanish woman was awaiting to receive the mortal remains of freshly-martyred Catholic priests. Her name was Luisa de Carvajal.

Born into a great Spanish noble family, Luisa suffered a horribly abusive childhood and from her early years hankered to become a martyr for her faith. For almost twenty years she struggled to become possibly the first female missionary of modern times.

In 1605 – the year of the Gunpowder Plot – she was secreted into England by the Jesuits despite the fact that she spoke not a word of English. To everyone's surprise including her own, she steadily assumed a prominent role within London's underground Catholic community, setting up an unofficial nunnery, offering Roman priests a secure place to live, consoling prisoners awaiting execution, importing banned books, and helping persecuted Catholics to flee abroad. Throughout this time she ran the risk of imprisonment and possibly even execution, yet she managed to avoid this ultimate fate in spite of being arrested on a number of occasions.

Among those priests caught up in King James' persecution was the Welshman John Roberts, a Benedictine. Under the name of Wilson he had preached to the Spanish embassy's English-speaking staff and was nicknamed the 'parish priest of London'. He was praised for his willingness to comfort those dying from the plague.

Roberts was captured after celebrating mass on 2 December 1610 and eight days later was put to death. Despite her chronic ill health, Luisa went to see him in Newgate. After the inevitable condemnation, Luisa sent him pear tartlets.

(292 gair)

The She-Apostle: The Extraordinary Life and Death of Luisa de Carvajal, Glyn Redworth OUP 2008

DARN 4 (HAFREN)

It has been three decades since Whitehall first looked into harnessing energy from the the Severn estuary's tides. At every turn it has been rejected for financial and environmental reasons. The newfound need to "go green" could finally push it over the line.

Last month the government breathed fresh life into the idea of building a "barrage" of up to 10 miles stretching across the waterway that it says could provide up to 5% of the country's energy needs.

The plan for a barrage from Cardiff to Weston-super-Mare was one of five short-listed for consultation. Other ideas include tidal reefs and lagoons that would produce a fraction of the energy but cost much less and do less environmental harm.

Campaigners like the Royal Society for the Protection of Birds have railed against the destruction of vital habitats.

It could create as many as 18,000 construction jobs but some government and industry bean-counters argue that the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere. The environmentally friendly lagoon and reef ideas, which would produce as little as a fifth of the energy of the big barrage, seem to fall short of the government's stated goal of producing a "strategically significant" amount of energy from the project.

A conference that the Institution of Civil Engineers is holding next week on the issue will call on the government to resurrect the most ambitious idea of all, a barrage from Minehead to Aberthaw that would cost up to £30 billion to build - £10 billion more than the short-listed Cardiff-Weston project. It costs 50% more but it will produce 50% more power.

If history is a guide, however, the most likely outcome is that in another three decades the Severn's tides will still be flowing free and unencumbered.

(296 gair)

The Sunday Times

ATODIAD 2: TELERAU DEFNYDD *CYSILL AR-LEIN*

Cysill Ar-lein
gwirydd sillafu a gramadeg am ddim

Telerau Defnydd

Cymraeg English

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau defnyddio Cysill ar-lein ac yn cael budd ohono. Ar yr amod eich bod yn darllen ac yn derbyn y telerau a ddisgrifir ar y dudalen hon, rydych yn rhydd i ddefnyddio'r wefan hon i'ch helpu i ysgrifennu ac awdura testunau a chynnwys Cymraeg.

Mae gwefan Cysill ar-lein yn darparu ffordd i'ch galluogi i ddefnyddio gwirydd sillafu a gramadeg Cymraeg am ddim, ac os oes gennych gyswllt rhyngrwyd da, i wneud hynny ar unrhyw lwyfan cyfrifiadura, boed yn Linux, Windows, Mac OS X neu unrhyw ddyfais symudol.

Oherwydd ffactorau technolegol, mae swyddogaethau Cysill ar-lein yn gyfyngedig o'u cymharu â'r fersiwn lawn y gellwch ei gosod yn lleol ar eich peiriant Windows. Gweler tudalen cartref Cysgliad am ragor o wybodaeth ar sut i gael gafael ar y fersiwn lawn o Cysill.

Nid oes unrhyw warant y bydd Cysill ar-lein ar gael 100% o'r amser. O dro i dro mae angen i ni wneud gwaith cynnal a chadw ar ein gweinydd(ion) a dylech fod yn ymwybodol y gall hyn gyfyngu ar wasanaeth Cysill ar-lein.

Hoffem hefyd i chi fod yn ymwybodol, wrth i chi ddefnyddio Cysill ar-lein, y bydd eich testunau yn cael eu danfon at ein gweinydd(ion) er mwyn gwirio'r sillafu a'r gramadeg. Bydd Cysill ar-lein yn cofnodi unrhyw destun sy'n cael ei yrru ato i'w brawfddarllen. Gall y testun hwnnw gael ei ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer ymchwil academaidd a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad Cysill ac offer iaith tebyg yn y dyfodol. Pe bai hyn i ddigwydd, byddwn yn gwneud ein gorau i anonymeiddio unrhyw enwau personol ac enwau lleoedd. Er hynny, ni ddylech ddefnyddio Cysill ar-lein i wirio unrhyw ddogfen sydd o natur gyfrinachol neu sensitif. Gallwch ddefnyddio'r fersiwn lawn o Cysill sy'n rhan o becyn Cysgliad os yw hyn eich pryderu.

Nid yw Cysill ar-lein yn dod gyda gwarant na hyd yn oed awgrym o warant ei fod yn ffit at ddiben arbennig. Yn ychwanegol, ni fydd Prifysgol Bangor yn atebol i chi am iawndal arbennig, ariannol, canlyniadol, cysylltiedig nac anuniongyrchol.

Gall y telerau hyn newid dros amser, ac os digwydd hynny, byddwn yn dweud wrthych ac yn gofyn i chi ddarllen a derbyn y telerau defnydd unwaith eto.

Ariannwyd Cysill ar-lein gan Brifysgol Bangor.

Derbyn

ATODIAD 3: MARCWYR Y CYFIEITHIADAU

Cyfieithiad	Marciwr	Cyfieithiad	Marciwr	Cyfieithiad	Marciwr
BF01	A	BF38	B	Hafren22	B
BF04	A	BF39	B	Hafren23	A
BF05	B	BF40	B	Hafren24	B
BF06	A	BF41	B	Hafren25	B
BF07	B	BF42	B	Hafren26	B
BF08	A	Canwr01	C	Hafren27	B
BF09	B	Canwr02	A	Hafren28	B
BF10	A	Canwr03	C	Hafren29	B
BF11	A	Canwr04	A	Hafren30	A
BF13	A	Canwr05	A	Hafren31	A
BF14	A	Canwr06	A	Hafren32	A
BF15	A	Hafren01	A	Hafren33	A
BF16	A	Hafren02	A	Hafren34	A
BF17	A	Hafren03	A	Hafren35	A
BF18	A	Hafren04	B	Hafren36	A
BF19	B	Hafren05	B	Hafren37	A
BF20	A	Hafren06	A	Hafren38	A
BF23	A	Hafren07	B	Hafren39	A
BF24	A	Hafren08	A	Carvajal01	A
BF25	B	Hafren09	A	Carvajal02	A
BF26	A	Hafren10	A	Carvajal03	A
BF27	A	Hafren11	A	Carvajal04	C
BF28	B	Hafren12	A	Carvajal05	A
BF29	A	Hafren13	B	Carvajal06	C
BF30	A	Hafren14	A	Carvajal07	A
BF31	B	Hafren15	B	Carvajal08	C
BF32	B	Hafren16	A	Carvajal09	A
BF33	B	Hafren17	B	Carvajal10	A
BF34	A	Hafren18	A	Carvajal11	C
BF35	A	Hafren19	A	Carvajal12	A
BF36	A	Hafren20	B		
BF37	B	Hafren21	B		

ATODIAD 4: CANLLAWIAU I FARCWYR AC YMGEISWYR ARHOLIADAU CCC

CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol
- canllawiau i ymgeiswyr

Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Cymraeg safonol yw'r arddull ieithyddol a gydnabyddir yn norm yn yr iaith darged. Cydnabyddir bod cywair/cyweiriau'r darn gwreiddiol, wrth reswm, yn mynd i effeithio ar arddull y cyfieithiad. Y ffynonellau sy'n sylfaen i ddyfarniadau Bwrdd Arholi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw *Gramadeg y Gymraeg* Peter Wynn Thomas (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru), *Orgraff yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1987), *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru), *Geiriadur yr Academi* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru).

Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Saesneg safonol yw'r arddull ieithyddol a gydnabyddir yn norm yn yr iaith darged. Cydnabyddir bod cywair/cyweiriau'r darn gwreiddiol, wrth reswm, yn mynd i effeithio ar arddull y cyfieithiad. Y ffynonellau sy'n sylfaen i ddyfarniadau Bwrdd Arholi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw *A Grammar of Contemporary English*, Randolph Quirk *et al* (Longman) a *The Oxford English Dictionary.*

Aelodaeth Sylfaenol

Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei g/yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn a rhagor. Disgwylir iddo/i fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.

Drwy arholiad yn unig y gellir ymgeisio am Aelodaeth Sylfaenol. Cynhelir dau arholiad awr a 35 munud (95 munud) yr un ar ddiwrnod yr arholiad:

- Papur Un: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

- Papur Dau: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Mae pob papur arholiad yn cynnwys cyfieithu dau ddarn o tua 250 gair yr un.

Aelodaeth o'r Gymdeithas

Nid oes rhaid llwyddo yn y ddau arholiad cyn medru ennill aelodaeth o'r Gymdeithas. Gall ymgeisydd ddewis sefyll arholiad ar sail cyfieithu i un iaith yn unig. Os bydd ymgeisydd yn llwyddo, ac os caiff ei dderbyn yn aelod gan Fwrdd Cyfarwyddwyr CCC Cyf., dyfernir aelodaeth yn unol â'r iaith darged y mae'r ymgeisydd yn llwyddo ynddi a nodir y lefel(au) o aelodaeth yn glir ar y dystysgrif aelodaeth ac ar restr aelodau'r Gymdeithas ar ei gwefan.

Gwobr Goffa Wil Petherbridge

Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge - er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru - i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, yn ystod y ddwy rownd arholi a gynhelir yn yr hydref 2010 a'r gwanwyn 2011, os bernir bod teilyngdod.

Bwriedir cyflwyno'r wobr i'r ymgeisydd llwyddiannus mewn seremoni ar stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro, a gynhelir o 30 Gorffennaf i 6 Awst 2011.

Y Meini Prawf

Rhoddir cydnabyddiaeth gyfartal am y nodweddion canlynol wrth dafoli'r ddau ddarn:

Ystyr: Dealltwriaeth o'r pwnc a chyfleu gwybodaeth yn gywir

Cywair: Dewis addas o eirfa, priod-ddulliau, termau a chywair

Cystrawen: Cydlyniad a threfniadaeth brawddegau

Cywirdeb: Gramadeg, sillafu ac ati

Rhaid cael Gradd 1 neu 2 ym mhob un o'r 4 elfen yn y ddau ddarn er mwyn llwyddo.

Dyfernir Rhagoriaeth i ymgeiswyr sy'n ennill Gradd 1 ym mhob un o'r 4 elfen yn y ddau ddarn.

- **Ystyr**

Gradd 1 Dangos gallu datblygedig o ran gafael ar y deunydd a'r darn. Cyfleu gwybodaeth yn llwyddiannus drwyddi draw.

Gradd 2 Dangos gallu da o ran gafael ar y deunydd a'r darn. Weithiau'n cyfieithu'n rhy fras/rhy fanwl, neu ychydig yn niwlog.

Gradd 3 Dangos gallu o ran gafael ar y deunydd a'r darn. Dim gwallau mawr na hepgor gwybodaeth o bwys. Hepgor mân bethau wrth gyfleu gwybodaeth ond heb drosglwyddo gwybodaeth gamarweiniol. Wedi hepgor llai na 5% o'r testun gwreiddiol.

Gradd 4 Dangos rhyw radd o afael ar y deunydd a'r darn. Gwallau o bwys, sef gwallau sy'n trosglwyddo gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol. Hepgor gwybodaeth bwysig neu golli elfennau allweddol. Wedi hepgor mwy na 5% o'r testun.

Gradd 5 Dangos ei fod wedi ei drechu gan y deunydd a'r darn. Nifer o wallau mawr a mân sy'n rhoi gwybodaeth gamarweiniol mewn sawl man. Hepgor gwybodaeth bwysig. Wedi hepgor 15% neu ragor o'r testun.

- **Cywair**

Gradd 1 Dangos gallu datblygedig i adnabod, gwerthfawrogi ac arfer grym mynegiannol yr iaith yn raenus mewn gwahanol gyd-destunau.

Gradd 2 Dangos gallu da i adnabod, gwerthfawrogi ac arfer grym mynegiannol yr iaith mewn ystod o gyd-destunau. Geirfa, termau a phriod-ddulliau addas drwyddi draw, ond yn cynnwys ambell ymadrodd amhriodol.

Gradd 3 Dangos gallu i adnabod a gwerthfawrogi grym mynegiannol yr iaith. Geirfa, termau, priod-ddulliau addas gan amlaf ond rhai ymadroddion amhriodol yn amharu ar y cyfanwaith.

Gradd 4 Dangos rhyw radd o adnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o rym mynegiannol yr iaith. Rhai ymadroddion anaddas sy'n ystumio'r neges yn ddifrifol. Ni fydd cywair a phriod-ddulliau'n cyfateb i fwriad ac ystyr y gwreiddiol, bob amser, am eu bod yn anaddas.

Gradd 5 Dangos ei fod wedi ei drechu gan y darn. Heb ddangos gallu i adnabod a gwerthfawrogi grym mynegiannol yr iaith. Sawl ymadrodd trwsgl neu anaddas sy'n ystumio'r neges neu'n amharu arni. Fawr ddim ymdeimlad â chywair.

- **Cystrawen**

Gradd 1 Dangos gallu datblygedig wrth drafod y darn. Y cyfieithiad yn darllen fel darn gwreiddiol. Cyfluniad brawddegau, cysyllteiriau, a threfn y disgwrs oll yn llwyddiannus.

Gradd 2 Dangos gallu da wrth drafod y darn. Trefn dda. Cyfluniad a chydlyniad da yn gyffredinol. Rhai gwallau ond y gwaith yn agos at fod yn llwyddiannus. Trefn addas ar wybodaeth lle bo angen.

Gradd 3 Dangos gallu wrth drafod y darn. Cyfluniad cywir, er ychydig yn drwsgl weithiau.

Gradd 4 Dangos rhyw radd o allu wrth drafod y darn. Nodweddion cyfluniad y gwreiddiol yn amlwg ac yn anaddas yn y cyfieithiad. Rhyw ddiffyg rhediad/naturioldeb nad yw yn y gwreiddiol. Gall fod yn brennaidd trwy lynu'n rhy glòs wrth ymadroddion a chyfluniad y gwreiddiol. Gall fod yn rhy flodeuog neu â gormod o aralleirio.

Gradd 5 Dangos ei fod wedi ei drechu gan y darn. Heb fod yn debyg i ddarn gwreiddiol. Prennaidd a heb gydlyniad. Fawr ddim ymdrech i addasu cyfluniad brawddegau'r gwreiddiol wrth drosi.

- **Cywirdeb**

Gradd 1 Dangos gallu datblygedig o ran atalnodi, sillafu, gramadeg.

Gradd 2 Dangos gallu da o ran atalnodi, sillafu, gramadeg. Ychydig o lithriadau technegol nad ydynt yn amharu'n ddifrifol ar y darn – camsillafu, camdreiglo, acenion, atalnodi, camarfer y cysylltnod.

Gradd 3 Dangos gallu o ran atalnodi, sillafu, gramadeg. Nifer o lithriadau technegol sy'n amharu ar y darn – camsillafu, camdreiglo, acenion, atalnodi, camarfer y cysylltnod, gramadeg.

Gradd 4 Dangos rhyw radd o allu o ran atalnodi, sillafu, gramadeg ond llu o wallau sy'n dangos diffyg gafael digonol ar yr iaith darged ac yn amharu'n ddifrifol ar y darn.

Gradd 5 Dangos ei fod wedi ei drechu gan y darn. Nifer sylweddol o wallau technegol sy'n gwneud y darn yn annerbyniol o ran y canllaw arbennig hwn er y gallai fod iddo rinweddau eraill.

Nodiadau ychwanegol am y Meini Prawf

Ystyr

Bydd hyn yn cynnwys:

- Rhoi sylw i ystyr ddynodiadol a gwahaniaethau rhwng amrediad ystyron [dadansoddi 'cydrannau ystyr']. Enghreifftiau o gyfieithu'n rhy fanwl (*overtranslation*), sef 'cyfieithiad sy'n rhoi mwy o fanylder na'r uned gyfatebol yn yr iaith wreiddiol'; a chyfieithu'n rhy fras (*undertranslation*), sef cyfieithiad sy'n rhoi llai o fanylder na'r gwreiddiol, ac sy'n fwy cyffredinol.

- Cyfleu gwybodaeth ffeithiol heb golli elfennau allweddol.

- Cyfleu amser berfau (*tymp*) ac agweddau berfau (yr elfen o barhad neu gyflawniad yn briodol).
  - ystyr 'agwedd' yn y cyd-destun hwn yw 'gwahanol ffyrdd o ystyried ansawdd tymhorol mewnol sefyllfa' neu, 'categori o ffurfdroadau berfol sy'n mynegi parhad, ailadrodd, neu gyflawnder y weithred dan sylw' [cf Geiriadur Collins].

- Deall troadau ymadrodd a'u cyfleu'n gywir.

Cywair

Bydd hyn yn cynnwys:

- Ymdeimlad o gynefindra/naturioldeb rhai ffurfiau geirfaol, a dieithrwch rhai eraill [e.e. y gwahaniaeth rhwng cynefindra/naturioldeb rhai ffurfiau unigol a lluosog, megis adnoddau (adnodd), cyfle (cyfleoedd)].

- Ystyr gynodiadol/arlliw geiriau ac ymadroddion.
- Ymwybod â chywair, a'r amrywiadau o ran ffurfioldeb a helaethrwydd geirfa a phatrymau/cystrawen, ac agweddau ar arddull, e.e., grym emosiynol/angerdd ffurfiau.
- Defnyddio termau sy'n addas i'r pwnc a'r gynulleidfa.
- Defnyddio priod-ddulliau a throadau ymadrodd.

Cystrawen

Bydd hyn yn cynnwys:

- Defnyddio cystrawennau sy'n briodol ac yn naturiol i'r Gymraeg/Saesneg.
- Cyfleu pwyslais a rhythm brawddegau trwy gystrawennau addas.
- Defnyddio'r rhannau ymadrodd sy'n briodol i'r Gymraeg/Saesneg (sy'n golygu newid cyflwr/dosbarth gramadegol geiriau wrth drosi).
- Rhannu cyfluniad brawddegau'n addas i deithi'r iaith.
- Defnyddio cyfuniadau o eiriau sy'n gyson â theithi'r iaith (h.y. patrymau geirfaol nad ydynt yn droadau fel y cyfryw) [*collocations*: 'dau neu ragor o eiriau sy'n cyd-fynd yn 'hapus' neu'n naturiol â'i gilydd'.
- Trefn cyflwyno gwybodaeth (achos/effaith/canlyniad).
- Safle ymadroddion adferfol, trefn ymadroddion genidol ac ansoddeiriol.
- Cydlyniad trwy isgymalau (*hypotaxis*), neu trwy gyfosod brawddegau syml (*parataxis*). Defnyddio cysyllteiriau'n briodol. Gosod isgymalau'n briodol.

Cywirdeb

Bydd hyn yn cynnwys

- Camsillafu.
- Camdreiglo.
- Mân bwyntiau gramadegol nad ydynt yn ddigon pwysig i'w cynnwys yn y categori ar gydlyniad, rhesymeg, trefniadaeth (cystrawen) ayb.
- Acenion.
- Atalnodi.
- Camarfer y cysylltnod.

ATODIAD 5: ENGHREIFFTIAU O YMYRRAETH YN Y GWAITH CYFIEITHU

Darn	Gwreiddiol	Cyfieithiad	Sylw'r marciwr	Categori
BF07	a) ...men who were once hell-raisers	a) ...dynion oedd yn arfer codi uffern	a) Ie, yn y Saesneg. Beth am 'chwarae'r diawl' fel idiom Cymraeg?	a) Idiom
BF13	a) ... eventually have families...	a) ...y maent yn diweddu i fyny gyda theuluoedd...	a) Er bod 'diweddu i fyny' yn ymdrech i gyfieithu 'eventually', y mae, gwaetha'r modd, yn dilyn idiom arall Saesneg, 'to end up with'. Gellid defnyddio 'yn y pen draw'.	a) Idiom
	b) ...when it comes to their kids.	b) ...pan mae'n dod i'w plant.	b) Mae 'mae'n dod i'w plant' yn gyfieithiad llythrennol o idiom Saesneg 'when it comes to'. Oes modd osgoi hyn - 'wrth drafod eu plant', 'yn achos eu plant'?	b) Idiom
BF18	a) There is a sweet inevitability about men...	a) Mae yna deimlad o anocheledd melys am ddynion...	a) Mae 'anocheledd melys' yn iawn wrth gwrs, ond yn dilyn y Saesneg yn llythrennol ac yn rhoi cyfuniad sydd eto ychydig yn anarferol. Beth am 'deimlad melys/braf o anocheledd', neu 'melys o anochel'?	a) Cystrawen
BF27	a) ...when it comes to their kids.	a) ...pan mae'n dod i'w plant.	a) Mae 'dod i'w plant' yn gyfieithiad llythrennol, a'r ystyr yn mynd ar goll i raddau - 'yn achos eu plant'?	a) Idiom
BF28	a) ...and turn into dads.	a) ...ac yn troi mewn i dadau.	a) Na. Saesneg yw hyn! 'Troi'n dadau'.	a) Idiom
BF31	a) ...when it comes to their kids.	a) ... pan ddaw at eu plant.	a) Cymraeg Saesneg? 'Yn achos eu plant nhw/o ran eu plant'.	a) Idiom
	b) There is every possibility there will be...	b) Ceir pob posibilrwydd y bydd...	b) Dilyn y Saesneg? 'Mae pob posibilrwydd y /mae'n fwy na thebyg'.	b) Idiom
BF32	a) ...when it comes to their kids.	a) ...pan ddaw at eu plant eu hunain.	a) Saesneg? Nid wy'n credu y byddech yn dweud hyn - 'yn achos eu plant eu hunain/ar gyfer '.	a) Idiom
	b) There is every possibility there will be...	b) Mae pob posibilrwydd y bydd...	b) Dilyn y Saesneg yn slafaidd. Beth am 'mae'n fwy na thebyg'?	b) Idiom
BF33	a) ...and turn into dads.	a) ... a throi i mewn i dadau.	a) Na. Saesneg yw hyn - 'troi yn'.	a) Idiom
	b) There is every possibility there will be...	b) Mae'n pob posibilrwydd bydd...	b) Na! Saesneg yw hwn. Gwell ymadrodd Cymraeg rhywiog fel 'mae'n fwy na thebyg/mae'n bur debyg'.	b) Idiom
BF36	a) ...but eventually	a) ...ond sydd o'r	a) Mae 'yn cael teuluoedd'	a) Idiom

	have families...	diwedd yn cael teuluoedd...	ychydig yn rhyfedd yn y Gymraeg: 'have a family' yn Saesneg yw 'magu teulu' efallai?	
	b) There is a sweet inevitability about men...	b) Mae yna anocheledd melys ynglŷn â dynion...	b) Mae 'anocheledd melys' yn gyfieithiad llythrennol. Mae'n aml yn dda newid y rhannau ymadrodd, felly gallai 'melys o anochel' fod yn iawn yma.	b) Cystrawen
	c) ... the one taboo even rock stars can't get away with:	c) ... un tabŵ na all hyd yn oed sêr roc ddod bant â:	c) Mae 'dod bant â' ar ddiwedd brawddeg yn gyfieithiad llythrennol. Byddai 'torri' tabw yn iawn.	c) Idiom
	ch) ...he is going out with his son's twentysomething ex.	ch) ...mae'n mynd allan gyda chyn cariad ugain rhywbeth ei fab	ch) Mae 'ugain rhywbeth' eto'n cadw'n rhy agos at y Saesneg. Dyw'r ystyr ddim yn glir yn y Gymraeg. Mae 'yn ei hugeiniau' yn well yn Gymraeg.	ch) Idiom
	d) ... admittedly...	d) ... yn gyfaddefol...	d) Unwaith eto mae 'yn gyfaddefol' yn gyfieithiad llythrennol, sy'n anodd ei ddeall yn Gymraeg. Byddai 'a dweud y gwir' neu 'rhaid cyfaddef' yn fwy naturiol.	d) Idiom
BF38	a) But there is still a line...	a) Ond mae yno dal linell...	a) Cofiwch mai berfenw'r ferf 'dal' = 'to hold' yw hwn ac nid gair yn cyfieithu'r adferf Saesneg 'still'. Felly mae angen yr 'yn' berfenwol o'i flaen - 'mae yna linell yn dal...'	a) Cystrawen
BF42	a) ... and turn into dads.	a) ...a throi mewn i dadau.	a) Saesneg yw hwn! 'Troi yn dadau' sy'n gywir.	a) Idiom
	b) In the normal course of events...	b) Gyda threigl amser arferol...	b) Ystyr. Glynu at y Saesneg. Yn syml 'yn naturiol/yn nhrefn normal pethau/yn normal'.	b) Idiom
	c) ...have a crack at this one.	c) ... yn rhoi tro ar hon.	c) Eto, tueddu dilyn y Saesneg. Beth am 'drio'i lwc/cael ei fachau ar hon'?	c) Idiom
Canwr01	a) ...that puts him in another league to other counter-tenors.	a) ... sy'n ei osod mewn dosbarth uwch nag uwchdenoriaid eraill.	a) Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg.	a) Idiom
	b) ... he brought a lump to my throat;	b) ... ddaeth lwmp i'm gwddf;	b) Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.	b) Idiom
Canwr02	a) ...that puts him in another league	a) ... sy'n ei osod mewn cynghrair ar	a) Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y	a) Idiom

	to other counter-tenors. b) ... he brought a lump to my throat;	wahân i uwchdenoriaid eraill. b) Daeth â lwmp i'm gwddw;	Gymraeg. b) Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.	b) Idiom
Canwr03	a) ...that puts him in another league to other counter-tenors. b) My guess indeed is... c) ... he brought a lump to my throat;	a) ...sy'n ei roi mewn cynghrair arall i uwchdenoriaid eraill. b) Fy amcandyb i yw... c) ...daeth e â lwmp i'm gwddf;	a) Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg. b) Braidd yn annaturiol a llythrennol. Beth am 'yn fy marn i'? c) Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.	a) Idiom b) Idiom c) Idiom
Canwr05	a) ...that puts him in another league to other counter-tenors. b) ... he brought a lump to my throat;	a) ...sy'n ei roi mewn dosbarth arwahan i'w gyd-denoriaid a chyfoedion. b) ...daeth a lwmp i'm gwddf;	a) Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg. b) Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.	a) Idiom b) Idiom
Canwr06	a) ...that puts him in another league to other counter-tenors. b) ... he brought a lump to my throat;	a) ... sy'n ei roi mewn cynghrair wahanol i uwch-denoriaid eraill b) ... daeth â lwmp i'm llwnc;	a) Cofiwch ein bod yn dweud 'mewn cae arall' yn y Gymraeg. b) Cofia mai ymadrodd Seisnig yw hwn. Byddai 'fe'm cyffyrddodd i'r byw' yn gynnig da.	a) Idiom b) Idiom
Carvajal03	a) ...despite the fact that she spoke not a word of English.	a) ... er gwaetha'r ffaith nad oedd yn siarad gair o Saesneg.	a) Mae'r Saesneg yn hoff o 'the fact that'. Gellir hepgor hyn – 'er nad oedd yn..'.	a) Cystrawen
Carvajal04	a) Born into a great Spanish noble family... b) To everyone's surprise including her own... c) ...was put to death. ch) Despite her	a) Yn un o deuluoedd bonheddig Sbaen... b) Er syndod i bawb, gan gynnwys hi ei hun... c) ... cafodd ei roi i farwolaeth. ch) Er gwaethaf ei	a) Cystrawen. Y dull arferol o gyfieithu'r gystrawen hon i'r Gymraeg fyddai dweud – 'A hithau wedi ei geni i.....'. b) Rydych yn glynu'n rhy gaeth i'r gystrawen Saesneg. Byddai dweud 'ac iddi hithau' yn llawer mwy naturiol. c) Adleisio gormod o'r gwreiddiol gen i. Byddwn i wedi dweud 'dienyddio'. ch) Beth am ddweud, 'er ei	a) Cystrawen b) Cystrawen c) Cystrawen ch) Cystrawen

	chronic ill health... d) ...pear tartlets.	hafiechyd ofnadwy... d) ...dartledi gellygen...	bod yn ddynes wael, aeth....'? Dyna'r ffordd naturiol o ddweud hyn yn Gymraeg. d) Mae angen y lluosog yma – tartledi gellyg, e.e. 'Siop lyfrau' sy'n gywir yn Gymraeg ac nid 'siop lyfr'.	 d) Geirfa
Carvajal06	a) ...she was secreted into England... b) To everyone's surprise including her own... c) .. she steadily assumed a prominent role... ch) Despite her chronic ill health...	a) ...cafodd ei chludo i mewn i Loegr... b) Er mawr syndod i bawb, gan gynnwys iddi hi... c) ... yn raddol mabwysiadodd rôl blaenllaw... ch) Er gwaethaf ei hafiechyd cronig...	a) Mae'r 'i mewn' yn ddiangen. Gellid dweud 'cludwyd hi yn ddirgel '. b) Digon teg, ond a oes gwir angen 'cynnwys'? Byddai dweud 'ac iddi hithau hefyd' yn fwy naturiol yn y Gymraeg. c) A oes angen glynu mor gaeth â hyn i'r Saesneg mewn gwirionedd? Byddai dweud 'enillodd le amlwg yn raddol'. ch) Cymreigio dipyn ar y cyfieithiad drwy ddweud 'er ei bod yn ddynes wael' - dyna'r ystyr.	a) Idiom b) Cystrawen c) Idiom ch) Cystrawen
Carvajal08	a) To everyone's surprise including her own... b) ...the Spanish embassy's English-speaking staff... c) Despite her chronic ill health...	a) Er mawr syndod i bawb, gan gynnwys hi ei hunan... b) ...staff y llysgenhadaeth Sbaeneg oedd yn Saesneg eu hiaith... c) Er gwaethaf ei gwaeledd cronig...	a) Neu'n syml yn Gymraeg, 'ac iddi hithau'. b) 'Llysgenhadaeth Sbaeneg' > 'llysgenhadaeth Sbaen'. Unwaith eto, peidiwch â chyfieithu'n llythrennol ond meddyliwch beth y byddech yn ei ddweud yn naturiol yn Gymraeg. c) Byddwn wedi ceisio cael ymadrodd mwy naturiol megis dweud er ei bod 'yn ddynes wael', neu'n 'dioddef o salwch hir'.	a) Cystrawen b) Cystrawen c) Cystrawen
Carvajal11	a) To everyone's surprise including her own... b) ...she ran the risk of imprisonment...	a) Er syndod i bawb, gan gynnwys hi ei hun... b) hwynebodd y risg o gael ei charcharu	a) Gallech fod wedi hepgor 'gan gynnwys' a dweud yn syml 'ac iddi hithau' - dyna sy'n naturiol yn Gymraeg. b) 'y risg o' - rydych wedi cadw'n ddiangen o glòs at y Saesneg. Byddai dweud 'mentro' yn cyfleu'r Saesneg yma – 'mentrodd gael ei...'	a) Cystrawen b) Idiom
Hafren01	a) ...argue that the £22 billion it could cost would be better spent elsewhere.	a) ...yn dadlau y byddai'r £22 biliwn yn well yn cael ei wario'n rhywle arall.	a) Byddai 'byddai'n well gwario £22 biliwn...' yn haws yn y Gymraeg na chadw at y goddefol yn y Saesneg.	a) Cystrawen

Hafren04	a) It has been three decades since... b) ...push it over the line. c) ...short-listed for consultation.	a) Mae hi wedi bod tri degawd ers... b) ...wthio'r syniad ... dros y llinell derfyn. c) ...ar y rhestr fer ar gyfer ymgyngoriad.	a) Patrwm Saesneg yw hwn. Gallech ddweud 'mae wedi bod yn dri degawd' neu 'aeth tri degawd heibio'. b) Byddai ymadrodd Cymraeg fel 'cael y maen i'r wal' wedi taro'n dda yma. c) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Idiom b) Idiom c) Cystrawen
Hafren05	a) ...push it over the line. b) ...the destruction of vital habitats.	a) ... ei gwthio dros y llinell. b) ...y dinistriad o gynefinoedd pwysig.	a) Dilyn y Saesneg braidd yn agos. Colli cyfle i ddefnyddio ymadrodd rhywiog Cymraeg fel 'cael y maen i'r wal'. b) Mae'n bwysig dysgu cystrawen y ffurf enidol yn y Gymraeg. Nid yw yr un peth â'r Saesneg. Cymharwch: 'The end of the road > diwedd y daith'. (Nid 'y diwedd o'r daith!') Teg dweud hefyd fod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'dinistrio' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'dinistrio cynefinoedd pwysig'.	a) Idiom b) Cystrawen & Cystrawen
Hafren07	a) ...push it over the line.	a) ...ei wthio dros y llinell.	a) Cyfieithiad yn dilyn y Saesneg yn agos. Colli cyfle i ddefnyddio ymadrodd Cymraeg rhywiog fel 'cael y maen i'r wal'.	a) Idiom
Hafren09	a) ...since Whitehall first looked into harnessing... b) ...the government breathed fresh life into the idea...	a) ...ers i San Steffan edrych am y tro cyntaf i ddefnyddio... b) ...anadlodd y llywodraeth fywyd newydd i'r syniad...	a) Rwy'n amheus o 'edrych… i', sy'n cyfateb i'r Saesneg 'look …into'. Gellid dweud 'edrych i mewn i' efallai, ond cystal peidio defnyddio 'edrych', a dewis 'astudio', 'archwilio' neu air tebyg. b) Ai idiom Saesneg yw 'breathe fresh life'? Os felly, does dim angen cyfieithu'n llythrennol. Gellid cyfieithu'r ystyr, gan ddefnyddio ymadrodd fel 'atgyfodi', neu 'adfywio'.	a) Idiom b) Idiom
Hafren10	a) ...the government breathed fresh life	a) Anadlwyd bywyd newydd gan y llywodraeth i'r	a) Tybed ydy hyn yn cadw'n rhy agos at yr idiom Saesneg? A fyddai 'adfywio' neu	a) Idiom

	into the idea...	syniad...	'atgyfodi' yn iawn?	
Hafren11	a) ...the government breathed fresh life into the idea...	a) ...anadlodd y llywodraeth fywyd newydd i'r syniad...	a) Gellir amau a oes angen cadw at yr idiom Saesneg 'breathe...', a chynnig 'adfywio', neu 'atgyfodi', ond nid gwall o gwbl yw hyn.	a) Idiom
Hafren13	a) ...short-listed for consultation.	a) ...gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer ymgynghoriad.	a) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Cystrawen
Hafren15	a) ...short-listed for consultation. b) ...fall short of the government's stated goal...	a) ...ar restr fer ar gyfer ymgynghoriad. b) ...yn syrthio'n brin o nod penodedig y llywodraeth...	a) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'. b) Pryd mae idiom Saesneg yn dod yn un Cymraeg? Byddwn i'n ddigon hapus â'r un sydd gennych chi yma. Mae Bruce yn rhoi 'siomi'r disgwyliadau'.	a) Cystrawen b) Idiom
Hafren17	a) ...short-listed for consultation.	a) ...ar y restr fer ar gyfer yr ymgynghoriad...	a) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Cystrawen
Hafren19	a) ... the government breathed fresh life into the idea...	a) ... anadlodd y llywodraeth fywyd newydd i'r syniad...	a) Dw i ddim yn siŵr oes angen cadw at yr un idiom 'anadlu bywyd'. 'Atgyfodi', efallai, neu 'adfywio'.	a) Idiom
Hafren21	a) ...push it over the line. b) ...short-listed for consultation.	a) ... gael ei wthio dros y llinell. b) ...ar restr fer ar gyfer ymgynghoriad.	a) Colli cyfle yma, efallai, i ddefnyddio ymadrodd Cymraeg rhywiog fel 'cael y maen i'r wal' yn lle dilyn y Saesneg yn slafaidd. b) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Idiom b) Cystrawen
Hafren22	a) ...since Whitehall first looked into harnessing...	a) ...ers chwiliwyd Llywodraeth Prydain i mewn i ddefnyddio..	a) 'chwilio . . . i mewn i': Idiom Saesneg? 'Edrych ar' neu 'ymchwilio i'.	a) Idiom

	b) ...short-listed for consultation.	b) ... dros dro am ymgynghoriad.	b) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	b) Cystrawen
	c) Other ideas include...	c) Syniadau eraill, gan gynnwys**...**	c) Ble mae berf y frawddeg hon? Cofiwch fod trefn eitemau mewn brawddeg Gymraeg fel rheol yn wahanol i'r Saesneg, hynny yw, Cymraeg: Berf + goddrych+ gwrthrych. Saesneg: Goddrych+berf+gwrthrych.	c) Cystrawen
Hafren26	a) ...seem to fall short of the government's stated goal...	a) ...yn ymddangos yn syrthio'n fyr o nod benodol y llywodraeth o gynhyrchu swm "strategol sylweddol" o ynni o'r prosiect.	a) Nid wy'n hoffi'r 'syrthio'n fyr o'r nod'. Credaf y byddai'r frawddeg yn fwy Cymraeg pe defnyddid y negyddol i gychwyn. Rhywbeth tebyg i 'Ymddengys na fyddai'r syniadau mwy cydnaws â'r amgylchedd . . . yn dod yn agos at gyrraedd nod y llywodraeth'.	a) Cystrawen
Hafren27	a) ...short-listed for consultation.	a) ...ar y rhestr fer o ymgynghoriadau...	a) Mae rhywbeth yn drwsgl ynghylch y gair 'ymgyngoriadau' a theg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Cystrawen
Hafren28	a) ...short-listed for consultation.	a) ...ar y rhestr fer ar gyfer ymgynghoriad.	a) Teg dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Cystrawen
	b) ...fall short of the government's stated goal...	b) ...ac felly'n syrthio'n fyr o nod y llywodraeth...	b) Nid wy'n hoffi'r 'syrthio'n fyr o'r nod'. Credaf y byddai'r frawddeg yn fwy Cymraeg pe defnyddid y negyddol i gychwyn. Rhywbeth tebyg i 'Ymddengys na fyddai'r syniadau mwy cydnaws â'r amgylchedd . . . yn dod yn agos at gyrraedd nod y llywodraeth'.	b) Cystrawen

Hafren29	a) ...short-listed for consultation.	a) ...ar restr fer ar gyfer ymgynghoriad.	a) Rhaid dweud bod y Saesneg yn fwy hoff o enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Byddai defnyddio'r berfenw 'ymgynghori' yn fwy cytnaws â'r Gymraeg. Rhywbeth fel 'i ymgynghori yn eu cylch'.	a) Cystrawen
Hafren31	a) ...in another three decades...	a) ...mewn tri degawd arall.	a) Byddai 'am dri degawd' yn iawn neu 'ymhen tri degawd'. Mae 'mewn tri degawd' yn dilyn y Saesneg	a) Idiom
Hafren33	a) At every turn... b) ...push it over the line. c) ... in another three decades...	a) Ar bob tro... b) ...ei wthio...dros y linell. c) ... mewn tri degawd arall...	a) Mae hyn yn gyfieithiad llythrennol o 'at every turn'. Beth am 'Bob tro...'? b) Mae hyn eto'n gyfieithiad llythrennol, ac nid yw'n gwneud fawr synnwyr yn y Gymraeg. Ai'r ystyr yw 'rhoi ar waith'? c) I fod yn bedantig, efallai y byddai 'ymhen tri degawd' yn well na dilyn y 'mewn' yn ôl y drefn Saesneg.	a) Idiom b) Idiom c) Idiom
Hafren38	a) ... the government breathed fresh life into the idea...	a) ...anadlodd y llywodraeth fywyd newydd i'r syniad...	a) Ydy 'anadlu bywyd newydd' yn cyfieithu'r ymadrodd Saesneg yn llythrennol? Gellid defnyddio 'atgyfodi'.	a) Idiom

CYFEIRIADAU

Andersen, O. (2007) Deverbal nouns as hybrids: some textual aspects. Yn Ahmad, K., & Rogers, M. (gol.) *Evidence-based LSP: translation, text and terminology*. 155-170. Bern: Peter Lang.

Andrews, T. (2010) *Current practice in website localization and its application to Welsh*. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor.

Atkins, S., Clear, J. & Ostler, N. (1992) Corpus design criteria. *Literary and Linguistic Computing*, 7 (1): 1-16.

Baker, M. (1992) *In other words: a coursebook on translation.* Llundain/Efrog Newydd: Routledge.

Baker, M. (1993) Corpus linguistics and translation studies: Implications and applications. Yn Baker, M., Francis, M.G., & Tognini-Bonelli, E. (gol.) *Text and Technology. In Honour of John Sinclair*. 233-250. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Baker, M. (1996) Corpus-based translation studies: the challenges that lie ahead. Yn Somers, H. (gol.) *Terminology, LSP and Translation: Studies in Language Engineering in honour of Juan C. Sager*. 175-186. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Baker, M. & Malmkjaer, K. (1998) *Routledge encyclopedia of translation studies.* Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.

Baker, M. & Saldanha, G. (2009 - ail argraffiad) *Routledge encyclopedia of translation studies.* Llundan ac Efrog Newydd: Routledge.

Baker, P. (2006) *Using corpora in discourse analysis*. Llundain ac Efrog Newydd: Continuum.

Biber, D. (1988) *Variation across Speech and Writing*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Biber, D., Conrad, S. & Reppen, R. (1998) *Corpus linguistics: investigating language structure and use*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Blum-Kulka, S. & Levenston, E.A. (1983) Universals of lexical simplification. Yn Faerch, C. & Kasper, G. (gol.) *Strategies in Interlanguage Communication*. 119-139. Llundain: Longman.

Borsley, R., Tallerman, M. & Willis, D. (2007) *The syntax of Welsh*. Caergrawnt/Efrog Newydd: Cambridge University Press.Burston, J. (1995-6) A comparative evaluation of French Grammar Checkers. *CALICO Journal*, 13 (2 & 3): 104-111.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006) *Strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cownie, A. (2001) *A dictionary of Welsh and English idiomatic phrases*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Cronin, M. (1995) Altered states: translation and minority languages. *TTR: traduction, terminologie, rédaction*, 8 (1): 85-103.

Culler, J. (1976) *Saussure*. Glasgow: Fontana/Collins.

Deignan, A. (2005) *Metaphor and corpus linguistics.* Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Dukāte, A. (2009) *Translation, manipulation, and interpreting*. Frankfurt: Peter Lang.

Ellis, N.C., Roberts, D. & O'Dochartaigh, C. (2000) IT for the Welsh language: the Cysill project. Yn Thomas, P.W. & Mathias, J. (gol.) *Developing minority languages: Proceedings of the fifth international conference on minority languages.* 698-721. Caerdydd: Gomer Press.

Facchinetti, R. (2007) *Corpus linguistics 25 years on*. Amsterdam: Rodopi.

Fernando, C. & Flavell, R. (1981) *On idiom: critical views and perspectives.* Exeter Linguistic Studies 5, Prifysgol Caerwysg.

Finegan, E. (2008) *Language: its structure and use.* Boston: Thomson Wadsworth.

Francis, W. (1982) Problems of assembling and computerizing large corpora. Yn Johansson, S. (gol.) *Computer corpora in English language research*. 7-24. Bergen: Norwegian Computing Centre for the Humanities.

Frawley, W. (1984) Prolegomenon to a theory of translation. Yn Frawley, W. (gol.) *Translation: literary, linguistic and philosophical perspectives.* 159-175. Llundain a Toronto: Associated University Presses.

Gardner-Chloros, P. (1991) *Language selection and switching in Strasbourg.* Rhydychen: Oxford University Press.

Gavioli, L. (2005) *Exploring corpora for ESP learning.* Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Gellerstam, M. (1986) Translationese in Swedish novels translated from English. Yn Wollin, L. & Lindquist, H. (gol.) *Translation studies in Scandinavia*. 88-95. Lund: CWK Gleerup.

Gentzler, E. (2001) *Contemporary translation theories*. Clevedon: Multilingual Matters.

Gramley, S. & Pätzold, K-M. (2004, ail argraffiad) *A survey of modern English*. Llundain: Routledge.

Griffiths, B. & Jones, D. (1995) *Geiriadur yr Academi*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Grimshaw, J.B. (1990) *Argument structure*. Caergrawnt: MIT Press.

Gruffudd, H. (2005) *Dechrau cyfieithu: llyfr ymarferion i rai sy'n dechrau ymddiddori mewn cyfieithu*. Aberystwyth: Y Ganolfan Astudiaethau Addysg.

Gurevich, O., Crouch, R., King, T.H., de Paiva, V. (2006) Deverbal nouns in knowledge representation. Yn FLAIRS proceedings. 670-675. Melbourne, Florida.

Hatim, B. & Munday, J. (2004) *Translation: an advanced resource book*. Llundain: Routledge.

Havlásková, Z. (2010) *Interference in Students' Translations.* Traethawd Meistr, Prifysgol Masaryk.Hickey, R. (2003) *Corpus presenter: software for language analysis*. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Hicks, W.J. (2004) Welsh proofing tools: making a little NLP go a long way. Yn *Proceedings of the 1st workshop on international proofing tools and language technologies.* Gwlad Groeg. EURAC Research.

Holmes, J.S. (1988) The name and nature of translation studies. Yn Holmes, J.S., *Translated! Papers on literary translation and translation studies*. 67-80. Amsterdam: Rodopi.

Hopkinson, C. (2007) Factors in linguistic interference: a case study in translation. *Skase Journal of Translation and Interpretation,* cyf. 2 (1): 13-23. Ar gael ar-lein yn http://www.skase.sk/Volumes/JTI02/pdf_doc/2.pdf [Cyrchwyd ym mis Medi 2010].

Humphreys, Ll. (2009) Automated English subtitling of Welsh TV programmes. Yn Alegria, I. *et al* (gol.) *Information retrieval and information extraction for less resourced languages*. 63-72. Sbaen: SALTMIL

Jespersen, O. (1961) *A modern English grammar on historical principles.* Cyfrol 2. Llundain: Allen ac Unwin.

Johns, T. (1997) Contexts: the background, development and trialling of a concordance-based CALL program. Yn Wichmann, A., Fligelstone, S., McEnery, T. & Knowles, G. (gol.) *Teaching and language corpora*. 100-115. Efrog Newydd: Addison Wesley Longman.

Jones, B.P. (2005a) *Hanes cyfieithu yng Nghymru*. Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd 'Cerrig Milltir' y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth. Ar gael ar-lein yn www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/darlithoedd.asp [Cyrchwyd ym mis Ionawr 2010].

Jones, B.P. (2005b) *Translation in Wales*. Anerchiad i gynhadledd yr Institute of Translating and Interpreting (ITI) yng Nghaerdydd. Ar gael ar-lein yn www.cyfieithwyrcymru.org.uk/cymraeg/adnodd/darlithoedd.asp [Cyrchwyd ym mis Ionawr 2010].

Jones, D. (1997) *Cyflwyniad i ddwyieithrwydd.* Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg.

Kastovsky, D. (1985) Deverbal nouns in Old and Modern English: from stem-formation to word-formation. Yn Fisiak, J. (gol.) *Historical semantics, historical word-formation.* 221-261. Berlin: Mouton.

Kaufmann, J. (2009) *Cymdeithaseg cyfieithu: dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd.* Traethawd PhD, Prifysgol Bangor.

Lagoudaki, E. (2006) *Translation memory systems: Enlightening users' perspective.* Imperial College London.
Ar gael ar-lein yn www.3.imperial.ac.uk/portal/pls/portallive/docs/1/7294521.PDF [Cyrchwyd ym mis Chwefror 2010].

Lamberger-Felber, H. & Schneider, J. (2008) Linguistic interference in simultaneous interpreting with text. Yn Hansen, G., Chesterman, A. & Gerzymisch-Arbogast, H. (gol.)

Efforts and models in interpreting and translation research. 215-236. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Laviosa, S. (2002) *Corpus-based translation studies: theory, findings, applications*. Amsterdam ac Efrog Newydd: Rodopi.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Arddulliadur Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cynulliad Cymru.*
Ar gael ar-lein yn http://wales.gov.uk/cisd/publications/translation/styleguidewelsh/ [Cyrchwyd ym mis Mawrth 2010].

Louw, B. (1997) The role of corpora in critical literary appreciation. Yn Wichmann, A., Fligelstone, S., McEnery, T. & Knowles, G. (gol.) *Teaching and language corpora.* 240-251. Efrog Newydd: Addison Wesley Longman.

Mauranen A. & Kujamäki, P. (2004) *Translation universals. Do they exist?* Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

McEnery, T. & Wilson, A. (2001) *Corpus Linguistics*. Caeredin: Edinburgh University Press.

McEnery, T., Xiao, R. & Tono, Y. (2006) *Corpus-based language studies: an advanced resource book.* Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.

Menter a Busnes (2005) *Arolwg o'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru.* Aberystwyth: Menter a Busnes ar gyfer CCC. Ar gael ar-lein yn www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/ [Cyrchwyd ym mis Mawrth 2010].

Munday, J. (2008) *Introducing translation studies: theories and applications.* Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.

Naber, D. (2003) *A Rule-based style and grammar checker*. Traethawd Meistr, Prifysgol Bielefeld.

Nelde, P.H. (1995) Language Contact. *Annual review of applied linguistics*, 15: 81-90.

Newmark, P. (1991) *About translation.* Clevedon: Multilingual Matters.

Nida, E. & Taber, C. (2003) *The Theory and Practice of Translation*. Leiden: Brill NV.

O'Keeffe, A., McCarthy, M. a Carter, R. (2007) *From corpus to classroom: language use and language teaching*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Olohan, M. (2004) *Introducing corpora in translation studies*.Llundain: Routledge.

Oostdijk, N. & de Haan, P. (1994) Clause patterns in modern British English: a corpus-based (quantitative) study. *ICAME Journal,* 18: 41-79.

Prys, D. (gol.) (2000) *Termau Hybu Iechyd*. Yr Wyddgrug: Prifysgol Cymru ac Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru.

Prys, D. *et al* (2006) *Y Termiadur: standardized Welsh terminology, English-Welsh, Welsh-English.* Caerdydd: Awdurdod cymwysterau, cwricwlwm ac asesu Cymru.

Prys, D. (2009) The development and acceptance of electronic resources for Welsh. Yn Lyding, V. (gol.) *Proceedings of the second colloquium on lesser used languages and computer linguistics (LULCL II).* 33-41. EURAC Research.

Prys, D. *et al* (2009) *Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y diwydiant cyfieithu yng Nghymru : arolwg dadansoddol* (Project Rhif: HE 06FSP 1014) Ar gael ar-lein yn www.catcymru.org/wordpress/wp-content/uploads/ [Cyrchwyd ym mis Ebrill 2010].

Quirk, R., Greenbaum, S., Leech, G. & Svartvik, J. (1985) *A Comprehensive Grammar of the English Language.* Llundain ac Efrog Newydd: Longman.

Radden, G. & Dirven, R. (2007) *Cognitive English grammar.* Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Riccardi, A. (gol.) (2002) *Translation studies: perspectives on an emerging discipline.* Caergrawnt: Cambridge University Press.

Römer, U. (2005) *Progressives, patterns, pedagogy: a corpus-driven approach to English progressive forms, functions, contexts and didactics*. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Rottet, K. (2005) Phrasal verbs in Welsh. *Word*, 56 (1):39-70.

Santos, D. (2004) *Translation-based corpus studies: contrasting English and Portuguese tense and aspect systems*. Amsterdam ac Efrog Newydd: Rodopi.

TermCymru: www.termcymru.cymru.gov.uk/ [Cyrchwyd ym mis Ebrill 2010].

Thomas, P.W. (1996) *Gramadeg y Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Tirkkonen-Condit, S. & Jääskeläinen, R. (gol.) (2000) *Tapping and Mapping the Processes of Translation and Interpreting*. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Tognini-Bonelli, E. (2001) *Corpus linguistics at work*. Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Toury, G. (1995) *Descriptive translation studies and beyond.* Amsterdam a Philadelphia: John Benjamins.

Venuti, L. (2004) *The translation studies reader*. Llundain: Routledge.

Weinreich, U. (1953) *Languages in contact.* Efrog Newydd: Linguistic Circle of New York.

Williams, C. (1999) *Cymraeg clir: canllawiau iaith*. Bangor: Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru Bangor.

Woolls, D. & Coulthard R.M. (1998) Tools for the trade. *Forensic Linguistics*. *The International Journal of Speech, Language and Law,* 5(1): 33-57.